



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 5 Mai 2010
Wednesday, 5 May 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs
- 19 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions for the Minister for Environment, Sustainability and Housing
- 37 Cynnig i Ddiwygio'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chyflogi Aelodau
Teuluoedd Aelodau'r Cynulliad
Motion to Amend Standing Orders with respect to the Employment of Family Members
by Assembly Members
- 38 Dadl Ceidwadwyr Cymru: Adolygiad Beecham
Welsh Conservatives Debate: The Beecham Review
- 65 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Plant mewn Tlodi
Welsh Liberal Democrats Debate: Children in Poverty
- 97 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 100 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog cefn gwlad. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister for Rural Affairs.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

CAWES

Q1 Christine Chapman: Will the Minister provide an update on the companion animal welfare enhancement scheme? OAQ(3)1037(RAF)

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): The companion animal welfare enhancement scheme, or CAWES, empowers local authorities in Wales to be proactive in dealing with welfare issues. It is aimed at raising levels of animal welfare, including the work that I have commissioned on reviewing the licensing of dog breeding in Wales.

Christine Chapman: I welcome the scheme. I also know that, under the scheme, bilingual materials have been produced to teach 7 to 11-year-olds how to respond, deal with and care for animals. It is important that we teach children how to act around these animals, showing them how to act responsibly, yet also how to look after them, and it is encouraging an approach that will last a lifetime. Will you investigate ways in which this scheme can be extended to give all children a greater understanding of how to behave properly around animals? Linked to that, I recently attended a good citizen dog scheme training class, where dogs were taught good behaviour and how to respond to their owners. Owners were also taught their obligations towards their dogs and how to properly control and train them. Do you agree, Minister, that these skills are necessary for the safety and wellbeing of dogs, their owners, and the community in general?

Elin Jones: Yes, and thank you for acknowledging that we have published our code of practice for the welfare of dogs, specifically targeted at young children. The

CAWES

C1 Christine Chapman: A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gwella lles anifeiliaid anwes? OAQ(3)1037(RAF)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Mae'r cynllun gwella lles anifeiliaid anwes, CAWES, yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i fod yn rhagweithiol wrth ymdrin â materion lles. Ei nod yw codi lefelau lles anifeiliaid, gan gynnwys y gwaith yr wyf wedi'i gomisiynu i adolygu'r modd y caiff bridio cŵn ei drwyddedu yng Nghymru.

Christine Chapman: Croesawaf y cynllun. Gwn hefyd fod deunyddiau dwyieithog wedi'u cynhyrchu, dan y cynllun, i addysgu plant 7 i 11 oed sut i ymateb i anifeiliaid, ymdrin â hwy a gofalu amdanynt. Mae'n bwysig inni addysgu plant sut i ymddwyn o gwmpas yr anifeiliaid hyn, gan ddangos iddynt sut i ymddwyn yn gyfrifol, ond sut i ofalu amdanynt hefyd, ac mae'n hybu agwedd a fydd yn para am oes. A wnewch chi ymchwilio i ffyrdd y gellir ymestyn y cynllun hwn i alluogi pob plentyn i ddeall yn well sut i ymddwyn yn briodol o gwmpas anifeiliaid? Mewn cysylltiad â hynny, bwm mewn dosbarth hyfforddi'n ddiweddar, dan y cynllun hyfforddi cŵn dinasyddion da, lle'r oedd cŵn yn cael dysgu sut i ymddwyn yn dda a sut i ymateb i'w perchnogion. Yn ogystal, câi'r perchnogion eu haddysgu am eu rhwymedigaethau o ran eu cŵn a sut i'w rheoli a'u hyfforddi'n gywir. A ydych yn cytuno, Weinidog, fod y sgiliau hyn yn angenrheidiol i ddiogelwch a lles cŵn, eu perchnogion, a'r gymuned yn gyffredinol?

Elin Jones: Ydw, a diolch am gydnabod ein bod wedi cyhoeddi ein cod ymarfer ar gyfer lles cŵn, sydd wedi'i dargedu'n benodol at blant ifanc. Y cyngor yr ydym wedi'i gael yw

advice that we have received is that young children are especially important with regard to the role that they play in relation to dogs and pets in the home. Therefore, ensuring that they are well-informed as to how dogs need to be cared for is extremely important. We have undertaken work with young children in schools to publicise these codes of practice for cats as well as dogs, so that we are able to influence the children, but also their parents and adults in the home setting.

I am glad that you have experienced the role that dog training classes can play in improving animal welfare and in the necessary training of dogs. I am sure that you were as pleased as I was that we were able recently in Wales to ban the use of electric shock dog and cat collars. That is something of which we can all be equally proud in the Chamber.

Brynle Williams: I found your answer to Christine's question on dogs most interesting. Moving on to the issue of the difficulty of enforcing the Animal Welfare Act 2006 in large cases of neglect and cruelty, and I thank you for responding to my recent short debate on this very matter. How much scope do you believe that there is for improving working arrangements under the Act, particularly in improving the speed of intervention to protect the welfare of the animals involved? What recent discussions have you had with trading standards officers and local authorities on how enforcement action under the Act can be made more effective?

Elin Jones: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol, fel Gweinidog, gyda swyddogion safonau masnach ar y materion hyn. Fodd bynnag, mae fy swyddogion mewn cysylltiad parhaus gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo defnydd o'r Ddeddf hon ar y cyd â'r codau ymarfer, ac i hyrwyddo ymarfer da o ran lles anifeiliaid a phwysigrwydd cymryd camau cyfreithiol yn y pen draw os nad oes unrhyw beth arall yn gallu delio â'r mater.

Support for Farmers

Q2 Darren Millar: Will the Minister make a statement on support for farmers?

bod plant ifanc yn arbennig o bwysig o ran eu rôl yng nghyswllt cŵn ac anifeiliaid anwes yn y cartref. Felly, mae'n hynod bwysig sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth am y modd y mae angen gofalu am gŵn. Yr ydym wedi gwneud gwaith gyda phlant ifanc mewn ysgolion i roi cyhoeddusrwydd i'r codau ymarfer hyn ar gyfer cathod yn ogystal â chŵn, er mwyn inni allu dylanwadu ar y plant, a dylanwadu hefyd ar eu rhieni ac ar oedolion sydd yn y cartref.

Yr wyf yn falch eich bod wedi cael profiad o rôl bosibl dosbarthiadau hyfforddi cŵn o ran gwella lles anifeiliaid a chynnig hyfforddiant angenrheidiol i gŵn. Yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel finnau, yn falch inni yng Nghymru lwyddo'n ddiweddar i wahardd pobl rhag defnyddio coleri sy'n rhoi sioc drydanol i gŵn a chathod. Mae'n rhywbeth y gall pob un ohonom yn y Siambr ymfalchïo ynddo.

Brynle Williams: Yr oedd eich ateb i gwestiwn Christine am gŵn yn ddi-ddorol tu hwnt, yn fy marn i. Hoffwn symud ymlaen at yr anhawster o orfodi Deddf Lles Anifeiliaid 2006 mewn achosion mawr o esgeulustod a chreulondeb, a diolch ichi am ymateb i'm dadl fer ar yr union fater hwnnw yn ddiweddar. Yn eich barn chi, faint o le sydd i wella trefniadau gweithio dan y Ddeddf, yn enwedig gwella pa mor gyflym yr ymyrrir i ddiogelu lles yr anifeiliaid dan sylw? Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn ddiweddar gyda swyddogion safonau masnach ac awdurdodau lleol ar y modd y gellir gwneud camau gorfodi dan y Ddeddf yn fwy effeithiol?

Elin Jones: I have not no direct discussions, as Minister, with trading standards officers on these matters. However, my officials are in constant contact with local authorities to promote the use of that Act with the codes of practice, and to promote good practice in terms of animal welfare and the importance of taking legal action ultimately if there is nothing else that can be done to deal with the matter.

Cefnogaeth i Ffermwyr

C2 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i ffermwyr?

OAQ(3)1036(RAF)

Elin Jones: The Welsh Government has put in place a substantial and comprehensive range of programmes to support the long-term sustainability and profitability of agriculture in Wales as well as the effective delivery of the single payment scheme.

Darren Millar: Thank you for that answer, Minister. You will know that the Welsh dairy industry has suffered greatly over the past 13 years and is in need of support to ensure its sustainability and viability in future. I noticed that you recently announced a package of measures for the industry worth £3 million over the next three years. Of course, that is an investment that we welcome on this side of the Chamber. Can you tell us a bit more about that investment today, Minister? How and where do you intend to spend that cash? How can dairy farmers in my constituency and elsewhere in Wales draw down that funding to benefit their businesses to ensure that they are viable?

Elin Jones: The £3 million that you refer to is the European dairy fund that has been allocated throughout the European Union. The sum of £3 million is our allocation here in Wales. It is available directly to all dairy farmers and will be paid to all dairy farmers according to the size of their enterprise. There is no need for them to make applications; the money will go straight into their bank accounts.

David Lloyd: O ran cefnogaeth i ffermwyr, a wnewch ymuno â mi i groesawu'r cytundeb rhwng cwmni archfarchnad Asda a dau gwmini Cymreig, yr Authentic Curry Company Cyf a Celtic Pride Cyf, i werthu cig eidion o Gymru mewn archfarchnadoedd ar hyd a lled Cymru?

Elin Jones: Yr wyf bob amser yn falch o weld archfarchnad yng Nghymru, a thu hwnt i Gymru o ran hynny, yn gwerthu cynnyrch cig o Gymru, a chig coch yn arbennig. Mae Hybu Cig Cymru yn gwneud gwaith pwysig i hybu'r sector cig coch yn ein harchfarchnadoedd ac mae'n dda i weld proseswyr bwyd a busnesau unigol yn gweld

OAQ(3)1036(RAF)

Elin Jones: Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi amrywiaeth o raglenni sylweddol a chynhwysfawr ar waith er mwyn cefnogi cynaliadwyedd a phroffidioldeb y diwydiant amaeth yng Nghymru, yn ogystal â chyflawni cynllun y taliad senl yn effeithiol.

Darren Millar: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Gwyddoch fod y diwydiant godro yng Nghymru wedi dioddef yn enbyd dros y 13 mlynedd diwethaf, a bod arno angen cymorth i sicrhau ei gynaliadwyedd a'i hyfywedd yn y dyfodol. Sylwais ichi gyhoeddi pecyn o fesurau ar gyfer y diwydiant yn ddiweddar, sy'n werth £3 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Wrth gwrs, mae'n fuddsoddiad a groesewir gennym yr ochr hon i'r Siambr. A allwch ddweud ychydig yn rhagor wrthym heddiw am y buddsoddiad hwnnw, Weinidog? Sut ac ymhle y bwriadwch wario'r arian hwnnw? Sut y gall ffermwyr godro yn fy etholaeth i ac mewn rhannau eraill o Gymru gael y cyllid hwnnw er mwyn iddo fod o fudd i'w busnesau i sicrhau eu bod yn hyfyw?

Elin Jones: Y gronfa Ewropeaidd i ffermwyr godro yw'r £3 miliwn yr ydych yn cyfeirio ato, ac mae'r arian wedi'i ddyrannu ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Dyrannwyd £3 miliwn inni yma yng Nghymru. Mae ar gael yn uniongyrchol i bob ffermwr godro, a chaiff ei dalu i bob ffermwr godro yn ôl maint ei fusnes. Nid oes angen iddynt gyflwyno ceisiadau; bydd yr arian yn mynd yn syth i'w cyfrifon banc.

David Lloyd: On support for farmers, will you join me in welcoming the contract between the Asda supermarket company and two Welsh companies, the Authentic Curry Company Ltd and Celtic Pride Ltd, to sell Welsh beef in supermarkets throughout Wales?

Elin Jones: I am always pleased to see a supermarket in Wales and beyond, if it comes to that, stocking Welsh meat products, and red meat in particular. Hybu Cig Cymru does very important work in promoting the red meat sector in our supermarkets, and it is good to see food processors and individual companies seeing the opportunities to use

y cyfleoedd i ddefnyddio cig o Gymru er mwyn gwerthu bwydydd sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru, a nid mewn archfarchnadoedd yng Nghymru yn unig. Yr her i ni, wrth gwrs, yw gwerthu tu hwnt i'n ffiniau mewn archfarchnadoedd yn Lloegr.

Welsh meat to sell food products that are produced in Wales, and not only in supermarkets in Wales. The challenge for us, of course, is to sell beyond our boundaries in supermarkets in England.

Bovine TB

Q3 Lorraine Barrett: Will the Minister provide an update on the measures used to prevent the spread of bovine TB? OAQ(3)1039(RAF)

Elin Jones: The Tuberculosis (Wales) Order 2010 was laid recently and will come into force on 25 May. Among other things, the Order proposes changes to both pre-movement testing exemptions and compensation arrangements, so that farmers who do not comply with TB legislation, for example by not complying with testing, will receive less compensation.

Lorraine Barrett: I saw that the Order had been laid, and that was very welcome. Given that the Independent Scientific Group on Cattle TB said that culling badgers can make no meaningful contribution to TB control, I believe that it is only a multifaceted approach that will tackle the disease, with more frequent cattle testing, the use of vaccinations—as is being trialled in England—and stricter controls on the movement of cattle. Will you give an assurance that you will implement these policies with as much vigour as you possibly can?

Elin Jones: I believe that the approach that we are taking in Wales to eradicate TB is multifaceted. I accept that it includes a specific aspect that you do not agree with, but I hope that you will see that, as a Government, we are looking to clamp down on this disease in all its guises. In particular, we are vigorously pursuing far more rigorous cattle testing in Wales. There will be an annual test of cattle again this year, as was the case last year. That goes well beyond what is happening in other parts of the UK. Indeed, in the wildlife cull area, we will be looking to introduce even more rigid cattle

TB mewn Gwartheg

C3 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerir i atal TB mewn gwartheg rhag lledu? OAQ(3)1039(RAF)

Elin Jones: Cafodd Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 ei osod yn ddiweddar, a bydd yn dod i rym ar 25 Mai. Ymhlith pethau eraill, mae'r Gorchymyn yn cynnig newidiadau mewn eithriadau i brofion cyn symud anifeiliaid a hefyd newidiadau mewn trefniadau talu iawndal, fel y bydd ffermwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar TB, er enghraifft, drwy beidio â chydymffurfio â'r drefn cynnal profion yn cael llai o iawndal.

Lorraine Barrett: Gwelais fod y Gorchymyn wedi'i osod, ac yr oedd hynny i'w groesawu'n fawr. O gofio i'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg ddweud na all difa moch daear gyfrannu'n ystyrllon o gwbl at reoli TB, credaf mai dull gweithredu amlweddog yw'r unig ffordd o fynd i'r afael â'r clefyd, sy'n cynnwys cynnal profion yn amlach ar wartheg, defnyddio brechiadau—fel sy'n cael eu treialu yn Lloegr—a chadw rheolaeth lymach ar symud gwartheg. A rowch chi sicrhwydd inni y byddwch yn gweithredu'r polisïau hyn mor egnïol ag y gallwch?

Elin Jones: Credaf fod y dull gweithredu yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru i ddileu TB yn amlweddog. Derbyniaf ei fod yn cynnwys agwedd benodol nad ydych yn cytuno â hi, ond gobeithio y gwelwch ein bod, fel Llywodraeth, yn ceisio atal y clefyd hwn yn ei holl ffurfiau. Yn benodol, yr ydym wrthi'n brysur yn mynd ar drywydd profion mwy trylwyr o lawer ar wartheg yng Nghymru. Bydd gwartheg yn cael prawf blynyddol unwaith eto eleni, fel y gwnaed y llynedd. Mae hynny'n fwy o lawer nag sy'n sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU. Yn wir, yn yr ardal difa bywyd gwyllt

movement restrictions and cattle testing measures.

Joyce Watson: Minister, I am concerned about the effect that the £9 million badger cull will have on the tourism industry in Pembrokeshire and Ceredigion. I believe that the Order that you laid yesterday, linking compensation to farmers' records on good practice, will help prevent cattle-to-cattle infection. I am disappointed that the financially nonsensical badger cull will go ahead.

1.40 p.m.

In my opinion, the area will become notorious as the pilot area for the mass killing of badgers—a reputation that is unlikely to persuade potential holidaymakers to choose to visit the area over another, according to my e-mail inbox. I would be grateful if you could provide an update on any recent discussions that you have had concerning sustaining the tourism industry in Pembrokeshire and Ceredigion once the cull has started.

Elin Jones: I am sure that your emotive language this afternoon will do nothing to promote tourism in Pembrokeshire. We are working with both the tourist and farming sectors in Pembrokeshire to ensure that everyone is aware of the balanced and necessary programme that we are undertaking in that area. I see no reason why tourists should not be coming to Pembrokeshire and enjoying their time there, as they have done over the years.

Irene James: What information is being given to landowners in the badger cull area who have many questions regarding the sett surveillance and the culling itself? Have the people who will conduct these activities been checked by the Criminal Records Bureau? What identification will they have? Will landowners be notified in advance when people will be carrying firearms onto their property, as many of these residents are elderly or have young children?

byddwn yn ystyried cyflwyno cyfyngiadau llymach fyth ar symud gwartheg a mesurau llymach fyth ar gyfer cynnal profion ar wartheg.

Joyce Watson: Weinidog, yr wyf yn pryderu am yr effaith y bydd y rhaglen difa moch daear, sy'n werth £9 miliwn, yn ei chael ar y diwydiant twristiaeth yn sir Benfro a Cheredigion. Credaf y bydd y Gorchymyn a osodwyd gennych ddoe, sy'n cysylltu iawndal â hanes ffermwr o weithredu arfer da, yn helpu atal gwartheg rhag heintio'i gilydd. Yr wyf yn siomedig fod y rhaglen difa moch daear, sy'n ddwli llwyr o safbwynt ariannol, yn mynd ei blaen.

Yn fy marn i, bydd yr ardal yn cael enw drwg fel yr ardal beilot lle caiff moch daear eu lladd yn ddiwahân—sy'n annhebygol o berswadio darpar ymwelwyr i ddewis ymweld â'r ardal dan sylw yn hytrach nag ardal arall, yn ôl y negeseuon e-bost a gaf fi. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn ddiweddar am gynnal y diwydiant twristiaeth yn sir Benfro a Cheredigion pan fydd y gwaith difa wedi dechrau.

Elin Jones: Yr wyf yn siŵr na fydd eich iaith emosiynol y prynhawn yma'n gwneud dim i hybu twristiaeth yn sir Benfro. Yr ydym yn gweithio gyda'r sector twristiaeth a'r sector amaeth yn sir Benfro i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r rhaglen gytbwys ac angenrheidiol yr ydym yn ei chynnal yn yr ardal honno. Ni welaf ddim rheswm pam na ddylai twristiaid ddod i sir Benfro a mwynhau eu hamser yno, fel y maent wedi'i wneud ar hyd y blynyddoedd.

Irene James: Pa wybodaeth sy'n cael ei rhoi i dirfeddianwyr yn yr ardal difa moch daear sydd â lawer o gwestiynau am y broses o gadw golwg ar frochfeydd a'r broses ddifa ei hun? A yw'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi cynnal archwiliadau o'r bobl a fydd yn cyflawni'r gweithgareddau hyn? Pa ddogfennau adnabod a fydd ganddynt? A fydd tîrfeddianwyr yn cael gwybod ymlaen llaw pryd y bydd pobl â gynnu'n dod ar eu heiddo, oherwydd mae llawer o'r trigolion

hyn yn hen neu â phlant ifanc?

Elin Jones: We have sought to have extensive and frequent communication with all landowners in the cull area—the majority of whom have offered their full co-operation. There is a minority of landowners who are reluctant to see this work happening on their land and we are pursuing communication with those landowners. In my view, communication is essential, and balanced and informed communication is essential in order to put everyone in the communities of west Wales at ease in the knowledge that this is a piece of work that has to be done in order to eradicate a disease that has caught hold in that area and is rapidly escalating in other parts of Wales.

Elin Jones: Yr ydym wedi ceisio cyfathrebu'n helaeth ac yn fynych â'r holl dirfeddianwyr yn yr ardal ddifa—mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cydweithredu'n llawn. Mae lleiafrif sy'n gyndyn o weld y gwaith hwn yn digwydd ar eu tir, ac yr ydym wrthi'n cyfathrebu â'r tîrfeddianwyr hynny. Yn fy marn i, mae cyfathrebu'n hanfodol, ac mae cyfathrebu doeth a deallus yn hanfodol er mwyn rhoi tawelwch meddwl i bawb yng nghymunedau'r gorllewin i sicrhau eu bod yn gwybod ei bod yn rhaid cyflawni'r dasg hon er mwyn dileu clefyd sydd wedi gafaél yn yr ardal ac sy'n gwaethygu'n gyflym mewn rhannau eraill o Gymru.

Rural Economy

Q4 Mohammad Asghar: What action is the Minister taking to support the Welsh rural economy? OAQ(3)1023(RAF)

Elin Jones: 'One Wales' sets out the Welsh Government's commitment to developing a strong, prosperous and enterprising economy and there are several initiatives in place to support this. The rural development plan under my portfolio will specifically help rural communities and will provide some £795 million over the period of 2007-13.

Mohammad Asghar: Thank you for your precise answer. Recent studies have shown that, across the UK, a record number of young people are leaving rural communities. This is certainly evident in many rural areas of Wales. Pub closures, poor broadband provision and a lack of mobile phone network coverage, alongside the loss of many other amenities, are certainly not encouraging young people to remain in our rural communities. What assessment has the Minister made of the impact that the exodus of young people from the rural communities of Wales is having on the rural economy? What measures has the Welsh Assembly Government taken to help make our rural communities as attractive as possible for young people to stay here?

Elin Jones: The migration of young people

Economi Wledig

C4 Mohammad Asghar: Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi economi wledig Cymru? OAQ(3)1023(RAF)

Elin Jones: Mae 'Cymru'n Un' yn egluro ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi gref, lewyrchus a mentrus, ac mae nifer o fentrau ar waith i gefnogi hynny. Yn fy mhortffolio i, bydd y cynllun datblygu gwledig yn helpu cymunedau gwledig yn benodol, a bydd yn darparu oddeutu £795 miliwn rhwng 2007 a 2013.

Mohammad Asghar: Diolch am eich ateb manwl. Mae astudiaethau'n ddiweddar wedi dangos bod y nifer uchaf erioed o bobl ifanc yn gadael cymunedau gwledig, ledled y DU. Mae hynny'n sicr yn amlwg mewn nifer o ardaloedd gwledig yng Nghymru. Yn bendant nid yw tafarnau sy'n cau, darpariaeth wael o ran band eang, a diffyg signal gan rwydweithiau ffonau symudol, ynghyd â'r ffaith fod nifer o gyfleusterau eraill yn cael eu colli, yn annog pobl ifanc i aros yn ein cymunedau gwledig. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae'r mudo hwn gan bobl ifanc o gymunedau gwledig Cymru yn ei chael ar yr economi wledig? Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i helpu sicrhau bod ein cymunedau gwledig mor ddeniadol ag sy'n bosibl i bobl ifanc aros ynddynt?

Elin Jones: Nid yw'r ffaith fod pobl ifanc yn

out of rural Wales to urban Wales is not a new phenomenon in this century, or even the last century or perhaps the century before. It is a phenomenon that is all too familiar in Wales and throughout western Europe for that matter. However, I want to see balanced-age communities in rural Wales and it is important therefore that we have a rural development plan that allows support for business and supports young people to get into farming. I hope that, with the balanced programme of support that the Government has for all of Wales—taking particular interest in my portfolio in the needs of rural Wales and the provision of affordable housing and employment opportunities in the rural context—we are striking the right balance for rural Wales.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, hoffwn eich llongyfarch chi a Llywodraeth Cymru'n Un ar y camau sydd wedi cael eu cymryd i sicrhau bod cymunedau ardaloedd gwledig Cymru yn cael sylw dyladwy gan y Llywodraeth, ac ar y polisiau yr ydych wedi dwyn yn eu blaen, yr ydych newydd sôn amdanynt, i geisio gwella'r sefyllfa. Fel y dywedasoch, mae pobl wedi allfudo o ardaloedd gwledig ers degawdau lawer—yn wir, ers canrifoedd. O leiaf yr ydym yn gweld mwy o symud o fewn Cymru bellach, yn hytrach na gweld ein pobl ifanc yn symud i ddinasoedd a threfi y tu hwnt i Gymru.

O ran yr economi wledig, yng nghyfarfod diwethaf yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, gwnaethoch ddatganiad am gynllun Glastir a oedd yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau a'r pryderon a godwyd ynghylch y cynllun hwnnw. Soniasoch yn arbennig am y ffaith y byddwch yn ymestyn taliadau Tir Mynydd er mwyn cynorthwyo ffermwyr yn ystod y cyfnod trosiannol wrth ichi gyflwyno cynllun Glastir. A allwch ailadrodd yr addewid honno yn y Siambr y prynhawn yma ac ymhelaethu arni, os yw'n bosibl?

Elin Jones: Dywedais wrth yr is-bwyllgor fy mod wedi cael fy mherswadio bod angen edrych yn benodol ar rai materion, yn enwedig o ran cyfnod trosiannol Glastir ac yn enwedig o safbwynt y ffermwyr hynny sydd

symud allan o ardaloedd gwledig Cymru i ardaloedd trefol Cymru yn ffenomen newydd yn y ganrif hon, neu'r ganrif ddiwethaf hyd yn oed, neu'r ganrif flaenorol efallai. Mae'n ffenomen rhy gyfarwydd o lawer yng Nghymru, ac ar draws gorllewin Ewrop o ran hynny. Fodd bynnag, yr wyf am weld cymunedau cytbwys o ran oed yn ardaloedd gwledig Cymru, ac mae'n bwysig, felly, fod gennym gynllun datblygu gwledig sy'n caniatáu cymorth i fusnesau ac yn cynorthwyo pobl ifanc i ddechrau ffermio. Gyda'r rhaglen gytbwys o gymorth sydd gan y Llywodraeth ar gyfer Cymru gyfan—sydd, o ran fy mhortffolio i, yn dangos diddordeb penodol yn anghenion ardaloedd gwledig Cymru, a'r angen i ddarparu tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth mewn cyd-destun gwledig—gobeithio ein bod yn sicrhau'r cydbwysedd cywir ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, I wish to congratulate you and the One Wales Government on the steps which you have taken to ensure that communities in rural Wales receive due Government attention, and on the policies you have brought forward, as you have just mentioned, to try to improve the situation. As you said, people have been migrating from rural areas for decades—indeed, for centuries. At least we are now seeing more movement within Wales, instead of seeing our young people moving to towns and cities outside Wales.

On the rural economy, at the last meeting of the Rural Development Sub-committee you made a statement about the Glastir scheme which dealt with some of the problems and concerns that had been raised about that scheme. You especially mentioned the fact that you will be extending Tir Mynydd payments in order to assist farmers during the transitional period as the Glastir scheme is introduced. Will you repeat that promise in the Chamber this afternoon and elaborate on it, if possible?

Elin Jones: I told the sub-committee that I had been persuaded of the need to look specifically at some matters, especially in relation to the transition to Glastir and especially from the point of view of those

eisoes yn rhan o gynlluniau megis Tir Gofal a Tir Cynnal. Felly, penderfynais roi cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod trosiannol hwnnw drwy roi taliad Tir Mynydd i'r holl ffermwyr sy'n rhan o'r cynllun hwnnw, nid yn unig y sawl sy'n rhan o Tir Gofal a Tir Cynnal. Yn 2012, bydd hwnnw'n 60 y cant o daliad Tir Mynydd, ac yn 2013, bydd yn 30 y cant ohono. Bu'n bwysig imi o'r cychwyn, wrth gyflwyno cynllun sy'n sylweddol newydd yng Nghymru, sicrhau bod y cyfnod trosiannol yn digwydd yn y ffordd gywir, fel ein bod yn symud o'r cynlluniau presennol i'r cynllun newydd gyda'r effaith lleiaf posibl ar incwm ein ffermwyr yng Nghymru. Hyderaf y bydd y cam pellach hwn yr wyf wedi'i gymryd o fantais i nifer fawr o ffermwyr yng Nghymru.

Brynle Williams: Minister, no doubt you will have seen that the EU is considering a ban on rat poisons in its update of the biocides directive. That will have serious implications for the agriculture industry and, yet again, means that unnecessary regulation and red tape will undermine their businesses. The threat that rats pose to human health is obvious, given that Weil's disease and many other unpleasant diseases are carried by rodents. That is well understood. Controlling rodents is a requirement of cross-compliance rules and is necessary to achieve the red tractor standard. What steps are you taking to protect the safety of the food chain and the interests of Welsh farmers from these latest EU regulations?

Elin Jones: Diolch am eich cwestiwn. Mae'n ddrwg gennyf ddweud nad wyf yn hollol ymwybodol o'r cynlluniau newydd hyn o ran gwahardd gwenwyn llygod mawr, ond edrychaf i mewn i'r mater ymhellach ac ysgrifennaf atoch, oherwydd yr wyf yn deall eich pryder.

Brynle Williams: Moving onto another issue, Minister, you will be aware of the recent report issued by the Engineering the Future group, which highlights how unsustainable it is for the UK to continue to import such enormous volumes of water from developing countries, in vegetables, flowers,

farmers who are already part of schemes such as Tir Gofal and Tir Cynnal. Therefore, I decided to provide additional support during that transitional period by offering a Tir Mynydd payment to all farmers who are part of that scheme, not only those who are part of Tir Gofal a Tir Cynnal. In 2012, that will be 60 per cent of the Tir Mynydd payment, and in 2013 it will be 30 per cent. It has been important to me from the start, when introducing a substantially new scheme in Wales, to ensure that the transitional period is run properly, so that the move from the current schemes to the new scheme has the least possible impact on the income of farmers in Wales. I am confident that this further step which I have taken will benefit a great many farmers in Wales.

Brynle Williams: Weinidog, mae'n siŵr ichi weld bod yr Undeb Ewropeaidd yn ystyried gwahardd gwenwyn llygod mawr, yn niweddariad yr Undeb i'r gyfarwydddeb bioladdwyr. Bydd goblygiadau hynny'n ddifrifol ar gyfer y diwydiant amaeth, ac mae'n golygu unwaith eto y bydd gwaith papur a gwaith rheoleiddio diangen yn tanseilio busnesau'r diwydiant. Mae bygythiad llygod mawr i iechyd pobl yn amlwg, o gofio bod clefyd Weil a nifer o glefydau annymunol eraill yn cael eu cario gan gnofilod. Mae pawb yn deall hynny. Mae rheoli cnofilod yn un o ofynion y rheolau trawsgydymffurfio, ac mae'n angenrheidiol er mwyn ennill safon y tractor coch. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i warchod diogelwch y gadwyn fwyd a buddiannau ffermwyr Cymru yn sgil y rheoliadau diweddaraf hyn gan yr Undeb Ewropeaidd?

Elin Jones: Thank you for your question. I am sorry to say that I am not entirely au fait with these new plans to prohibit the use of rat poison, but I will look into the matter further and I will write to you, because I understand your concern.

Brynle Williams: I symud ymlaen i fater arall, Weinidog, gwyddoch am yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan grŵp Saernio'r Dyfodol, sy'n dangos mor anghynaliadwy ydyw i'r DU barhau i fewnforio cymaint o ddŵr o wledydd sy'n datblygu, mewn llysiau, blodau, ffrwythau ac

fruits and so on, when safe drinking water is a scarce, indeed, a diminishing commodity in these countries. Do you agree that this evidence strengthens the case for prioritising food security in the rural economy in Wales? Do you regret that the policies of your predecessors have hampered Wales's ability to meet this challenge?

Elin Jones: Yr wyf yn cytuno bod angen inni edrych ar sut y gallwn gynhyrchu ystod ehangach o fwydydd yng Nghymru, ac mae cynhyrchu mwy o lysiau, er enghraifft, yn bwysig iawn inni fel gwlad er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar fewnforion. Ychydig o wythnosau yn ôl, cyhoeddais gynllun gweithredu'r Llywodraeth ar arddwriaeth ac felly gobeithiaf fod gan nifer o ffermwyr mewn ardaloedd penodol o Gymru ddiddordeb am y tro cyntaf ers tro i weld sut y gallant gynyddu nifer y llysiau yr ydym yn eu cynhyrchu yng Nghymru. Yn ogystal â chynhyrchu cig a llaeth, rhaid inni gynhyrchu mwy o lysiau.

1.50 p.m.

The Badger Cull

Q5 Peter Black: Will the Minister make a statement on progress in the culling of badgers in north Pembrokeshire? OAQ(3)1029(RAF)

Elin Jones: Contractors are now in place and are being trained to the appropriate standard to deliver a co-ordinated and effective policy. A sett survey on land in the pilot area is ongoing. The pilot area will commence when appropriate and only when everything is in place.

Peter Black: You will be aware that in the centre of the cull area is the Cilgerran wildlife centre, which includes among its family activities the ability to watch badgers in their natural environment. I understand that the wildlife trust of south and west Wales, which runs that centre, has had notice that its badgers will be culled along with the other badgers in the pilot area. Could you look again at that in respect of the wildlife centre, particularly to see whether it might be possible for the badgers there to be tested regularly for TB rather than culled, to

yn y blaen, pan fo dŵr yfed diogel yn brin, ac yn wir, yn rhywbeth sy'n prinhaus yn y gwledydd hynny. A ydych yn cytuno bod y dystiolaeth hon yn cryfhau'r achos dros roi blaenoriaeth i ddiogelu cyflenwadau bwyd yn economi wledig Cymru? A ydych yn gresynu bod polisiau eich rhagflaenwyr wedi llesteirio gallu Cymru i wynebu'r her hon?

Elin Jones: I agree that we need to look at how we can produce a wider range of foods in Wales, and producing more vegetables, for example, is very important to us as a country in order to reduce our dependency on imports. A few weeks ago I announced the Government action plan on horticulture, and I hope, therefore, that many farmers in specific areas of Wales will be interested for the first time in a long time in seeing how they can increase the number of vegetables we produce in Wales. As well as producing meat and milk, we must produce more vegetables.

Difa Moch Daear

C5 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd yng nghyswllt difa moch daear yng ngogledd sir Benfro? OAQ(3)1029(RAF)

Elin Jones: Mae contractwyr erbyn hyn yn y fan yn cael eu hyfforddi i'r safon briodol i weithredu polisi cydgysylltiedig ac effeithiol. Mae arolwg o frochfeydd yn mynd rhagddo ar dir yn yr ardal beilot. Bydd yr ardal beilot yn dechrau ar yr adeg briodol, ond ni fydd yn dechrau nes bydd popeth yn barod.

Peter Black: Gwyddoch fod canolfan bywyd gwyllt Cilgerran ynghanol yr ardal ddifa, ac ymhlith gweithgareddau'r ganolfan ar gyfer teuluoedd y mae gallu gwyllo moch daear yn eu hamgylchedd naturiol. Deallaf fod ymddiriedolaeth natur de a gorllewin Cymru, sy'n rhedeg y ganolfan dan sylw, wedi cael gwybod y bydd ei moch daear yn cael eu difa gyda'r moch daear eraill yn yr ardal beilot. A allech ailystyried hynny yng nghyswllt y ganolfan bywyd gwyllt, yn benodol er mwyn gweld a allai fod yn bosibl cynnal profion TB rheolaidd ar y moch daear sydd yno, yn

preserve that centre for the families who enjoy it very much?

Elin Jones: I do not want to enter into public discussion on an individual landowner in north Pembrokeshire, but of course I am aware of the wildlife centre in Cilgerran. My officials have been in dialogue with it and will maintain that. However, with this disease, no exceptions can be made because all sources of infection have to be tackled.

Lorraine Barrett: Like Iolo Williams, the television wildlife presenter, with whom I shared a platform a few weeks ago, and Brian May, the famous Queen guitarist, whom I have not yet shared a platform with, unfortunately, but who is also a scientist, I am convinced that the incidence of bovine TB will increase post the proposed badger cull, as was shown in the follow-up study of the cull that took place in England. What contingency plans do you have in place to tackle the increased incidence of bovine TB in a few years' time?

Elin Jones: I am committed to providing an annual report on TB eradication. After the Assembly elections next year, you may not be here to challenge me on it, Lorraine—indeed, I may not be here to be challenged on it—but a Government Minister will be held accountable on this policy. The annual report is the mechanism by which we will ensure transparency on this policy, and it will be subject to challenge by all Assembly Members and others, I have no doubt, including Brian May and Iolo Williams.

Glastir

Q6 Nick Ramsay: Will the Minister make a statement on the roll-out of the Glastir land management scheme? OAQ(3)1049(RAF)

Elin Jones: I provided a comprehensive statement on Glastir in Plenary on 16 March and a further update on 29 April. Glastir will commence in 2012. Some 75 per cent of the farmers in Wales who have already submitted

hytrach na'u difa, er mwyn gwarchod y ganolfan ar gyfer y teuluoedd sy'n ei mwynhau'n fawr iawn?

Elin Jones: Nid wyf am ddechrau trafodaeth gyhoeddus am un tirfeddiannwr yng ngogledd sir Benfro, ond gwn am ganolfan bywyd gwyllt Cilgerran, wrth gwrs. Mae fy swyddogion wedi bod yn trafod gyda hi, a bydd yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, yn achos y clefyd hwn, ni ellir caniatáu eithriadau, oherwydd rhaid mynd i'r afael â phob un o ffynonellau'r haint.

Lorraine Barrett: Fel Iolo Williams, y cyflwynydd rhaglenni teledu ar fywyd gwyllt, y rhennais lwyfan gydag ef rai wythnosau'n ôl, a Brian May, gitarydd enwog Queen, nad wyf eto wedi rhannu llwyfan gydag ef, yn anffodus, ond sydd hefyd yn wyddonydd, yr wyf wedi fy argyhoeddi y bydd nifer yr achosion o TB mewn gwartheg yn cynyddu ar ôl y gwaith arfaethedig i ddifa moch daear, fel y dangoswyd yn yr astudiaeth yn dilyn y difa a ddigwyddodd yn Lloegr. Pa gynlluniau wrth gefn sydd gennych i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg ymhen rhai blynyddoedd?

Elin Jones: Yr wyf wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad blynyddol ar ddileu TB. Ar ôl etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf, efallai na fyddwch yma i'm herio yn ei gylch, Lorraine—yn wir, efallai na fyddaf finnau yma i gael fy herio yn ei gylch—ond bydd un o Weinidogion y Llywodraeth yn cael ei ddwyn i gyfrif am y polisi hwn. Yr adroddiad blynyddol yw'r mecanwaith inni sicrhau tryloywder ynghylch y polisi, a bydd modd iddo gael ei herio gan holl Aelodau'r Cynulliad a phawb arall, yr wyf yn siŵr, gan gynnwys Brian May a Iolo Williams.

Glastir

C6 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno'r cynllun rheoli tir Glastir? OAQ(3)1049(RAF)

Elin Jones: Darparais ddatganiad cynhwysfawr ar Glastir yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mawrth, a gwybodaeth bellach ar 29 Ebrill. Bydd Glastir yn dechrau yn 2012. Mae oddeutu 75 y cant o ffermyr Cymru sydd

their completed single application form have expressed an interest in joining the Glastir all-Wales element in 2012.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, Minister. I welcome your decision to extend the Tir Mynydd scheme in parts. I am delighted that you have been listening to the concerns raised by Assembly Members here and by the agriculture industry. I also welcome the fact that you have taken on board the Conservatives' suggestion about wildlife corridors and the need to enhance them.

However, your decision on the extension of Tir Mynydd has highlighted some issues for biodiversity groups, which I wish to raise with you again today. Specifically, questions were raised previously about Tir Gofal that now need to be addressed in relation to Glastir about the need to ensure that it is not just isolated pockets of biodiversity that will be supported by the scheme. I welcome what you have done so far, but will you address that question, so that, when Glastir is fully rolled out, those concerns over biodiversity will be addressed and a necessary balance will be struck between assistance for farmers, which is warmly to be welcomed, and biodiversity?

Elin Jones: I recognise the picture that you paint. Many environmental organisations have been concerned that the support for biodiversity in existing agri-environment schemes has been ad hoc and has not targeted specific areas for recovery. That is why we have introduced regional packages of support under Glastir for specific target species that can exist in particular areas of Wales, for which support in a particular way makes particular sense. I am hopeful and reasonably confident that we have addressed the concern of the past and have developed a mechanism through these regional packages to enable better targeted support for biodiversity recovery.

Chris Franks: Minister, I welcome measures such as the creation of wildlife corridors by

eisoes wedi llenwi eu ffurflen cais sengl a'i chyflwyno wedi mynegi diddordeb mewn ymuno ag elfen Cymru gyfan y cynllun Glastir yn 2012.

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf eich penderfyniad i ymestyn rhannau o'r cynllun Tir Mynydd. Yr wyf yn falch ichi wrando ar bryderon a fynegwyd gan Aelodau'r Cynulliad yma a chan y diwydiant amaeth. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith ichi ystyried awgrym y Ceidwadwyr ynghylch coridorau bywyd gwyllt a'r angen i'w gwella.

Fodd bynnag, mae eich penderfyniad ynghylch ymestyn Tir Mynydd wedi tynnu sylw at rai problemau i grwpiau bioamrywiaeth, a hoffwn godi'r problemau hynny gyda chi eto heddiw. Yn benodol, codwyd cwestiynau'n flaenorol ynghylch Tir Gofal y mae angen rhoi sylw iddynt yn awr yng nghyswllt Glastir, fod angen sicrhau na fydd y cynllun cefnogi dim ond ynsoedd o fioamrywiaeth. Croesawaf yr hyn yr ydych wedi'i wneud hyd yma, ond a wnewch chi roi sylw i'r cwestiwn hwnnw, fel y bydd y pryderon am fioamrywiaeth yn cael sylw pan gaiff Glastir ei gyflwyno'n llawn, ac y bydd y cydbwysedd angenrheidiol yn cael ei sicrhau rhwng cymorth i ffermwyr, y dylid ei groesawu'n fawr, a bioamrywiaeth?

Elin Jones: Yr wyf yn gyfarwydd â'r darlun yr ydych yn ei ddisgrifio. Mae nifer o gyrff amgylcheddol wedi bod yn pryderu nad yw'r cymorth i fioamrywiaeth, mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd cyfredol, wedi'i gynnig mewn modd trefnus, ac nad yw wedi targedu ardaloedd penodol i'w hadfer. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno pecynnau rhanbarthol o gymorth dan Glastir, ar gyfer rhywogaethau penodol a all fodoli mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Mae cymorth penodol ar gyfer y rheini'n gwneud synnwyr penodol. Yr wyf yn obeithiol ac yn weddol hyderus ein bod wedi rhoi sylw i bryder y gorffennol, a'n bod wedi datblygu system, drwy'r pecynnau rhanbarthol hyn, a fydd yn galluogi cymorth wedi ei dargedu'n well ar gyfer gwaith adfer bioamrywiaeth.

Chris Franks: Weinidog, yr wyf yn croesawu camau megis creu coridorau bywyd

planting native shrubs and trees, and erecting fencing to exclude stock, as they will help to provide cover for wildlife such as birds and small mammals. There have been success stories in Wales such as those in relation to the red kite and the black grouse, which almost vanished from our countryside. It is interesting to note that the UK ranks nineteenth in the world for the greatest number of globally threatened species, which places a special responsibility on the Welsh Government to ensure that our land management schemes adequately tackle the threats to our wildlife. Can you highlight any other measures that are being taken to ensure that we maintain the rich biodiversity of our countryside?

Elin Jones: As I explained in my previous answer, the all-Wales element of the Glastir programme will have regional packages within it, targeted specifically at various species in decline. In addition to that, the second tier of Glastir—the targeted element—will look to further enhance the support given through land management practices to specific species. Therefore, Glastir is a key policy tool to enable the Government to recover our biodiversity, but it can happen only with the support of the farmers who undertake that land management activity. The challenge for the next 12 to 18 months is to ensure that farmers sign up to, and take advantage of, Glastir.

Mick Bates: Minister, like other Members, I welcome the extension of the Tir Mynydd scheme to give extra transitional support for farmers. However, I wish to clarify something that you said in previous replies, namely that biodiversity is extremely important to the whole Glastir scheme. While we would all agree with that, it appears that the transitional support will reduce the money available to Glastir in the first year by some £15 million, and in 2012 by a further £7.5 million, which seems to be at odds with the statement that you have just made that Glastir is all about biodiversity. If you reduce the money, you will increase the risk that Glastir will not deliver for biodiversity, and this at a time when we have missed our 2010 target to halt the decline in biodiversity, in

gwyllt drwy blannu llwyni a choed brodorol a chodi ffensys i gadw anifeiliaid allan, oherwydd byddant yn helpu darparu cysgod ar gyfer bywyd gwyllt megis adar a mamaliaid bach. Cafwyd straeon am lwyddiannau yng Nghymru, megis y rheini sy'n ymwneud â'r barcud a cheiliog du'r mynydd y bu bron iddynt ddiflannu o'n cefn gwlad. Mae'n ddiddorol nodi bod y DU yn y pedwerydd safle ar bymtheg yn y byd o ran bod â'r nifer mwyaf o rywogaethau sydd dan fygythiad ledled y byd. Mae'n golygu bod cyfrifoldeb arbennig ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ein cynlluniau rheoli tir yn rhoi sylw digonol i fygythiadau i'n bywyd gwyllt. A allwch dynnu sylw at unrhyw gamau eraill a gymerir i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn cadw bioamrywiaeth gyfoethog ein cefn gwlad?

Elin Jones: Fel yr eglurais yn fy ateb blaenorol, bydd elfen Cymru gyfan yn y rhaglen Glastir yn cynnwys pecynnau rhanbarthol, a fydd yn targedu'n benodol amrywiol rywogaethau sy'n dirywio. Yn ogystal â hynny, bydd ail haen Glastir—yr elfen wedi'i thargedu—yn ceisio gwella ymhellach y cymorth a roddir i rywogaethau penodol drwy arferion rheoli tir. Felly, mae Glastir yn adnodd polisi allweddol i alluogi'r Llywodraeth i adfer ein bioamrywiaeth, ond ni all ddigwydd heb gefnogaeth y ffermwyr sy'n gwneud y gwaith o reoli tir. Yr her yn ystod y 12 i 18 mis nesaf yw sicrhau bod ffermwyr yn ymuno â Glastir ac yn manteisio ar y cynllun.

Mick Bates: Weinidog, fel yr Aelodau eraill yr wyf yn croesaw'r ffaith fod y cynllun Tir Mynydd yn cael ei ymestyn i roi cymorth trosiannol ychwanegol i ffermwyr. Fodd bynnag, hoffwn egluro rhywbeth a ddywedasoch mewn atebion blaenorol, sef bod bioamrywiaeth yn hynod bwysig i'r holl gynllun Glastir. Er y byddem i gyd yn cytuno â hynny, ymddengys y bydd y cymorth trosiannol yn lleihau'r arian a fydd ar gael i Glastir o ryw £15 miliwn yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac yn ei leihau £7.5 miliwn arall yn 2012, sydd fel pe bai'n mynd yn groes i'r datganiad yr ydych newydd ei wneud, sef y bydd a wnelo Glastir â bioamrywiaeth. Wrth leihau'r arian, byddwch yn cynyddu'r perygl na fydd Glastir yn adfer bioamrywiaeth, a hynny ar adeg pan ydym

the International Year of Biodiversity. Will you explain whether it is correct that you are reducing the money, and how that reduction will help to improve biodiversity in Wales?

Elin Jones: I am not familiar with the figures that you are using, of a reduction of £15 million and £7 million. All I can say is that the budget for the axis 2 schemes of £89 million by 2012 will all be spent on Glastir, so there is no reduction to the overall budget.

2.00 p.m.

Caffael Bwyd Lleol

C7 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gaffael bwyd lleol? OAQ(3)1044(RAF)

Elin Jones: Mae'r cynllun gweithredu cyrchu lleol a'r cynlluniau gweithredu twristiaeth bwyd a lanswyd y llynedd yn amlinellu'r mesurau i gynyddu cyfanswm y bwyd a gaiff ei brynu'n lleol. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gyflawni'r cynllun gweithredu a byddaf yn adrodd ar gynnydd y cynllun yn yr hydref.

Eleanor Burnham: O ystyried ein bod i gyd wedi gweld effaith negyddol lludw'r llosgfynydd yng Ngwlad yr Iâ, onid ydych yn meddwl bod pethau wedi newid mymryn? Mae awyrennau wedi methu â hedfan, ac efallai y bydd hynny'n digwydd eto o dro i dro am flynyddoedd os bydd y llosgfynydd nesaf yn ffrwydro. Felly, a ddylem ystyried cynyddu ein defnydd o fwyd lleol ac ailfeddwl am sut yr ydym yn cludo a mewnforio bwyd?

Jane Davidson: Mae’r gwaith yr ydym yn ei wneud trwy Grŵp Cymru Ddigarbon/Carbon Isel—cefais gyfarfod â’r grŵp ychydig cyn dod i ateb cwestiynau y prynhawn yma—yn ystyried adeiladau newydd ac adeiladau sy’n bodoli eisoes. Mae hefyd yn ystyried pob math o broblemau’n ymwneud â gwneuthuriad, effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu er mwyn lleihau allyriadau carbon, nid yn unig yng nghyd-destun yr adeiladau ond yng nghyd-destun ffyrdd o fyw hefyd. Yn amlwg, mae angen ystyried pob un o’r ffactorau hyn wrth edrych ar y carbon sy’n rhan annatod o adeilad ac wrth edrych ar

gylch bywyd adeilad.

Tai ar gyfer Pobl Anabl

C4 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu tai ar gyfer pobl anabl? OAQ(3)1272(ESH)

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): Our current policy dictates that all new grant-funded homes have to meet the lifetime homes standard. This requires the buildings to be adaptable to meet the long-term needs of tenants. In addition, specially designed properties can be provided to support tenants who have specific or more complex needs.

David Lloyd: Mae un o'm hetholwyr yn byw mewn tŷ sydd wedi'i addasu yn hollol annigonol i'w ddibenion, ac yntau wedi'i barlysu ac yn gaeth i gadair olwyn. Yn barod, mae'n rhaid iddo fyw ar wahân i'w wraig a'i blant gan nad oes tŷ addas iddo. Yn naturiol, mae'n awyddus i symud tŷ, ond mae prinder dybryd mewn tai addas i'w ddibenion arbennig ef. Pa drafodaethau yr ydych chi wedi'u cael i geisio symud yr agenda hwn ymlaen?

Jocelyn Davies: A number of cases have been brought to my attention recently, so this is something that I am currently looking at. Our guidance states that accommodation should be developed and commissioned to take account of an individual's choices and preferences, as well as the disability. Of course, the intention is that arrangements for accommodation should help individuals to maintain their relationships with family and their wider community networks, and we want people to have accommodation that meets their needs, and we want them to be happy in their home. From what you tell me, not being able to live with your family would be sad if it is because of your disability, but not to be able to live near your family is even worse. If you give me the details of that case, I will ask officials to look at it.

Mohammad Asghar: It is worrying that disability awareness groups have often highlighted a shortfall of accessible and

Housing for the Disabled

Q4 David Lloyd: Will the Minister make a statement on the development of housing for the disabled? OAQ(3)1272(ESH)

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies): Mae ein polisi cyfredol yn mynnu ei bod yn rhaid i bob cartref newydd a ariennir gan grant fodloni safon cartrefi gydol oes. Mae hynny'n golygu y dylai fod modd addasu'r adeiladau i ddiwallu anghenion hirdymor tenantiaid. Yn ogystal, gellir darparu eiddo sydd wedi'i gynllunio'n arbennig i gynorthwyo tenantiaid sydd ag anghenion penodol neu anghenion mwy cymhleth.

David Lloyd: One of my constituents lives in a house that has been adapted completely inadequately for his needs, as someone who is paralysed and confined to a wheelchair. Already he has to live apart from his wife and his children as there is no suitable house for him. Naturally, he is keen to move house, but there is a pressing shortage of suitable housing for his needs. What discussions have you had to try to move this agenda forward?

Jocelyn Davies: Mae nifer o achosion wedi'u dwyn i'm sylw yn ddiweddar, felly mae'n fater yr wyf wrthi'n ei ystyried. Mae ein harweiniad yn nodi y dylid datblygu a chomisiynu llety gan ystyried dewisiadau a dymuniadau unigolyn, yn ogystal â'r anabledd. Wrth gwrs, y bwriad yw y dylai trefniadau ar gyfer llety helpu unigolion i gynnal eu perthynas â'u teulu a'u rhwydweithiau ehangach yn y gymuned, ac yr ydym am i bobl gael llety sy'n diwallu eu hanghenion. Yr ydym am iddynt fod yn hapus yn eu cartref. O'r hyn a ddywedwch wrthyf, byddai methu â byw gyda'ch teulu yn drist, os yw hynny oherwydd eich anabledd. Ond byddai methu â byw'n agos at eich teulu yn waeth fyth. Os rhowch fanylion yr achos dan sylw imi, gofynnaf i'm swyddogion edrych arno.

Mohammad Asghar: Mae'n peri pryder fod grwpiau ymwybyddiaeth anabledd wedi tynnu sylw'n aml fod prinder tai hygrych

readily adapted housing as a major problem in Wales. Will the Deputy Minister outline what priority her department gives to the development of housing for disabled people in Wales, and how she can remove the barrier that exists across the housing sector for disabled people in this country?

Jocelyn Davies: In 2009-10, around £162 million was spent in social housing grants across Wales. Most of that was on new build, and as I mentioned earlier, which would have to meet the lifetime homes standard. That also includes properties that are adapted accommodation and especially designed accommodation. You will be interested to hear that, last year, we also spent almost £8 million on physical adaptation grants to housing associations. That has helped over 1,500 people in Wales and cleared the backlog, which means that we can now go for a more streamlined system. Looking at the disabled facilities grants, which help people to live independently in their own homes, there is a mandatory entitlement to that. I am told that funding is not the problem and that delays are usually about process. Again, if you have a specific case that you would like to me to look at, I would be glad to hear from you.

Joyce Watson: One of the issues that are important to disabled people is their ability to remain in their home, and consequently, to maintain a sense of independence. Adapting a disabled person's home to make it possible for them to live there can make a world of difference to their confidence and quality of life. One way of doing that is by using the disabled facilities grants that you award to councils. At present, Pembrokeshire County Council's population currently has to wait over 800 days for their homes to be modified. That is the longest wait in any county in Wales. What guidance will you provide, Deputy Minister, to ensure that councils have better service delivery than that which currently exists in Pembrokeshire?

Jocelyn Davies: You are quite right in saying, Joyce, that being able to maintain your independence in your own home is a policy that we are pursuing and one that most

sydd wedi'u haddasu'n briodol yn broblem fawr yng Nghymru. A wnaiff y Dirprwy Weinidog egluro pa flaenoriaeth y mae ei hadran yn ei rhoi i ddatblygu cartrefi i bobl anabl yng Nghymru, a sut y gall ddileu'r rhwystr sy'n bodoli ar draws y sector tai ar gyfer pobl anabl yn y wlad hon?

Jocelyn Davies: Yn 2009-10, gwariwyd oddeutu £162 miliwn ar grantiau tai cymdeithasol ar draws Cymru. Cafodd y rhan fwyaf o'r arian hwnnw ei wario ar adeiladau newydd, a fyddai'n gorfod bodloni safon cartrefi gydol oes, fel y soniais yn gynharach. Mae hynny hefyd yn cynnwys eiddo sydd wedi ei addasu a llety wedi ei gynllunio'n arbennig. Bydd gennych ddiddordeb mewn clywed inni hefyd wario bron i £8 miliwn y llynedd ar grantiau addasiadau ffisegol i gymdeithasau tai. Mae hynny wedi helpu dros 1,500 o bobl yng Nghymru, ac mae wedi clirio'r achosion a oedd wedi ôl-gronni, sy'n golygu y gallwn ddechrau defnyddio system symlach yn awr. O edrych ar y grantiau cyfleusterau i'r anabl, sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi, mae yna hawl orfodol yn y cyswllt hwnnw. Caf ar ddeall nad arian yw'r broblem, a bod unrhyw oedi fel rheol yn digwydd oherwydd y broses. Unwaith eto, os oes gennych achos penodol y byddech yn hoffi imi ei ystyried, byddwn yn falch clywed gennych.

Joyce Watson: Un o'r materion sy'n bwysig i bobl anabl yw eu gallu i aros yn eu cartref, ac o ganlyniad eu gallu i gynnal ymdeimlad o annibyniaeth. Gall addasu cartref unigolyn anabl, i sicrhau ei bod yn bosibl iddo fyw yno, wneud byd o wahaniaeth i'w hyder a'i ansawdd bywyd. Un ffordd i wneud hynny yw defnyddio'r grantiau cyfleusterau i'r anabl y byddwch yn eu rhoi i gynghorau. Ar hyn o bryd, rhaid i boblogaeth Cyngor Sir Penfro aros dros 800 niwrnod i'w cartrefi gael eu haddasu. Dyna'r amser aros hwyaf mewn unrhyw sir yng Nghymru. Pa arweiniad y byddwch yn ei roi, Ddirprwy Weinidog, i sicrhau bod cynghorau'n darparu gwell gwasanaeth nag a ddarperir yn sir Benfro ar hyn o bryd?

Jocelyn Davies: Yr ydych yn hollol iawn, Joyce, wrth ddweud bod gallu cynnal eich annibyniaeth yn eich cartref eich hun yn bolisi yr ydym yn ei ddilyn, ac yn bolisi y

people would prefer. It is often delivered via the disabled facilities grant. You mentioned Pembrokeshire, your own local authority, and you have raised the matter of the 800-day waiting time with me before. You know that that is wholly exceptional among the local authorities in Wales, as other local authorities have made considerable progress in this regard. The previous Minister brought in legislation. Therefore, this is a mandatory grant; it is not discretionary. Finance is provided; so, you have the legislation and finance provided. I do not understand why no-one in Pembrokeshire has taken the case yet against the local authority, because it is well outside the legislation.

Peter Black: I think that it is still the case that, across Wales, you can wait between 12 and 18 months for a disabled facilities grant, irrespective of the fact that the grants are mandatory, and irrespective of the fact that there is a process to be followed and that finances have been provided. One of the reasons for the delays is the limited amount of finance that local authorities have at their disposal, which means that they tend to manage them in that way. Pembrokeshire is obviously at the extreme end of that particular aspect.

In the past, Governments have tried to streamline the process; they have looked at disabled adaptation registers, fast-tracking certain grants and so forth, but despite that, the waiting time still stays stubbornly around that average of 12 to 18 months across Wales. Do you have any plans to carry out a further review of the disabled facilities grant process to see whether this logjam can be broken once and for all?

Jocelyn Davies: The Committee on Equality of Opportunity looked at a policy review on this. We have taken forward the recommendations made by the committee. The guidance is fairly comprehensive. As I have said, there is legislation to support people; it is a right that people have. Perhaps the performance indicator needs to be reconsidered, because one exceptional case that could take several years to complete, for all sorts of reasons, might make local

byddai'r rhan fwyaf o bobl o'i blaidd. Caiff y polisi ei weithredu'n aml trwy'r grant cyfleusterau i'r anabl. Yr oeddech yn sôn am sir Benfro, eich awdurdod lleol chi, ac yr ydych wedi codi mater gorfod aros 800 niwrnod gyda mi o'r blaen. Gwyddoch fod y sefyllfa honno'n eithriad ymysg awdurdodau lleol Cymru, gan fod awdurdodau lleol eraill wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y cyswllt hwn. Cyflwynodd y Gweinidog blaenorol ddeddfwriaeth. Felly, mae hwn yn grant gorfodol; nid yw'n ddewisol. Darperir cyllid; felly mae'r ddeddfwriaeth a'r cyllid wedi'u darparu. Ni allaf ddeall pam nad oes neb yn sir Benfro wedi dwyn achos yn erbyn yr awdurdod lleol eto, oherwydd nid yw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o bell ffordd.

Peter Black: Credaf ei bod yn wir o hyd y gallwch aros rhwng 12 a 18 mis ar draws Cymru am grant cyfleusterau i'r anabl, er gwaetha'r ffaith bod y grantiau'n orfodol, ac er gwaetha'r ffaith ei bod yn rhaid dilyn proses a bod arian wedi'i ddarparu. Un o'r rhesymau dros yr oedi yw'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael i awdurdodau lleol, sy'n golygu eu bod yn tueddu i'w reoli fel hynny. Mae'n amlwg bod sir Benfro yn y pegwn eithaf o ran yr agwedd arbennig honno.

Yn y gorffennol, mae Llywodraethau wedi ceisio symleiddio'r broses; maent wedi ystyried defnyddio cofrestrau addasiadau i'r anabl, rhoi rhai grantiau ar lwybr carlam, ac yn y blaen. Ond er gwaethaf hynny, mae'r amser aros yn dal o gwmpas y cyfartaledd o 12 i 18 mis ar draws Cymru. A oes gennych unrhyw gynlluniau i gynnal adolygiad pellach o'r broses grantiau cyfleusterau i'r anabl, i weld a ellir dileu'r ôl-gronni hwn unwaith ac am byth?

Jocelyn Davies: Bu'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried cynnal adolygiad polisi o'r mater hwn. Yr ydym wedi cymryd yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor. Mae'r arweiniad yn eithaf cynhwysfawr. Fel y dywedais, mae yna ddeddfwriaeth i gynorthwyo pobl; mae'n hawl sydd gan bobl. Efallai fod angen ailystyried y dangosydd perfformiad, oherwydd gallai un achos eithriadol, a allai gymryd blynyddoedd lawer i'w gwblhau am bob math o resymau, wneud

authority appear to be performing particularly badly when, in fact, it is not. We need to look at the performance indicator to ensure that it gives a proper indication of how that local authority is performing. If a Government introduces legislation to give people rights, it provides funding for local authority, and the housing part of the general grant that goes to local authorities is considerable. The independent review found that it is processes that slow things rather than funding. It therefore appears to me that the national Government can do much more, such as providing funding and giving you a statutory right, but it cannot then micromanage the local authorities. It is a matter for all of us to take local authorities that do not deliver on this important policy area to task.

i awdurdod lleol ymddangos fel pe bai'n perfformio'n arbennig o wael, pan nad yw hynny'n wir mewn gwirionedd. Mae angen inni edrych ar y dangosydd perfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi darlun cywir o'r ffordd mae'r awdurdod lleol hwnnw'n perfformio. Os bydd Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i roi hawliau i bobl, mae'n darparu cyllid i awdurdodau lleol, ac mae'r elfen dai yn y grant cyffredinol a roddir i awdurdodau lleol yn sylweddol. Darganfu'r adolygiad annibynnol mai prosesau, yn hytrach nag arian, sy'n arafu pethau. Felly, ymddengys y gall y Llywodraeth genedlaethol wneud llawer mwy, megis darparu cyllid a rhoi hawl statudol ichi, ond na all ficoreoli'r awdurdodau lleol wedyn. Mae'n fater y dylai pob un ohonom alw awdurdodau lleol i gyfrif yn ei gylch, os nad ydynt yn cyflawni yn y maes polisi pwysig hwn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)1247(ESH), yn ôl.

The Presiding Officer: Question 5, OAQ(3)1247(ESH), is withdrawn.

Immediate Priorities

Q6 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on her immediate priorities for the next six months? OAQ(3)1263(ESH)

Jane Davidson: My priorities for the next six months will be the delivery of our 'One Wales' commitments and other strategic priorities for Wales. These include climate change, flood risk management, waste, biodiversity and planning, which will be framed by sustainable development—the central organising principle of this Government.

Jenny Randerson: The issue of the devolution of building regulations has been on your agenda for a long time. Do you estimate that you will manage to achieve that in the next six months?

2.40 p.m.

Jane Davidson: I have already announced to the Assembly that the Privy Council has agreed that building regulations will be

Prif Flaenoriaethau

C6 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei phrif flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)1263(ESH)

Jane Davidson: Fy mlaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf fydd cyflawni ein hymrwymiaidau yn 'Cymru'n Un' a chyflawni blaenoriaethau strategol eraill i Gymru. Mae'r blaenoriaethau hynny'n cynnwys y newid yn yr hinsawdd, gwaith rheoli perygl llifogydd, gwastraff, bioamrywiaeth a chynllunio, a byddant yn cael eu gosod yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy—sef prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth hon.

Jenny Randerson: Mae datganoli rheoliadau adeiladu wedi bod yn fater ar eich agenda ers amser hir. A ydych yn amcangyfrif y byddwch yn llwyddo i gyflawni hynny yn ystod y chwe mis nesaf?

Jane Davidson: Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi wrth y Cynulliad fod y Cyfrin Gyngor wedi cytuno y bydd rheoliadau

formally devolved on 31 December 2011. The Privy Council took its decision earlier this year, and we are now working on the changes that are necessary to move forward on our low/zero carbon agenda for houses in Wales, which we will take forward in advance of that decision coming into effect.

Mick Bates: Minister, I am certain that over the next six months, one of your climate change priorities will be to meet the technical advice note 8 target of generating 800 MW of onshore installed wind power this year. However, the new Infrastructure Planning Commission appears to have taken over the power of our planning system, moving it further from local planning authorities, the Government and from people in communities. Power over new nuclear plants, large renewables, roads and railways has been handed to an unelected body. That unelected body will cost £9.3 million to run and £5 million to set up. What assessment have you made of the impact of this costly and undemocratic body? What assessment have you made of the effect that it will have on the power of your Government to ensure that we reach the TAN 8 targets on renewable energy for schemes below and above 50 MW?

Jane Davidson: Decisions on projects under 50 MW remain in Wales. It will be no surprise to the Assembly that we as a Government have continued to argue for powers over energy to be devolved to Wales. We will continue to argue that powers over energy above 50 MW are devolved to Wales, whoever makes up the next Government. The Infrastructure Planning Commission will replace the Secretary of State in taking decisions about projects of 50 MW and over.

Planning Guidance

Q7 Darren Millar: Will the Minister make a statement on guidance issued to local planning authorities? OAQ(3)1251(ESH)

Jane Davidson: The Welsh Assembly

adeiladu'n cael eu datganoli'n ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2011. Gwnaeth y Cyfrin Gyngor ei benderfyniad yn gynharach eleni, ac yr ydym yn awr yn gweithio ar y newidiadau sy'n angenrheidiol i symud ymlaen o ran ein hagenda ddigarbon/carbon isel ar gyfer tai yng Nghymru. Byddwn yn datblygu hwnnw cyn i'r penderfyniad hwnnw ddod i rym.

Mick Bates: Weinidog, yr wyf yn sicr mai un o'ch blaenoriaethau o safbwynt y newid yn yr hinsawdd yn ystod y chwe mis nesaf fydd cyrraedd targed nodyn cyngor technegol 8, sef cynhyrchu 800 MW o ynni gwynt ar y tir eleni. Fodd bynnag, ymddengys fod y Comisiwn Cynllunio Seilwaith newydd wedi meddiannu grym ein system gynllunio, gan ei symud ymhellach oddi wrth awdurdodau cynllunio lleol, y Llywodraeth a phobl mewn cymunedau. Mae'r grym dros ganolfannau niwclear newydd, prosiectau ynni adnewyddadwy mawr, ffyrdd a rheilffyrdd wedi cael ei roi i gorff na chafodd ei ethol. Bydd y corff hwnnw na chafodd ei ethol yn costio £9.3 miliwn i'w redeg, a £5 miliwn i'w sefydlu. Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith y corff costus ac annemocrataidd hwn? Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r effaith a gaiff ar rym eich Llywodraeth i sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau TAN 8 ar ynni adnewyddadwy ar gyfer cynlluniau llai na 50 MW a thros 50 MW?

Jane Davidson: Mae penderfyniadau ar brosiectau llai na 50 MW yn parhau yng Nghymru. Ni fydd y Cynulliad yn synnu o gwbl ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi parhau i ddadlau y dylai pwerau dros ynni gael eu datganoli i Gymru. Byddwn yn parhau i ddadlau y dylai pwerau dros ynni dros 50 MW gael eu datganoli i Gymru, waeth pwy fydd yn ffurfio'r Llywodraeth nesaf. Bydd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn cymryd lle'r Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud penderfyniadau am brosiectau 50 MW a mwy.

Arweiniad Cynllunio

C7 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr arweiniad a gyhoeddir i awdurdodau cynllunio lleol? OAQ(3)1251(ESH)

Jane Davidson: Mae prif ffynhonnell

Government's principal source of policy guidance to local planning authorities is contained in 'Planning Policy Wales' 2002 and a number of supporting subject-specific technical advice notes. We also provide a variety of technical guidance on local development plan preparation.

Darren Millar: Thank you for that answer, Minister. You will be aware that considerable concern was raised last week during the debate on the Sustainability Committee's report on its inquiry into flooding in Wales, and in particular about your rejection of the report's recommendation for a review of technical advice note 15. As you are aware, Minister, several concerns were raised in the debate about your refusal to review technical advice note 15, and you did not have an opportunity to respond to those points. One of them related to the fact that Welsh Water and other Welsh utility bodies are not currently statutory consultees in the planning process. Do you accept that, in the interests of minimising the risk of flooding, and given the responsibilities of utility companies, particularly Welsh Water with regard to surface water drainage and sewerage, they should be part of statutory consultation when a planning application for a development comes in? If so, will you now review your position on TAN 15, with a view to moving forward with a review at the earliest opportunity?

Jane Davidson: What was particularly notable about the debate last week from my perspective was the fact that I did not refuse to review TAN 15, but unfortunately, you all had prepared scripts, so you did not listen to what I said in my introduction as Minister to the debate. I said that now is not the time to review it, not only because new flood and water management legislation has just come through, but because, whichever Government is in power, there will be a further piece of legislation on flood and water management in the first session of the new Parliament. The time to review TAN 15 will be when those pieces of legislation have come through. I have said that I am quite happy for Welsh Water to be a statutory consultee, but I would also say, with regard to TAN 15—and I did

Llywodraeth y Cynulliad o ganllawiau polisi ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol yn 'Polisi Cynllunio Cymru' 2002 yn ogystal â nifer o nodiadau cyngor technegol atodol sy'n gysylltiedig â'r pwnc dan sylw. Hefyd, yr ydym yn darparu amrywiaeth o ganllawiau technegol ar baratoi cynlluniau datblygu lleol.

Darren Millar: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol fod pryder sylweddol wedi'i fynegi yr wythnos diwethaf yn ystod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru, ac yn enwedig am y ffaith ichi wrthod argymhelliad yr adroddiad i adolygu nodyn cyngor technegol 15. Fel y gwyddoch, Weinidog, mynegwyd nifer o bryderon yn y ddadl am ichi wrthod adolygu nodyn cyngor technegol 15, ac ni chawsoch gyfle i ymateb i'r pwyntiau hynny. Yr oedd un ohonynt yn ymwneud â'r ffaith nad yw Dŵr Cymru a chyrrff cyfleustodau eraill yng Nghymru ymhlith y cyrrff yr ymgynghorir â hwy'n statudol yn y broses gynllunio ar hyn o bryd. A ydych yn derbyn y dylent fod yn rhan o ymgynghoriad statudol pan gaiff cais cynllunio am ddatblygiad ei gyflwyno, er mwyn lleihau perygl llifogydd gymaint ag y bo modd, ac o gofio cyfrifoldebau cwmnïau cyfleustodau, yn enwedig Dŵr Cymru, o safbwynt draenio dŵr wyneb a charthffosiaeth? Os felly, a wnewch chi'n awr adolygu eich safbwynt ar TAN 15, gyda'r bwriad o gynnal adolygiad cyn gynted ag sy'n bosibl?

Jane Davidson: Yr hyn a oedd yn arbennig o drawiadol am y ddadl yr wythnos diwethaf, o'm safbwynt i, oedd y ffaith na wrthodais adolygu TAN 15. Yn anffodus, fodd bynnag, yr oedd gan bob un ohonoch sgriptiau a oedd wedi'u paratoi'n barod, felly ni wrandawsoch ar yr hyn a ddywedais yn fy nghyflwyniad fel Gweinidog i'r ddadl. Dywedais nad nawr yw'r amser i'w adolygu, nid yn unig oherwydd bod deddfwriaeth newydd ar reoli dŵr a llifogydd newydd gael ei chyflwyno, ond oherwydd y bydd darn arall o ddeddfwriaeth ar reoli dŵr a llifogydd yn cael ei gyflwyno yn sesiwn gyntaf y Senedd newydd, waeth pa Lywodraeth fydd mewn grym. Yr amser i adolygu TAN 15 fydd pan fydd y darnau hynny o ddeddfwriaeth wedi'u cyflwyno. Yr wyf wedi dweud fy mod yn

read out an excerpt from the Environment Agency's letter to me in the debate—that 96.7 per cent of the decisions that it knew about were in line with its advice. That is in its letter. This shows that the agency's advice on flood risk is, in the majority of cases, being followed by planning authorities as required under TAN 15.

Overall, we think that TAN 15 can deal effectively with planned developments on flood plains, provided that local planning authorities and others heed the advice it contains. I also remind Members that decisions on developments that have been made in the last five years, where planning applications have already been granted, may still be being built now. However, I am confident that if 97 per cent of the decisions are being taken in accordance with the Environment Agency's advice, we have a solid basis on which to build for new legislation coming forward in the future.

Darren Millar: Will you allow me to come back on that, Presiding Officer?

The Presiding Officer: Yes.

Darren Millar: Thank you. I listened carefully to what you said in the debate, Minister, and I carefully read the papers that were provided to Members before the debate, outlining your rejection of the recommendation to urgently review TAN 15. I am delighted to hear that you have softened your stance on that and that you will be prepared to consider a review in the future.

You mentioned that fact that the Environment Agency has indicated that 97 per cent of its recommendations are now being taken on board by local planning authorities, but you failed to mention the fact that the Environment Agency has supported the need for Dŵr Cymru Welsh Water to be a statutory consultee. My specific question was about whether there was a need for it to be a statutory consultee. You have indicated that you have no problem with it becoming a

ddigon bodlon i Ddŵr Cymru fod yn ymgynghorai statudol, ond byddwn hefyd yn dweud, o safbwynt TAN 15—a darllenais ran o lythyr a gefais gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn y ddadl—bod 96.7 y cant o'r penderfyniadau yr oedd yr Asiantaeth yn gwybod amdanynt yn cyd-fynd â'r cyngor a roddwyd ganddi. Mae hynny yn ei llythyr. Dengys hynny fod awdurdodau cynllunio'n dilyn cyngor yr asiantaeth ar berygl llifogydd, yn y rhan fwyaf o achosion, fel sy'n ofynnol dan TAN 15.

At ei gilydd, credwn y gall TAN 15 ymdrin yn effeithiol â datblygiadau a gynllunnir ar orlifdir, cyhyd ag y bydd awdurdodau cynllunio lleol ac eraill yn ystyried y cyngor sydd ynddo. Hoffwn atgoffa'r Aelodau hefyd y gallai penderfyniadau ar ddatblygiadau a wnaed yn ystod y pum mlynedd diwethaf, lle rhoddwyd caniatâd cynllunio eisoes, fod yn benderfyniadau ar adeiladau sy'n dal i gael eu codi'n awr. Fodd bynnag, os yw 97 y cant o'r penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â chyngor Asiantaeth yr Amgylchedd, yr wyf yn hyderus fod gennym sail gadarn i adeiladu arni ar gyfer deddfwriaeth newydd a gyflwynir yn y dyfodol.

Darren Millar: A ganiatewch imi ymateb i hynny, Lywydd?

Y Llywydd: Gwnaf.

Darren Millar: Diolch. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedasoch yn y ddadl, Weinidog, a darllenais yn ofalus y papurau a roddwyd i'r Aelodau cyn y ddadl. Yr oeddent yn amlinellu eich bod yn gwrthod yr argymhelliad i adolygu TAN 15 ar frys. Yr wyf yn falch clywed eich bod wedi cymedroli eich safbwynt ar hynny, ac y byddwch yn barod i ystyried adolygiad yn y dyfodol.

Yr oeddech yn sôn am y ffaith fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi nodi bod 97 y cant o'i hargymhellion yn cael eu derbyn erbyn hyn gan awdurdodau cynllunio lleol. Ond ni soniasoch fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cefnogi'r angen i ymgynghori'n statudol â Ddŵr Cymru. Fy nghwestiwn penodol oedd a oedd angen ymgynghori ag ef yn statudol. Yr ydych wedi nodi nad ydych yn gwrthwynebu ymgynghori ag ef yn statudol, a chroesawaf hynny. Felly, beth

statutory consultee, which I welcome. Therefore, what is the timetable for introducing it as a statutory consultee in the planning process? Will that form an appendix, appendage or an improvement to TAN 15 or will we have to wait many years for TAN 15 to be reviewed before Dŵr Cymru Welsh Water will be included as a statutory consultee?

Jane Davidson: I gave an indication many months ago that I was happy for Dŵr Cymru Welsh Water to be a statutory consultee. I asked the planning officer to address that and I am happy to ask her to respond to you on the timetable for that. I point out that all legislation is always under review. There is not one technical advice note that is set in stone. They are always under review, but they should be reviewed—

Darren Millar *rose*—

The Presiding Officer: Order. You have already had a supplementary question.

Jane Davidson: They should be reviewed at the right time, when it is demonstrable that they are no longer fit for purpose. When we have a situation where, in the last year for which we have figures for TAN 15, 97 per cent of the decisions made were in line with the advice, that suggests to me that, at this point, it is working. Since then, we have had new legislation. I hope that we will have further new legislation, and that your party will support that new legislation, because unfortunately there was insufficient time for it to be approved before the election and we need that new legislation. That is the appropriate time at which to look at whether we should review planning guidance, that is, after the full legislation is in place.

Bethan Jenkins: I asked a question of the First Minister last week about liaison committees and open-cast mining areas. Could you provide more clarity on that? I was trying to ask whether there could be more provision in the planning guidance on how the liaison committees work because we are finding in South Wales West, particularly in the Cwmllynfell area, that local residents

yw'r amserlen ar gyfer ei gyflwyno fel ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio? A fydd hynny'n atodiad, yn ychwanegiad ynteu'n welliant i TAN 15, ynteu a fydd yn rhaid inni aros nifer o flynyddoedd i TAN 15 gael ei adolygu cyn y caiff Dŵr Cymru ei gynnwys fel corff i ymgynghori ag ef yn statudol?

Jane Davidson: Nodais fisoedd lawer yn ôl fy mod yn fodlon i Ddŵr Cymru fod yn ymgynghorai statudol. Gofynnais i'r swyddog cynllunio ymdrin â hynny, ac yr wyf yn fodlon gofyn iddi ymateb ichi ar yr amserlen. Yr wyf am dynnu sylw at y ffaith y caiff pob deddfwriaeth ei hadolygu drwy'r amser. Nid yw'r un nodyn cyngor technegol yn gyfan gwbl ddigyfnewid. Cânt eu hadolygu'n barhaus, ond dylent gael eu hadolygu—

Darren Millar *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych eisoed wedi gofyn cwestiwn atodol.

Jane Davidson: Dylent gael eu hadolygu ar yr adeg iawn, pan ellir dangos nad ydynt bellach yn addas at y diben. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y mae gennym ffigurau ar gyfer TAN 15, cafodd 97 y cant o'r penderfyniadau eu gwneud yn unol â'r cyngor, ac mae hynny'n awgrymu i mi fod y nodyn yn gweithio ar hyn o bryd. Ers hynny yr ydym wedi cael deddfwriaeth newydd. Gobeithio y cawn ddeddfwriaeth newydd eto, ac y bydd eich plaid yn cefnogi'r ddeddfwriaeth newydd honno, oherwydd yn anffodus nid oedd digon o amser iddi gael ei chymeradwyo cyn yr etholiad, ac mae arnom angen y ddeddfwriaeth newydd honno. Dyna'r adeg briodol i ystyried a ddylem adolygu'r canllawiau cynllunio, hynny yw, pan fydd y ddeddfwriaeth lawn yn ei lle.

Bethan Jenkins: Gofynnais gwestiwn i'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf am bwyllgorau cyswllt ac ardaloedd cloddio glo brig. A allech roi rhagor o oleuni ar hynny? Yr oeddwn yn ceisio gofyn a ellid cael rhagor o ddarpariaeth yn y canllawiau cynllunio ar y modd y dylai pwyllgorau cyswllt weithio, oherwydd yr ydym yn gweld yng Ngorllewin De Cymru, yn enwedig yn ardal Cwmllynfell,

are not aware of the fact that these liaison committees have been set up, especially by companies such as Celtic Energy, and they are missing the discussions on noise and dust that are taking place in their local area. Could more robust guidance be provided to companies or to planning authorities to ensure that local communities are involved from the outset in any of these liaison committees?

Jane Davidson: I am not aware that you have written to me on this, so I suggest that you do so, and I can then give you detailed advice to take back to your constituents.

Energy Efficiency

Q8 Brynle Williams: What are the Welsh Assembly Government's priorities for supporting the energy efficiency of households in north Wales? OAQ(3)1267(ESH)

Jane Davidson: We are supporting north Wales households through the home energy efficiency scheme, which has provided over 41,000 heating and insulation measures since 2000, and through our boiler scrappage scheme, which has issued 670 vouchers to north Wales households. In addition, we are developing several projects in north Wales through Arbed, our strategic energy performance scheme.

2.50 p.m.

Brynle Williams: That is most certainly appreciated throughout north Wales. You will know that heat loss through windows is a problem in many residential homes because many home owners choose energy-efficient glazing when replacing or upgrading their windows. I was shocked last week when I spoke to representatives of a glass company who told me that they can provide triple-glazed, gas-filled and highly efficient windows that pass the energy saving test, but, regrettably, all that is lost because building regulations say that there must be ventilation at the top of the window. Have you had any discussions with your officials to ensure that building regulations are looked at in light of this problem? It is a major problem because,

nad yw trigolion lleol yn ymwybodol o'r ffaith fod y pwyllgorau cyswllt hyn wedi'u sefydlu, yn enwedig gan gwmnïau megis Celtic Energy. Felly, maent yn colli'r trafodaethau am sŵn a llwch sy'n digwydd yn eu hardal leol. A ellid darparu canllawiau cadarnach i gwmnïau neu awdurdodau cynllunio, er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cynnwys o'r dechrau'n deg ym mhob un o'r pwyllgorau cyswllt hyn?

Jane Davidson: Nid wyf yn ymwybodol eich bod wedi ysgrifennu ataf am hyn, felly, awgrymaf ichi wneud hynny, a gallaf roi cyngor manwl wedyn ichi ei roi i'ch etholwyr.

Effeithlonrwydd Ynni

C8 Brynle Williams: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi effeithlonrwydd ynni cartrefi yn y gogledd? OAQ(3)1267(ESH)

Jane Davidson: Yr ydym yn cynorthwyo cartrefi yn ngogledd Cymru gyda'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, sydd wedi helpu dros 41,000 o gartrefi gyda dulliau gwresogi ac inswleiddio er 2000. Yr ydym hefyd wedi helpu 670 o gartrefi yng ngogledd Cymru gyda'n cynllun sgrapio boeleri. Yn ogystal, yr ydym yn datblygu nifer o brosiectau yng ngogledd Cymru drwy Arbed, ein rhaglen perfformiad ynni strategol.

Brynle Williams: Yn sicr, caiff hynny ei werthfawrogi'n fawr ar draws y gogledd. Gwyddoch fod colli gwres trwy ffenestri yn broblem mewn nifer o gartrefi preswyl, oherwydd bydd llawer o berchnogion tai yn dewis gwydr effeithlon o ran ynni wrth newid neu wella'u ffenestri. Synnais yr wythnos diwethaf wrth siarad â chynrychiolwyr cwmni gwydr, a ddywedodd wrthyf y gallant ddarparu ffenestri gwydr triphlyg wedi'u llenwi â nwy, sy'n hynod effeithlon ac yn pasio'r prawf arbed ynni, ond bod hynny i gyd yn mynd yn ofer, yn anffodus, oherwydd bod rheoliadau adeiladu'n dweud ei bod yn rhaid cael cyfleuster awyru ar dop y ffenestr. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'ch swyddogion i sicrhau y caiff

as the glass and window manufacturer said, the energy savings are being lost through the ventilation at the top of the window. I do not know how you would overcome that, but that is the fact at the moment. I would appreciate if you and your officials could look into this.

Jane Davidson: That particular issue has not been brought to my attention, despite having just been at a meeting with several members, including house builders, of the Low/Zero Carbon Hub Wales. If you write to me on that, perhaps we can get detailed advice on that issue.

There is a key issue in the UK in general, not just in Wales, that although places such as Scandinavia or Germany have used triple-glazed windows with very low U-values for many years, because we have not done it here, it is not the norm. There is often an extra expense that is too much for individual householders to bear, which is why we are doing detailed work on the costings of low-carbon buildings. When we change the building regulations to meet our aspiration of low/zero carbon buildings, we will be able to incorporate all elements within those.

rheoliadau adeiladu eu hystyried yng ngoleuni'r broblem hon? Mae'n broblem fawr oherwydd, fel y dywedodd y gwneuthurwr gwydr a ffenestri, caiff yr arbedion ynni eu colli trwy'r cyfleuster awyru ar dop y ffenestr. Ni wn sut y byddech yn datrys y broblem, ond dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech chi a'ch swyddogion ymchwilio i hynny.

Jane Davidson: Nid yw'r mater penodol hwnnw wedi'i ddwyn i'm sylw, er fy mod newydd fod mewn cyfarfod gyda nifer o aelodau Grŵp Cymru Ddigarbon/Carbon Isel, a oedd yn cynnwys adeiladwyr tai. Os ysgrifennwch ataf am hynny, efallai y gallwn gael cyngor manwl am y mater hwnnw.

Er bod lleoedd megis Llychlyn neu'r Almaen wedi bod yn defnyddio ffenestri gwydr triphlyg â gwerthoedd U isel iawn ers blynyddoedd lawer, mae yna broblem allweddol yn y DU yn gyffredinol, nid yng Nghymru yn unig, nad hynny sy'n arferol, am nad ydym wedi gwneud hynny yma. Yn aml bydd costau ychwanegol sy'n ormod i berchnogion tai unigol eu talu, a dyna pam yr ydym yn gwneud gwaith manwl ar gost adeiladau carbon isel. Pan fyddwn yn newid y rheoliadau adeiladu i fodloni ein dyhead am adeiladau digarbon/carbon isel, byddwn yn gallu ymgorffori pob elfen yn y rheoliadau hynny.

Cynnig i Ddiwygio'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chyflogi Aelodau Teuluoedd Aelodau'r Cynulliad
Motion to Amend Standing Orders with respect to the Employment of Family Members by Assembly Members

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): I move that

the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 35.2:

1. considers the report of the Business Committee laid in the Table Office on 27 April 2010;

2. approves the amendments to Standing Orders set out in the report of the Business Committee;

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Cynigiad fod:

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 35.2:

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2010;

2. yn cymeradwyo'r gwelliannau i Reolau Sefydlog a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes;

3. *agrees that the amendments to Standing Orders will take effect on 26 May 2010; and* 3. *yn cytuno y bydd y gwelliannau i Reolau Sefydlog yn dod i rym ar 26 Mai 2010; ac*
4. *notes the Guidance for Assembly Members on the Recording of the Employment of Family Members with the Support of Commission Funds laid in the Table Office on 27 April 2010. (NDM4466)* 4. *yn nodi'r Canllawiau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ar Gofnodi Cyflogi Aelodau Teuluoedd â Chymorth Arian y Comisiwn, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2010. (NDM4466)*

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod cytuno ar y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

The Presiding Officer: The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 2.52 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 2.52 p.m.*

Dadl Ceidwadwyr Cymru Welsh Conservatives Debate

Adolygiad Beecham The Beecham Review

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Peter Black.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Peter Black.

David Melding: I move that

David Melding: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales regrets the failure of the Welsh Assembly Government to match the vision of the Beecham review of local service delivery, 'Making the Connections—Delivering Beyond Boundaries'. (NDM4465)

Cynlluniad Cenedlaethol Cymru yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyd-fynd â gweledigaeth adolygiad Beecham o'r modd y caiff gwasanaethau lleol eu darparu, 'Creu'r Cysylltiadau—Cyflawni Ar Draws Ffiniau'. (NDM4465)

We are prepared to support amendment 1, tabled by the Liberal Democrats.

Yr ydym yn fodlon cefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

It is appropriate that we return to the Beecham review because it was such a seminal piece of work. It was an example of a Government doing the right thing in asking for a thoroughgoing piece of research, with focused recommendations, undertaken by a highly respected national figure. At the time, the report was endorsed by a whole range of organisations and political parties. In the whole time of devolution, I do not think that

Mae'n briodol inni ddychwelyd at adolygiad Beecham am ei fod yn ddarn o waith mor arloesol. Yr oedd yn enghraifft o Lywodraeth yn gwneud y peth iawn trwy ofyn am ddarn o ymchwil trylwyr, gydag argymhellion ag iddynt ffocws pendant, wedi'i gyflawni gan unigolyn amlwg ac uchel ei barch. Ar y pryd, cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan ystod eang o sefydliadau a phleidiau gwleidyddol. Yn yr holl amser ers datganoli,

we have seen a report on such a tricky and potentially controversial area receive such widespread comprehensive endorsement.

At the heart of the Beecham review was a call to reshape public services. This found an echo in all political parties that had been looking at ways of improving public services and ensuring that increased public spending becomes effective investment. It is not something that happens by magic—you can increase the inputs without having any noticeable effect on the outputs. It has been a reflection on practice over the last 10 years that not all public spending has had the optimum return in terms of increasing productivity. Therefore, the Beecham review was a welcome piece of work. The Government at the time deserved the plaudits that it received for commissioning the review.

The key principles of the review should influence the development of public services more than ever as we face the potential of spending cuts, and a far more rigorous and constrained public expenditure environment. However, I still think that the vision set out in the Beecham review that Wales should set an example of excellence for smaller nations in the delivery of public services is a noble aim. We should have no smaller ambition than to aim for excellence that could be emulated elsewhere. That requires a citizen-centred approach. All parties agree with the principle of citizen-centred services, that is, services that are not overwhelmed by the sometimes unconscious desires of producers, but are effective in responding to the needs of citizens.

Beecham also said that in any healthy provision of public services, you need a mixed economy of providers. I think that that was a gentle nudge to the Welsh Assembly Government of the time to increase its commissioning in the private, independent and voluntary sectors. Alas, this is an area that has been difficult for the Welsh Assembly Government to take to heart.

ni chredaf inni weld adroddiad ar faes mor anodd, a maes a allai fod yn ddadleuol, yn cael cymeradwyaeth mor gynhwysfawr ac eang.

Yr oedd neges ganolog adolygiad Beecham yn galw am ailffurfio gwasanaethau cyhoeddus. Adleisiwyd hynny gan bob plaid wleidyddol a oedd wedi bod yn edrych ar ffyrdd i wella gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau bod cynnydd mewn gwariant cyhoeddus yn dod yn fuddsoddiad effeithiol. Nid yw'n rhywbeth sy'n digwydd ar amrantiad—gallwch gynyddu'r mewnbwn heb gael dim effaith amlwg ar yr allbwn. Mae'n adlewyrchiad o arfer yn ystod y 10 mlynedd diwethaf nad yw pob gwariant cyhoeddus wedi arwain at y canlyniadau gorau posibl o ran cynyddu cynhyrchiant. Felly, yr oedd adolygiad Beecham yn ddarn o waith i'w groesawu. Yr oedd y Llywodraeth ar y pryd yn haeddu'r clod a gafodd am gomisiynu'r adolygiad.

Dylai egwyddorion allweddol yr adolygiad ddylanwadu ar waith datblygu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy nag erioed wrth inni wynebu posibilrwydd toriadau gwariant, ac amgylchedd gwariant cyhoeddus llawer iawn mwy llym a chaeth. Fodd bynnag, yr wyf yn dal i gredu bod y weledigaeth a gyflwynwyd yn adolygiad Beecham, sef y dylai Cymru osod esiampl o ragoriaeth i genhedloedd llai o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn nod ardderchog. Ni ddylai ein huchelgais fod yn ddim llai nag anelu at ragoriaeth y gellid ei hefelychu rywle arall. Mae hynny'n gofyn am ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae pob plaid yn cytuno ag egwyddor gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, hynny yw, gwasanaethau heb eu llethu gan ddymuniadau cynhyrchwyr, a all fod yn ddiarwybod weithiau, ond sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion dinasyddion.

Yn ogystal, dywedodd Beecham fod arnoch angen economi gymysg o ddarparwyr mewn unrhyw drefn iach o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Credaf mai awgrym cynnil oedd hynny i Lywodraeth y Cynulliad ar y pryd gomisiynu mwy yn y sector preifat, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol. Ysywaeth, mae hwn yn faes a fu'n anodd i Lywodraeth y Cynulliad gymryd ato. Dywedodd Beecham

Beecham also said that the monitoring and evaluation of public services needed to be improved dramatically. Without meaningful benchmarks, citizens can hardly be expected to evaluate how effective their services are, and without obvious means of inputting their experiences in a simple, effective and direct way, we will not get the level of response that we need to hone public services so that they reach their maximum level of efficiency.

All these things unite us, therefore, why have this debate? We have to look at the performance of the Welsh Assembly Government. Its composition has changed somewhat, but it is still led by the Labour Party. Plaid Cymru is also now in Government and it too must take some responsibility for the slow implementation of key recommendations. I will start with the need for reliable and accessible data, which is a key element to improving public services. We have seen the recent muddle in the presentation of health statistics, particularly relating to waiting lists. What happens over time if a Government says, 'You are not comparing like with like. We cannot simply go on producing figures in the old way and we have to modernise the way that we capture data.'? Some of that is perfectly legitimate, but unless you reinterpret some of the old data to establish baselines and to bring them up to date, you leave the public confused and you diminish the efficiency of any scrutiny, particularly the effectiveness of the opposition in trying to hold the Government to account. We also see a Government that is keen on publishing strategies, but fails to produce action plans that set out clear indicators so that, in the future, we could judge whether policies have been carried out effectively or not.

Another area that I would like to turn to is the recommendation that Jeremy Beecham made for an annual statement to be made by the Welsh Assembly Government on public service performance. That has not been taken forward by the Welsh Assembly Government and that is a matter of great regret. When I responded to the Beecham review on behalf of the Welsh Conservative group in 2006, I said that I regarded this as a key recommendation and also that it should be

hefyd fod angen i waith monitro a gwerthuso gwasanaethau cyhoeddus wella'n sylweddol iawn. Heb feincnodau ystyrion, prin y gellir disgwyl i ddinasyddion werthuso pa mor effeithiol yw eu gwasanaethau, a heb ddulliau amlwg i gyfleu eu profiadau mewn ffordd syml, effeithiol ac uniongyrchol ni chawn y lefel ymateb y mae arnom ei hangen i fireinio gwasanaethau cyhoeddus er mwyn iddynt fod mor effeithlon fyth ag y gallant fod.

Mae'r holl bethau hyn yn ein huno. Felly, pam cynnal y ddadl hon? Rhaid inni edrych ar berfformiad Llywodraeth y Cynulliad. Mae ei chyfansoddiad wedi newid rywfaint, ond y Plaid Lafur sy'n ei harwain o hyd. Mae Plaid Cymru hefyd yn rhan o'r Llywodraeth bellach, a rhaid iddi hithau gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am yr arafwch wrth weithredu argymhellion allweddol. Dechreuaf gyda'r angen am ddata dibynadwy a hygyrch, sy'n elfen allweddol o safbwynt gwella gwasanaethau cyhoeddus. Gwelsom y dryswch yn ddiweddar wrth gyflwyno ystadegau iechyd, yn enwedig o safbwynt rhestrau aros. Beth sy'n digwydd dros gyfnod os bydd Llywodraeth yn dweud, 'Nid ydych yn cymharu tebyg â thebyg. Ni allwn barhau i gynhyrchu ffigurau yn yr hen ffordd a rhaid inni foderneiddio'r ffordd yr ydym yn casglu data.'? Mae rhywfaint o hynny'n gwbl ddilys, ond oni fyddwch yn aildehongli rhai o'r hen ddata i greu llinellau sylfaen a'u diweddar, yr ydych yn drysu'r cyhoedd ac yn lleihau effeithlonrwydd unrhyw waith craffu, yn enwedig effeithiolrwydd y gwrthbleidiau wrth geisio dwyn y Llywodraeth i gyfrif. Yr ydym hefyd yn gweld Llywodraeth sy'n hoff o gyhoeddi strategaethau, ond sy'n methu â chynhyrchu cynlluniau gweithredu sy'n gosod allan ddangosyddion clir er mwyn inni allu barnu, yn y dyfodol, a yw polisiau wedi eu gweithredu'n effeithiol ai peidio.

Maes arall yr hoffwn droi ato yw'r argymhelliad a wnaeth Jeremy Beecham, sef y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi datganiad bob blwyddyn am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi bwrw ymlaen â hynny ac mae hynny'n drueni mawr. Pan ymatebais i adolygiad Beecham ar ran grŵp Ceidwadwyr Cymru yn 2006, dywedais fy mod yn ystyried hwn yn argymhelliad allweddol ac y dylid cael dadl arno hefyd

accompanied by a debate in Plenary. I would like to challenge the Minister who is replying to this debate and ask her—I think that it will be ‘her’—why this key recommendation has not been carried forward, because it is central to keeping public service delivery at the heart of the Welsh Assembly Government’s reckoning.

As far as the mixed economy models of service delivery are concerned, we have to say that, since 2006, we have gone backwards, because when Plaid Cymru joined the Government, it insisted that any mixed economy model in health was explicitly excluded. That also sent a signal to other public service areas and has been condemned roundly by organisations such as the Confederation for British Industry for sending precisely the wrong message in terms of ensuring that a whole range of businesses could provide public services directly or tender for some of those contracts. If we do not do that, we are hardly going to see a healthier private sector in Wales, and, more importantly, as Jeremy Beecham pointed out, we will not see the level of innovation and excellence that we need in public services.

3.00 p.m.

The Beecham review also said that it was very important that we saw more pooled sovereignty among the various public service providers, particularly local government but also the health service and others. There have undoubtedly been some attempts at this, but a model that was perhaps designed to encourage pooled sovereignty—the creation of the local health boards that were coterminous with local authorities—has been completely reversed. We have had an utter volte-face on that since the Beecham review. We have also seen the failure of local government partnerships that were in the pipeline. Some are going forward, but there have been big setbacks in pooling back-office functions and human resources services and the like. In addition, other services are not being taken forward in a way that maximises their effectiveness, with local authorities joining together. This stands as a real problem and challenge for the Welsh Assembly Government.

mewn Cyfarfod Llawn. Hoffwn herio’r Gweinidog sy’n ymateb i’r ddadl hon a gofyn iddi hi—credaf mai ‘hi’ fydd hi—pam nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi bwrw ymlaen â’r argymhelliad allweddol hwn, oherwydd mae’n ganolog o safbwynt cadw darparu gwasanaethau cyhoeddus wrth wraidd meddylfryd Llywodraeth y Cynulliad.

O ran y modelau economi gymysg o ddarparu gwasanaethau, rhaid inni ddweud ein bod wedi mynd am yn ôl ers 2006, oherwydd pan ymunodd Plaid Cymru â’r Llywodraeth mynnodd fod unrhyw fodel economi gymysg ym maes iechyd yn cael ei eithrio’n bendant. Anfonodd hynny neges i feysydd gwasanaeth cyhoeddus eraill hefyd, ac fe’i condemniwyd yn blaen gan sefydliadau megis Cydffederasiwn Diwydiant Prydain am anfon y neges hollol anghywir o safbwynt sicrhau y gallai ystod eang o fusnesau ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol neu dendro ar gyfer rhai o’r contractau hynny. Os na wnawn ni hynny, go brin y cawn ni sector preifat iachach yng Nghymru. Ac yn bwysicach, fel y dywedodd Jeremy Beecham, ni welwn y lefel arloesedd a rhagoriaeth y mae arnom ei hangen mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Dywedodd adolygiad Beecham hefyd ei bod yn bwysig iawn inni weld mwy o rannu sofraniaeth ymhlith y gwahanol ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig llywodraeth leol, ond ymhlith y gwasanaeth iechyd ac eraill hefyd. Heb os, gwelwyd rhai ymdrechion i sicrhau hynny, ond mae model a gynlluniwyd, efallai, i annog rhannu sofraniaeth—sef creu’r byrddau iechyd lleol a oedd yn cyd-ffinio ag awdurdodau lleol—wedi cael ei wrthdroi’n llwyr. Yr ydym wedi newid cyfeiriad yn llwyr ar hynny ers adolygiad Beecham. Yr ydym hefyd wedi gweld y partneriaethau llywodraeth leol a oedd yn yr arfaeth yn methu. Mae rhai yn mynd yn eu blaen, ond cafwyd rhwystrau mawr o ran rhannu swyddogaethau cefn swyddfa a gwasanaethau adnoddau dynol, ac yn y blaen. Yn ogystal, nid yw gwasanaethau eraill yn cael eu datblygu mewn ffordd sy’n cynyddu eu heffeithiolrwydd i’r eithaf, gydag awdurdodau lleol yn uno. Mae hyn yn dal yn broblem ac yn her go iawn i Lywodraeth y

Cynulliad.

I will note that there are some developments under way in the field of education. Where these carry the endorsement of local support and improve the delivery of education, they will be welcomed. Even there, however, you are seeing more integration within local authorities rather than co-operation between local authorities.

On earned autonomy and localism, Beecham thought that this was very important: if we are to get the best out of public servants, we have to allow them the flexibility to respond to local circumstances, to develop and to adapt their services. However, we still see heavy WAG targets, which are far too detailed and stifle innovation. We are wedded to centralised approaches, and there has been no advance towards budgets that are much freer in lifting various elements of ring-fencing.

We have to conclude that the Welsh Assembly Government has probably been sincere in accepting the report. However, in its four years of practice since then, the record on implementation ranges from mixed to poor, and that needs to be reversed. We must redouble our efforts, given the tight public spending rounds that we are likely to see in the following few years. Let us look at the public services that are being delivered. There are examples of outstanding practice all over Wales, but we still face the challenge of turning best practice into common practice, if I may express it in that way. The quality of public services remains far too spotty to meet the needs of people effectively, efficiently and predictably all over Wales.

If we look at the health service, for instance, we see that profound questions have been asked about how the budget is spent. Paul Davies, chair of the NHS finance directors, has questioned the effectiveness of about £1 billion-worth of NHS spending. I am sure that he did not mean that that is completely wasted, as that is not what I am talking about. However, he did question whether it was

Nodaf fod rhai datblygiadau ar y gweill ym maes addysg. Caiff y rhain eu croesawu pan fyddant wedi'u cymeradwyo drwy gefnogaeth leol ac yn gwella darparu addysg. Hyd yn oed yn yr achos hwnnw, fodd bynnag, yr ydych yn gweld mwy o integreiddio o fewn awdurdodau lleol yn hytrach na chydweithredu rhyngddynt.

O safbwynt ymreolaeth haeddiannol a rhoi blaenoriaeth i bethau lleol, credai Beecham fod hynny'n bwysig iawn: os ydym am gael y gorau gan weision cyhoeddus, rhaid inni roi'r hyblygrwydd iddynt ymateb i amgylchiadau lleol, ac i ddatblygu ac addasu eu gwasanaethau. Fodd bynnag, yr ydym yn dal i weld targedau trwm gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n rhy fanwl o lawer ac yn mygu arloesedd. Yr ydym yn gaeth i dulliau sydd wedi'u canoli, ac ni wnaed dim cynnydd tuag at gyllidebau sy'n fwy rhydd o lawer wrth ddileu elfennau o neilltuo arian.

Rhaid inni ddod i'r casgliad fod Llywodraeth y Cynulliad, mae'n debyg, yn ddiffuant wrth dderbyn yr adroddiad. Fodd bynnag, yn ei phedair blynedd o weithio ers hynny, mae'r record o ran gweithredu yn amrywio o gymysg i wael, ac mae angen gwrthdroi hynny. Rhaid inni ddyblu'n hymdrechion, o gofio'r cylchoedd gwariant cyhoeddus tynn yr ydym yn debygol o'u gweld yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gadewch inni edrych ar y gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu. Mae enghreifftiau o arfer rhagorol ym mhob cwr o Gymru, ond yr ydym yn dal i wynebu'r her o droi arfer gorau yn arfer cyffredin, os caf ei fynegi felly. Mae ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yn dal yn rhy anghyson o lawer i ddiwallu anghenion pobl yn ôl y disgwyl ac mewn modd effeithiol ac effeithlon trwy Gymru benbaladr.

Os edrychwn ar y gwasanaeth iechyd, er enghraifft, gwelwn fod cwestiynau dwys wedi eu gofyn am y modd y caiff y gyllideb ei gwario. Mae Paul Davies, cadeirydd cyfarwyddwyr cyllid y GIG, wedi codi amheuan ynghylch effeithiolrwydd gwerth tuag £1 biliwn o wariant y GIG. Yr wyf yn siŵr nad oedd yn golygu bod yr arian hwnnw'n cael ei wastraffu'n llwyr, oherwydd

being used to optimum effect. Turning to education, in Wales, only 58 per cent of pupils achieved five good grades at GCSE level. It is a lower figure again if you include maths and the English language. That is considerably below the 65 per cent who achieve that benchmark in England. On the skills agenda, Beecham specifically mentioned the need to improve skills and said that he was particularly concerned about the level of skills in Wales. However, since the publication of the Beecham report, WAG has set a lower standard for intermediate skills than that recommended in the Leitch review. This is a very odd way of responding to the need to improve skills—by failing to implement one of the central recommendations of the skills report produced by Lord Leitch, a report that the Government had accepted.

On unemployment among 16 to 18-year-olds, recent figures from the Organisation for Economic Co-operation and Development demonstrate that Wales has the worst record in Europe. That is very sobering, and demonstrates that our progress has simply not been good enough in key areas.

I will end this part of my speech by talking about the voluntary sector. It is the key to introducing innovation in public service delivery. The problem with public services is that, if we do not create a mixed economy, they tend to provide monopoly provision in too many areas, which can mean more of the same. You need the checks and balances that you get when you are encouraging people to develop and innovate as much as possible. The voluntary sector has shown itself to be absolutely first class at developing services, engaging with the public at community level, and producing effective models of innovation. However, the Assembly Government has not embedded three-year funding for the voluntary sector, and the sector is now fearful that, in a spending review that will be much more difficult than usual, it will be the first to face cuts. Again, a key area of Beecham will not have been implemented effectively.

nid am hynny yr wyf yn sôn. Fodd bynnag, yr oedd yn amau a yw'n cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posibl. I droi at addysg, yng Nghymru dim ond 58 y cant o ddisgyblion a gafodd bum gradd dda lefel TGAU. Mae'r ffigur yn is eto os cynhwyswch fathemateg ac iaith Saesneg. Mae hynny'n sylweddol is na'r 65 y cant sy'n cyrraedd y meincnod hwnnw yn Lloegr. O ran yr agenda sgiliau, cyfeiriodd Beecham yn benodol at yr angen i wella sgiliau, a dywedodd ei fod yn pryderu'n benodol am y sgiliau yng Nghymru. Fodd bynnag, ers cyhoeddi adroddiad Beecham mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod safon is ar gyfer sgiliau canolradd nag a argymhellwyd yn adolygiad Leitch. Dyna ffordd ryfedd iawn o ymateb i'r angen i wella sgiliau—drwy fethu â gweithredu un o argymhellion canolog yr adroddiad ar sgiliau a gafodd ei gynhyrchu gan yr Arglwydd Leitch a'i dderbyn gan y Llywodraeth.

O ran diweithdra ymhlith pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed, mae ffigurau'n ddiweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dangos mai Cymru sydd â'r ffigurau gwaethaf yn Ewrop. Mae hynny'n ddifrifol iawn ac mae'n dangos, yn syml iawn, nad yw ein cynnydd wedi bod yn ddigon da mewn meysydd allweddol.

Yr wyf am gloi'r rhan hon o'm haraith drwy sôn am y sector gwirfoddol. Dyma'r allwedd i sicrhau arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Y broblem gyda gwasanaethau cyhoeddus yw eu bod yn tueddu i roi darpariaeth fonopoli mewn gormod o feysydd, os na fyddwn yn creu economi gymysg, a gall hynny olygu mwy o'r un peth. Mae arnoch angen y rhwystrau a'r gwrthbwysau a gewch pan fyddwch yn annog pobl i ddatblygu ac arloesi gymaint ag sy'n bosibl. Mae'r sector gwirfoddol wedi dangos ei fod heb ei ail am ddatblygu gwasanaethau, ymgysylltu â'r cyhoedd ar lefel gymunedol, a chynhyrchu modelau effeithiol o arloesedd. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu cylch cyllido tair blynedd ar gyfer y sector gwirfoddol, ac mae'r sector yn awr yn ofni mai ef fydd y cyntaf i wynebu toriadau mewn adolygiad o wariant a fydd yn anoddach o lawer nag arfer. Eto, bydd maes allweddol yn adolygiad Beecham heb ei weithredu'n

effeithiol.

I will now outline what the Welsh Conservatives would do if we were in Government and had the responsibility of implementing Beecham. We want world-class, citizen-centred public services. I cannot think of a civilised society that does not have that as one of the key goals for its Government. We believe that that requires an effective partnership between the voluntary, independent and public sectors to create a mixed economy in the provision of public services. The innovation and development brought by these key sectors is absolutely essential to improving public services and making them world class, which is what Beecham challenged us to do. However, Labour is still wedded to producer interests and old centralised silos and forms of delivery, and that has to be challenged. WAG also fears genuine accountability. The Welsh Conservatives would give the people of Wales an annual statement on the key benchmarks for public service delivery, and we would be held accountable for that in an annual debate here in Plenary.

I conclude by challenging the Welsh Assembly Government to raise its game, to go back to the Beecham report, to take it fully to heart, and to implement it properly.

Peter Black: I move amendment 1 in my name. Add as a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to review the impact of the health service reorganisation on joint working of local authorities as set out in the Beecham review.

I thank the Welsh Conservatives for tabling this motion for debate today, and I congratulate David on his speech, the vast majority of which I agree with. The agenda that was set out in 2006 by the Beecham report has yet largely to be implemented, as is the idea that public services should be working more closely together to deliver a better service for the limited resources

Amlinellaf yn awr yr hyn y byddai Ceidwadwyr Cymru yn ei wneud pe baem ni mewn Llywodraeth ac yn gyfrifol am weithredu adolygiad Beecham. Yr ydym am weld gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Ni allaf feddwl am yr un gymdeithas wâr nad yw hynny'n un o'r nodau allweddol ar gyfer ei Llywodraeth. Credwn fod hynny'n gofyn am bartneriaeth effeithiol rhwng y sector gwirfoddol, y sector annibynnol a'r sector cyhoeddus i greu economi gymysg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r arloesedd a'r datblygiad a gynigir gan y sectorau allweddol hyn yn gwbl hanfodol i wella gwasanaethau cyhoeddus a'u gwneud yn wasanaethau o'r radd flaenaf, sef yr hyn yr oedd Beecham wedi ein herio i'w wneud. Fodd bynnag, mae Llafur yn gaeth o hyd i fuddiannau cynhyrchwyr a hen seilos a dulliau darparu wedi'u canoli, a rhaid herio hynny. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ofni gwir atebolrwydd. Byddai Ceidwadwyr Cymru yn rhoi datganiad i bobl Cymru bob blwyddyn ar y meincnodau allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, a byddem yn cael ein dwyn i gyfrif am hynny bob blwyddyn mewn dadl yma mewn Cyfarfod Llawn.

Yr wyf yn cloi drwy herio Llywodraeth y Cynulliad i ymdrechu'n galetach, i edrych eto ar adroddiad Beecham, i'w ystyried yn llwyr a'i weithredu'n iawn.

Peter Black: Cynigiau welliant 1 yn fy enw i. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu effaith ad-drefnu'r gwasanaeth ieched ar gydweithio rhwng awdurdodau lleol fel y nodir yn adolygiad Beecham.

Diolch i Geidwadwyr Cymru am gyflwyno'r cynnig hwn i'w drafod heddiw. Yr wyf yn llongyfarch David am ei araith ac yr wyf yn cytuno â'r mwyafrif helaeth ohoni. I raddau helaeth nid yw'r agenda a osodwyd yn 2006 gan adroddiad Beecham wedi ei gweithredu eto, fel sy'n wir am y syniad y dylai gwasanaethau cyhoeddus fod yn gydweithio'n nes i ddarparu gwasanaeth

available. I was slightly bemused by David's reference to the Government being wedded to a centralised approach; I agree that that is the case, but just half an hour ago one of his colleagues proposed a generic shed for allotments, which I thought was the ultimate centralising agenda.

This is an important debate because the way in which we deliver our public services, and the value for money that we get from them will be critical over the next few years. We all expect cuts in public expenditure, and we expect the Assembly's budget to be significantly pruned back. It is therefore crucial that we get value for money from fundamental front-line services such as education and health, as well as many others. These are mostly delivered by local government, but also by agencies of the Welsh Government itself, and they must be protected as far as possible. We can do that only if we create a collaborative atmosphere in which people work together to derive efficiencies from their expenditure and to ensure that they are not duplicating services delivered by another body. It may well be that this whole collaboration agenda ends up with some sort of reorganisation to achieve that, but at this stage we still have that agenda on the table, and we are still trying to deliver on that.

3.10 p.m.

It is disappointing, therefore, that the reorganisation of the health service was overly centralised, in my view, and that the opportunities to drive forward joint working were not taken by the Welsh Government. In effect, seven health boards were set up, which are probably of a more optimal size than the previous health boards, but we did not seem to make any provision for how they would interact with local government and the councils in their areas. Whereas before in Swansea, for example, we had one local health board, one local council and the trust all working together, to an extent, trying to deliver a common agenda, we now have one health board covering Swansea, Neath Port

gwell am yr adnoddau prin sydd ar gael. Yr oeddwn wedi drysu braidd wrth glywed David yn cyfeirio at y ffaith fod y Llywodraeth yn gaeth i ddull gweithredu wedi'i ganoli; cytunaf fod hynny'n wir, ond cwta hanner awr yn ôl cynigiodd un o'i gydweithwyr y dylid cael sied unffurf ar gyfer rhandiroedd, a dyna'r agenda ganoli fwyaf eithafol, gredaf fi.

Mae hon yn ddadl bwysig, oherwydd bydd y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau cyhoeddus, a'r gwerth yr arian yr ydym yn ei gael ohonynt, yn allweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yr ydym i gyd yn disgwyl toriadau mewn gwariant cyhoeddus, a disgwyliwn i gyllideb y Cynulliad gael ei thocio'n sylweddol. Felly, mae'n hanfodol inni gael gwerth yr arian gan wasanaethau rheng flaen sylfaenol megis addysg ac iechyd, yn ogystal â nifer o rai eraill. Caiff y rhain eu darparu gan lywodraeth leol gan mwyaf, ond cânt eu darparu hefyd gan asiantaethau Llywodraeth Cymru ei hun, a rhaid iddynt gael eu hamddiffyn gymaint ag sy'n bosibl. Yr unig ffordd y gallwn wneud hynny yw drwy greu awyrgylch cydweithredol lle mae pobl yn cydweithio i gael arbedion effeithlonrwydd o'u gwariant a sicrhau nad ydynt yn dyblygu gwasanaethau y mae corff arall yn eu darparu. Hwyrach y bydd yr agenda gyfan hon o gydweithredu yn arwain at ryw fath o ad-drefnu i gyflawni hynny, ond ar hyn o bryd mae'r agenda honno'n dal ar y bwrdd, ac yr ydym yn dal i geisio'i chyflawni.

Felly, mae'n siomedig fod ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd wedi ei ganoli'n ormodol, yn fy marn i, ac na fanteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfleoedd i ddatblygu cydweithio. I bob pwrpas, sefydlwyd saith bwrdd iechyd, ac mae'n debyg eu bod o faint gwell na'r byrddau iechyd blaenorol. Ond ymddengys inni fethu â darparu dim ar gyfer y ffordd y byddent yn rhyngweithio â llywodraeth leol a'r cynghorau yn eu hardal. O'r blaen, yn Abertawe, er enghraifft, yr oedd gennym un bwrdd iechyd lleol, un cyngor lleol a'r ymddiriedolaeth i gyd yn cydweithio, i raddau, ac yn ceisio cyflawni agenda gyffredin. Ond yn awr mae gennym un bwrdd iechyd yn cwmpasu Abertawe,

Talbot and Bridgend, trying to work with three separate councils. There does not seem to be the interface yet to deliver on that.

The situation is even worse in other parts of Wales. The Gwent board, for instance, covers five local authority areas, and the north Wales board covers seven, I think—I have lost count. The idea of driving forward collaboration seems to have gone out of the window and been lost in the enthusiasm to deliver on that agenda. That is to be regretted because one of the biggest inefficiencies in public services can be found in the interaction between social care and healthcare. That is not working, and has not worked for most of the time we have been here as an Assembly, even though we have talked constantly about joint budgets and joint working. There are one or two projects that are working well and are worthy of mention, such as the fragility project in Gwent, which is very good, and another in Carmarthenshire. However, that is no uniformity of joint working to produce that interaction between healthcare and social care, which is to be regretted.

Another issue with the local service boards, apart from their invisibility in the local area, is that they are not scrutinised properly. There is no transparency to what they are doing or to how partners work together, and there is no proper accountability. Trying to get one of the so-called partners in to answer the questions of a local authority scrutiny body is a bit of a lottery, to be honest: sometimes they will come in and sometimes they will not. There is no proper scrutiny of how money is spent at the local level. The effectiveness of that agenda is also the key.

In conclusion, this agenda was set out for us in 2006 and is very much on trial. We do not know whether it will work, but we do not seem to be making much progress. In fact, in some areas, such as health, the actions of the Assembly Government have suffered a setback. We need to look at this again and perhaps reconsider how we can deliver the joint working and collaboration that Beecham envisaged in his report.

Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, yn ceisio gweithio gyda thri chyngor ar wahân. Ymddengys nad oes yno'r rhyngwyneb eto i gyflawni hynny.

Mae'r sefyllfa'n waeth fyth mewn rhannau eraill o Gymru. Er enghraifft, mae bwrdd Gwent yn cwmpasu pum ardal awdurdod lleol, a bwrdd y gogledd yn cwmpasu saith, mi gredaf—yr wyf wedi colli cyfrif. Mae'r syniad o ddatblygu cydweithredu fel pe bai wedi ei daflu o'r neilltu ac wedi'i gollu yn y brwdfrydedd i gyflawni'r agenda honno. Mae hynny'n drueni, oherwydd mae un o'r enghreifftiau mwyaf o aneffeithlonrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus i'w gweld yn y rhyngweithio rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd. Nid yw hynny'n gweithio, a phrin y mae wedi gweithio ers inni fod yma fel Cynulliad, er inni siarad yn gyson am rannu cyllidebau a chydweithio. Mae yna un neu ddau brosiect sy'n gweithio'n dda ac sy'n haeddu cael eu crybwyll, megis y prosiect breuder yng Ngwent, sy'n dda iawn, ac un arall yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, nid oes cydweithio unffurf i gynhyrchu'r rhyngweithio hwnnw rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n drueni.

Problem arall gyda'r byrddau gwasanaeth lleol, ar wahân i'r ffaith eu bod yn anweledig yn yr ardal leol, yw nad oes craffu priodol arnynt. Nid oes tryloywder yn yr hyn y maent yn ei wneud nac yn y modd y mae partneriaid yn cydweithio, ac nid oes atebolrwydd iawn. Mae ceisio cael un o'r partneriaid honedig i ddod i ateb cwestiynau gan gorff craffu awdurdod lleol yn dipyn o loteri, a dweud y gwir: deuant i mewn weithiau ond nid bryd arall. Nid oes gwaith craffu iawn yn digwydd yn y modd y caiff arian ei wario'n lleol. Mae effeithiolrwydd yr agenda honno hefyd yn allweddol.

I gloi, cyflwynwyd yr agenda hon inni yn 2006 ac mae ar brawf i raddau helaeth. Ni wyddom a fydd yn gweithio, ond ymddengys nad ydym yn gwneud llawer o gynnydd. Mewn gwirionedd, mae camau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd am yn ôl mewn rhai meysydd, megis iechyd. Mae angen inni edrych ar hyn eto ac ailystyried, efallai, sut y gallwn sicrhau'r cydweithio a'r cydweithredu a ragwelodd Beecham yn ei adroddiad.

The Deputy Presiding Officer: I call Mark Isherwood.

Y Dirprwy Lywydd: Galwaf ar Mark Isherwood.

Mark Isherwood: Oh, thank you, Deputy Presiding Officer. I was not expecting to be called quite so soon. The Beecham review recommended

Mark Isherwood: O, diolch, Ddirprwy Lywydd. Nid oeddwn yn disgwyl cael fy ngalw mor fuan. Yr oedd adolygiad Beecham yn argymhell

‘an ambitious, cross-sector process of engagement with the public and the workforce on the need to change patterns of service, working with the third sector, Community Health Councils and other citizen advocates.’

‘proses ymgysylltu uchelgeisiol ar draws sectorau gyda’r cyhoedd a’r gweithlu ar yr angen i newid patrymau gwasanaeth, gan weithio gyda’r trydydd sector, Cyngorau Iechyd Cymuned ac eiriolwyr dinasyddion eraill.’

It insists that public services should become more citizen-centred and tougher on performance, with an emphasis on public sector bodies working together on a cross-sector basis. However, four years later, top-down Welsh Government dominates, and complexity remains the order of the day.

Mae’n mynnu y dylai gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio mwy ar y dinesydd a bod yn fwy llym ar berfformiad, gyda phwyslais ar gyrff y sector cyhoeddus yn cydweithio ar draws sectorau. Fodd bynnag, bedair blynedd yn ddiweddarach, Llywodraeth Cymru, sy’n gweithredu o’r brig i lawr, sy’n teyrnasu ac mae cymhlethdod yn dal yn beth arferol.

North Wales council leaders initially told me that Beecham would recommend a reduction in the number of Welsh local authorities. Instead, it went for co-operation and collaboration, but Labour saw that as an alternative to choice, rather than as a means to drive improved and more cost-effective public services through enhanced choice. Instead of giving power to the people, it has centralised power in its own hands.

I ddechrau, dywedodd arweinwyr cyngor o’r gogledd wrthyf y byddai Beecham yn argymhell lleihau nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn lle hynny, canolbwyntiodd ar gydweithio a chydweithredu, ond gwelodd y Blaid Lafur hynny fel dull arall yn lle dewis, yn hytrach nag fel modd i ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus gwell a mwy cost effeithiol drwy gynnig mwy o ddewis. Yn lle rhoi pŵer i’r bobl, mae wedi canoli pŵer yn ei dwylo ei hun.

Only a fool would deny that tough times lie ahead, and the need for change has never been greater. Gordon Brown believed that, alone, he could defeat the economic cycle and break the economic rules that he claims to support, by increasing borrowing when the economy and tax receipts were growing, thereby creating a debt crisis when a fiscal stimulus was required as the economy slipped into recession. He is the King Canute of economics: sitting on a beached economy, unable to turn back the tide of debt that he created. The Beecham review highlighted the need to give

Dim ond ffŵl fyddai’n gwadu nad oes amserau anodd o’n blaen, ac ni fu’r angen am newid erioed yn fwy. Yr oedd Gordon Brown yn credu y gallai drechu’r cylch economaidd ar ei ben ei hun, a thorri’r rheolau economaidd y mae’n honni iddo’u cefnogi, drwy fenthycu mwy pan oedd derbyniadau treth a’r economi’n tyfu, a chreu, drwy hynny, argyfwng dyledion pan oedd angen ysgogiad ariannol wrth i’r economi lithro i mewn i ddirwasgiad. Ef yw Brenin Canute economeg: mae’n eistedd ar economi sydd wrth y lan, ac ni all droi’r llanw o ddyled a grewyd ganddo. Tynnodd adolygiad Beecham sylw at yr angen i

‘higher priority to citizen-centred scrutiny

‘rhoi blaenoriaeth uwch i waith llywodraethu

and governance’.

Yet, Labour and Plaid Cymru have eroded local democracy.

The Sustainable Communities Act 2007 recognises that local people know best what needs to be done to promote the sustainability of their area, but Labour and Plaid Cymru have refused to implement this in Wales. When I led an opposition debate in the Assembly last November calling for disabled people to be allowed to live their own lives in the way that they choose for themselves, our motion was defeated by Labour and Plaid Cymru. Last week I was proud to speak at the Disability Wales conference, which launched the Independent Living Now campaign for Wales. Citizen-directed support is about cultural change and transformation. It is about power, choice, control and inclusion. We must make it work in Wales.

Communities First is the Welsh Government’s flagship programme to tackle deprivation in the most disadvantaged communities. However, the Wales Audit Office has revealed an absence of basic financial and human resource planning and that the Welsh Government ignored warnings going back to 2003. Now, £0.25 billion later, Wales has become the poorest part of the UK, with the highest rates of child poverty, pensioner poverty and unemployment, one in three working-aged adults not in work, record youth unemployment and economic inactivity, stalled social mobility and the gap between the richest and poorest in society at its widest since the second world war.

Funding per pupil in Welsh schools is now £527 less than in England, and, as we heard, GCSE attainment is lower. The number of students in Welsh further education colleges fell by 10 per cent in the three years to 2009, and this Welsh Government is now double counting to conceal further cuts this year. When I recently met university staff, they complained of the funding gap with England, and of Welsh Government economic targets

a chraffu sy’n canolbwyntio ar y dinesydd’.

Eto i gyd mae’r Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi erydu democratiaeth leol.

Mae Deddf Cymunedau Cynaliadwy 2007 yn cydnabod mai pobl leol sy’n gwybod orau beth y mae angen ei wneud i hybu cynaliadwyedd eu hardal, ond mae’r Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi gwrthod gweithredu hyn yng Nghymru. Pan arweiniais ddadl yr wrthblaid yn y Cynulliad fis Tachwedd diwethaf yn galw ar i bobl anabl gael byw eu bywyd eu hunain yn ôl eu dewis eu hunain, trechwyd ein cynnig gan y Blaid Lafur a Phlaid Cymru. Yr wythnos diwethaf yr oeddwn yn falch siarad yng nghynhadledd Anabledd Cymru, a lansiodd ymgyrch Byw’n Annibynnol yn Awr ar gyfer Cymru. Mae cefnogaeth sy’n canolbwyntio ar y dinesydd yn golygu trawsnewid a newid diwylliannol. Mae’n golygu pŵer, dewis, rheolaeth a chynhwysiant. Rhaid inni wneud iddo weithio yng Nghymru.

Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael ag amddifadedd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgelu diffyg cynllunio sylfaenol o safbwynt adnoddau ariannol ac adnoddau dynol, ac wedi datgelu bod Llywodraeth Cymru wedi anwybyddu rhybuddion mor bell yn ôl â 2003. Yn awr, £0.25 biliwn yn ddiweddarach, Cymru yw rhan dlotaf y DU, gyda’r cyfraddau uchaf o dlodi plant, tlodi pensïynwyr a diweithdra, un o bob tri o bobl oed gweithio heb fod mewn gwaith, y lefelau uchaf erioed o anweithgarwch economaidd a diweithdra ymhlith pobl ifanc, diffyg mudoedd cymdeithasol, a’r bwlch mwyaf rhwng y bobl gyfoethocaf a’r bobl dlotaf mewn cymdeithas ers yr ail ryfel byd.

Erbyn hyn, mae ysgolion Cymru yn cael £527 yn llai ar gyfer pob disgybl nag a gaiff ysgolion yn Lloegr, ac fel y clywsom mae cyrhaeddiad ar lefel TGAU yn is. Gostyngodd nifer y myfyrwyr yng ngholegau addysg bellach Cymru 10 y cant yn y tair blynedd hyd at 2009, ac mae Llywodraeth Cymru yn cyfrif ddwywaith yn awr i guddio toriadau pellach eleni. Pan gyfarfûm â staff prifysgol yn ddiweddar, yr oeddent yn cwyno

for research stopping the theoretical advancement that generates great innovation. We also have a housing crisis because of Welsh Government cuts over a decade.

Beecham recommended development of the capacity of the voluntary sector and capitalising on the skills and expertises of the private sector, yet the Wales Council for Voluntary Action warns of job cuts and service reductions and the North Wales Federation of Small Businesses tells me that many members face business-killing rate rises of over 100 per cent. At the last north Wales economic forum in March, its former chair, who was also Welsh Development Agency deputy chair, said that Wales led the UK out of the last recession with jobs, investment and training, but that this is not the case now and that it is going to get worse. This is where we are today, with a Government based on fear, not fairness, and Government debt rising by £4,500 every second. It is time for change. We face tough times together, but we must have hope and optimism for the future, trusting people and building real mutual service delivery based, at last, on strategic co-operation between public agencies, the voluntary and private sectors.

Brian Gibbons: When I saw the title of this debate in the name of the Welsh Conservatives, it had about as much credibility as a burglar complaining about where the police are when breaking into someone's house. Beecham is about promoting a clear public service model for public service delivery, based on collaboration and partnership and on an objectively and independently regulated and democratically accountable public service. Despite the nice words from Mr Nice Guy, David Melding, what the Conservatives are offering is something completely different. If you look at the Welsh Conservative or UK Conservative manifesto, what they are proposing is fragmentation instead of collaboration and partnership; fragmentation

am y bwlch ariannu rhwng Cymru a Lloegr, a bod targedau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil yn rhwystro'r cynnydd damcaniaethol sy'n esgor ar arloesi mawr. Mae gennym argyfwng tai hefyd oherwydd toriadau Llywodraeth Cymru dros ddegawd.

Argymhellodd Beecham y dylid datblygu gallu'r sector gwirfoddol a gwneud yn fawr o sgiliau ac arbenigedd y sector preifat, ond mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn rhybuddio am dorri swyddi a chwtogi gwasanaethau, a dywed Ffederasiwn Busnesau Bach Gogledd Cymru wrthyf fod nifer o aelodau'n wynebu cynnydd o fwy na 100 y cant yn eu hardrethi, a fydd yn lladd busnesau. Yn y fforwm economaidd diwethaf yn y gogledd ym mis Mawrth, dywedodd y cyn-gadeirydd, a oedd hefyd yn ddirprwy gadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru, fod Cymru wedi arwain y DU allan o'r dirwasgiad diwethaf gyda swyddi, buddsoddi a hyfforddiant, ond nad felly y mae hi'n awr ac y bydd hynny'n gwaethygu. Dyna lle'r ydym heddiw, gyda Llywodraeth wedi'i seilio ar ofn, nid tegwch, a dyled y Llywodraeth yn codi £4,500 bob eiliad. Mae'n bryd cael newid. Yr ydym yn wynebu cyfnod anodd gyda'n gilydd, ond rhaid inni fod yn obeithiol ac yn hyderus am y dyfodol, gan ymddiried mewn pobl ac adeiladu ffyrdd go iawn i gyd-ddarparu gwasanaethau'n seiliedig, o'r diwedd, ar gydweithredu strategol rhwng asiantaethau cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat.

Brian Gibbons: Pan welais deitl y ddadl hon yn enw Ceidwadwyr Cymru, nid oedd iddi ddim mwy o hygredd na phe bai lleidr yn cwyno ble mae'r heddlu wrth iddo dorri i mewn i dŷ rhywun. Mae a wnelo adolygiad Beecham â hybu model gwasanaethau cyhoeddus clir ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn seiliedig ar gydweithio a phartneriaeth ac ar wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoleiddio mewn modd gwrthrychol ac annibynnol ac yn atebol yn ddemocrataidd. Er gwaetha'r geiriau hyfryd gan Mr Clên, David Melding, mae'r hyn y mae'r Ceidwadwyr yn ei gynnig yn rhywbeth cwbl wahanol. Os edrychwch ar fanifesto Ceidwadwyr Cymru neu Geidwadwyr y DU, yr hyn y maent yn ei gynnig yn lle cydweithio a phartneriaeth yw

of public services into a wide range of different providers at the very time that Beecham tells us that we need to be working much more effectively. Of course, with this fragmentation, duplication is inevitable.

3.20 p.m.

One of the most interesting things in the Conservative manifesto is the complete lack of reference to local democratic accountability. It is an amazing document in terms of public services; there is a lack of local accountability commitment. In their proposals to scale back inspection and regulation, they will leave quality assurance completely stripped of that democratic accountability and leave it very much at the mercy of what they are calling 'professional empowerment'. Front-line workers want to deliver front-line services, but what they are not good at, and what they are not well trained in, is managing and integrating overall services. The Conservative commitment to marketisation, commercialisation and fragmentation is completely contrary to the core messages of the Beecham review in terms of the best possible ways of delivering public services in Wales in line with public service values.

David Melding: If I recall correctly, you were the Minister responsible for the implementation of Beecham for a while. I never heard from you a rejection of one of Beecham's central recommendations, which was to promote a mixed economy of provision. 'Mixed economy' are the words that he used.

Brian Gibbons: Yes, there is clearly a role for third sector organisations in delivering services. As you say, when I was Minister, I took many opportunities to promote that. However, that is qualitatively different from what is being proposed in the 'big society' proposals. The 'big society' says, 'Government is too big; we've got to downsize it; we've got to disempower it. We have to fragment public service provision through commercialisation.' That is completely against the spirit and the direction of Beecham. The other thing that has

darnio; darnio gwasanaethau cyhoeddus yn ystod eang o wahanol ddarparwyr ar yr union adeg y mae Beecham yn dweud wrthym bod angen inni fod yn gweithio'n fwy effeithiol o lawer. Wrth gwrs, mae dyblygu'n anochel gyda'r darnio hwn.

Un o'r pethau mwyaf diddorol ym maniffesto'r Ceidwadwyr yw'r ffaith nad yw'n cyfeirio o gwbl at atebolrwydd democrataidd lleol. Mae'n ddogfen ryfeddol o ran gwasanaethau cyhoeddus; mae diffyg ymrwymiad i atebolrwydd lleol. Yn eu cynigion i leihau arolygu a rheoleiddio, byddant yn amddifadu prosesau sicrhau ansawdd o'r atebolrwydd democrataidd hwnnw ac yn eu gadael ar drugaredd yr hyn y maent yn ei alw'n 'rymuso proffesiynol'. Mae gweithwyr rheng flaen am ddarparu gwasanaethau rheng flaen, ond yr hyn nad ydynt yn dda am ei wneud, a'r hyn nad ydynt wedi cael eu hyfforddi'n dda i'w wneud, yw rheoli ac integreiddio gwasanaethau cyffredinol. Mae ymrwymiad y Ceidwadwyr i farchnadeiddio, masnacheiddio a darnio gwasanaethau yn gwbl groes i negeseuon craidd adolygiad Beecham o ran y ffyrdd gorau posibl i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn unol â gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus.

David Melding: Os cofiaf yn iawn, chi oedd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am weithredu adolygiad Beecham am gyfnod. Ni'ch clywais erioed yn gwrthod un o argymhellion canolog Beecham, sef hybu darpariaeth economi gymysg. 'Economi gymysg' yw'r geiriau a ddefnyddiodd.

Brian Gibbons: Oes, yn amlwg mae rôl i sefydliadau'r trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau. Fel y dywedwch, pan oeddwn yn Weinidog manteisiais ar lawer cyfle i hybu hynny. Fodd bynnag, mae hynny'n wahanol o ran ei ansawdd i'r hyn a gynigir yng nghynigion y 'gymdeithas fawr'. Mae'r 'gymdeithas fawr' yn dweud 'mae'r Llywodraeth yn rhy fawr; rhaid inni ei lleihau; rhaid inni dynnu pwerau oddi arni. Rhaid inni rannu darparu gwasanaethau cyhoeddus drwy fasnacheiddio.' Mae hynny'n gwbl groes i ysbryd a chyfeiriad

surprised me over recent weeks has been the clarity of the choice that people have to make with regard to the way in which they want our public services to move forward. The choice is between the Beecham route and the route of commercialisation, fragmentation and lack of public accountability.

In that context, one thing that has surprised me is the difficulty that Plaid Cymru has had in trying to make a choice on this matter. We hear a great deal of pro-public-service and anti-Tory rhetoric from Plaid Cymru in this regard, but the Conservative view of the future for our public services is so at variance with the Beecham review conclusions that one would have thought that the choice to be made was fairly simple and self-evident. However, Plaid Cymru would like us to believe that, somehow, by sitting on the fence and being agnostic with regard to what the Conservatives are proposing for our public services, they can create a pain-free alternative. I have been out on the campaign trail, and nobody thinks that there will not be a period of pain. However, the choices are with regard to the speed of the implementation of that change, the scope of that change and, more particularly, the priorities of that change. So, there is a clear choice here and, even on this last day before those choices have to be made, perhaps we could see Plaid Cymru going on record to say that there is no way that it will support a right-of-centre Government as part of our future in Wales.

William Graham: The publication of 'Beyond Boundaries' and the enthusiastic response from the Assembly Government at the time offered the promise of real improvement and reform in public services in Wales. The objective of developing a citizen-centred system of governance that encouraged collaboration and maximised the use of limited financial resources could not fail to find universal approval. However, six years on and with the need for reform made urgent by tightened public finances, nearly all of the structures for delivering the devolved agenda that Sir Jeremy Beecham described as 'highly complicated' remain in place. The

Beecham. Y peth arall sydd wedi fy synnu yn ystod yr wythnosau diwethaf yw mor amlwg yw'r dewis y mae'n rhaid i bobl ei wneud o ran y ffordd y maent am i'n gwasanaethau cyhoeddus symud ymlaen. Mae'r dewis rhwng llwybr Beecham a llwybr masnacheiddio, darnio gwasanaethau a diffyg atebolrwydd cyhoeddus.

Yn y cyd-destun hwnnw, un peth sydd wedi fy synnu yw'r anhawster y mae Plaid Cymru wedi'i gael wrth geisio gwneud dewis yn y mater hwn. Clywn lawer iawn o rethreg o blaid gwasanaethau cyhoeddus ac yn erbyn y Toriaid gan Plaid Cymru yn hyn o beth, ond mae'r modd y mae'r Ceidwadwyr yn gweld dyfodol ein gwasanaethau cyhoeddus yn mynd yn groes i gasgliadau adolygiad Beecham i'r fath raddau fel y byddai rhywun wedi meddwl bod y dewis sydd i'w wneud yn eithaf syml ac amlwg. Fodd bynnag, hoffai Plaid Cymru inni gredu y gall greu dewis amgen di-boen, rhywsut, drwy beidio â datgan barn y naill ffordd neu'r llall a thrwy fod yn agnostig yn yr hyn y mae'r Ceidwadwyr yn ei gynnig ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus. Yr wyf wedi bod allan yn ymgyrchu, ac nid oes neb yn credu na fydd cyfnod o boen. Fodd bynnag, y dewisiadau yw cyflymder gweithredu'r newid hwnnw, hyd a lled y newid hwnnw, ac yn fwy penodol blaenoriaethau'r newid hwnnw. Felly, mae yma ddewis clir, a hyd yn oed ar y diwrnod olaf hwn cyn y bydd yn rhaid gwneud y dewisiadau hynny, efallai y gallem weld Plaid Cymru yn dweud yn gyhoeddus na fydd yn cefnogi Llywodraeth sydd i'r dde o'r canol fel rhan o'n dyfodol yng Nghymru.

William Graham: Yr oedd cyhoeddi 'Ar Draws Ffiniau' a'r ymateb brwdfrydig gan Lywodraeth y Cynulliad ar y pryd yn cynnig addewid y byddai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu gwella a'u diwygio'n wirioneddol. Ni allai'r amcan o ddatblygu system lywodraethu a fyddai'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn annog cydweithio ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ariannol prin fethu â chael cymeradwyaeth gyffredinol. Fodd bynnag, chwe blynedd yn ddiweddarach, a'r angen i ddiwygio yn un brys gan fod arian cyhoeddus yn brinnach, mae bron pob un o'r strwythurau ar gyfer cyflawni'r agenda

only meaningful reorganisation that has occurred has been to the health service, and that in itself raises considerable concerns. Despite the positive references made to organisations introducing greater shared service provision in 'Making the Connections' and 'Beyond Boundaries', there have been few successful large-scale collaborative efforts this year, with the collapse of the south-east Wales shared services project proving a major disappointment.

The Assembly Government's assurance at this year's public services summit that collaboration between councils in future will not be an option but a necessity is a belated step in the right direction. One cannot blame local authorities for their initial reticence towards collaboration when little Government advice existed to guide the process. In contrast, when the last Conservative Government introduced local authority reforms, it proposed that there should be a lead authority for each service. For example, in Gwent, this meant that Monmouthshire was given responsibility for highways, owing, in part, to it already having the largest transport budget and the greatest number of roads. The breakdown of the south-east Wales shared services project was understandable given that the savings that councils would receive was vastly reduced to £20.9 million over 10 years, where the necessary investment was taken into account. With this in mind, it is striking that 'Better Outcomes for Tougher Times', the next phase in public service improvement, does not go far enough in incentivising and supporting change. The work of the Wales social partnership and the project undertaken under save-to-invest programmes must be built upon and translated into real collaboration between local authorities in the near future. It should be noted that little serious progress has been made by the Assembly Government in tackling what Beecham described, in 2006, as a public sector ethos rather than a public service.

There remains reluctance to go beyond consolidating the voluntary and community

ddatganoledig y dywedodd Syr Jeremy Beecham ei bod yn hynod o gymhleth yn dal yn eu lle. Yn y gwasanaeth iechyd y gwelwyd yr unig achos ystyrion o ad-drefnu, ac mae hynny ynddo'i hun yn codi pryderon sylweddol. Er gwaetha'r cyfeiriadau cadarnhaol a fu at sefydliadau'n dechrau darparu mwy o wasanaethau ar y cyd yn 'Creu'r Cysylltiadau' ac 'Ar Draws Ffiniau', prin fu'r ymdrechion cydweithredol llwyddiannus ar raddfa fawr eleni, ac roedd methiant prosiect gwasanaethau ar y cyd yn y de-ddwyrain yn siom fawr.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, we will defer all voting on this item until voting time.

Y Llywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn yr holl bleidleisio ar yr eitem hwn tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Welsh Liberal Democrats Debate

Plant mewn Tlodi
Children in Poverty

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Alun Cairns. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliant 2 yn enw Alun Cairns. Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.

Eleanor Burnham: I move that

Eleanor Burnham: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales notes with concern that there are an estimated 192,000 children living in poverty in Wales. (NDM4467)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi â phryder bod oddeutu 192,000 o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru. (NDM4467)

The Welsh Liberal Democrats have brought this motion forward in the hope of getting the Government to act purposefully to reduce the shameful number of children living in poverty in Wales. The number of children living in poverty, below average income after housing costs, has increased by 4 per cent in the last two years, as 15 per cent of children in Wales live in severe poverty and 32 per cent in poverty. Severe poverty is classed as living on less than 50 per cent of the median UK income and missing basic possessions such as a winter coat. These are Save the Children's figures. The Government classes relatively low income poverty as less than 60 per cent of average household median income. A Save the Children report suggested that the recession has brought more children into the poverty bracket. I know that we have discussed this issue before, but I do not believe that we are making much headway, which is why we have brought it to the attention of the Assembly again today.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflwyno'r cynnig hwn yn y gobaith o gael y Llywodraeth i weithredu'n bwrpasol i leihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, sy'n gywilyddus. Mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi, lle mae incwm islaw'r cyfartaledd ar ôl costau tai, wedi cynyddu 4 y cant yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, oherwydd mae 15 y cant o blant Cymru'n byw mewn tlodi difrifol a 32 y cant yn byw mewn tlodi. Ystyrir bod rhywun yn byw mewn tlodi difrifol os yw'n byw ar lai na 50 y cant o incwm canolrifol y DU, ac os nad oes ganddo bethau sylfaenol megis cot gaeaf. Ffigurau Achub y Plant yw'r rhain. Mae'r Llywodraeth yn ystyried mai tlodi incwm cymharol isel yw incwm islaw 60 y cant o incwm canolrifol cartref cyffredin. Yr oedd adroddiad gan Achub y Plant yn awgrymu bod y dirwasgiad yn golygu bod hyd yn oed mwy o blant yn byw mewn tlodi. Gwn inni drafod y mater hwn o'r blaen, ond ni chredaf ein bod yn gwneud llawer o gynnydd, a dyna pam yr ydym wedi ei ddwyn i sylw'r Cynulliad heddiw eto.

Research by Children in Wales suggests that more children are living outside of areas that are specifically targeted for funding than are living inside them and that relying on geographical factors to allocate funding is unsustainable. There will be families and young people who fall outside these set areas, and we all know of them. Programmes such as Flying Start are doing a good job, but they

Mae ymchwil Plant yng Nghymru'n awgrymu bod mwy o blant yn byw y tu allan i'r ardaloedd a dargedir yn benodol o ran cyllid na'r tu mewn iddynt, ac nad yw'n gynaliadwy dibynnu ar ffactorau daearyddol i ddyrannu cyllid. Bydd rhai teuluoedd a phobl ifanc yn byw y tu allan i'r ardaloedd dynodedig hyn, a gwyddom gyd amdanynt. Mae rhaglenni megis Dechrau'n Deg yn

concentrate on the pre-school age group in specific geographical areas, yet there are groups of children that we all know of outside those particular areas that are not getting any help and feel just as desperate.

In Wales, data on the number of children without a child trust fund are not published. How do you therefore gauge its success or otherwise? Surely, it is better to invest in children's services as a whole than to set up the child trust fund. When the children's commissioner was asked three months ago what his priorities for children and young people were for the future, he still named child poverty. He also stated that he was looking for Government support for practical measures and that there should be no more reviewing of policies and strategies, redesigning or refreshing. He said that we should stop doing that and focus instead on particular practical things that can make a difference. Yet the Government expects us to welcome its action on child poverty. It wants us to welcome its strategies despite the fact that all the evidence points to their not working for the true benefit of many children in Wales. These children need practical help today, not after you have sat around and thought about it a bit more. Therefore, we will not support the Government's amendment 1. It is all very well placing statutory duties, but there must be robust policies and funding to ensure that we eradicate child poverty.

The report is in, and it says, 'Could do better. Must try harder. Real action is needed'. The latest 'In Figures: Child Poverty' paper produced by the Members' research service for the National Assembly shows that progress on child poverty is moving backwards. All these strategies and reports are not making any difference. With 96,000 children in Wales now living in severe poverty, without basic necessities on an everyday basis, and with 32 per cent living in some sort of poverty, I think it is an absolute disgrace. Deputy Minister, I believe you owe it to the children of Wales—because I know that you are sincere about these issues—to at least acknowledge these facts and difficulties.

gwneud gwaith da, ond maent yn canolbwyntio ar y grŵp oed cyn ysgol mewn ardaloedd daearyddol penodol, ac mae grwpiau o blant y gwyddo, i bgyd amdanynt sydd y tu allan i'r ardaloedd penodol hynny, nad ydynt yn cael cymorth ac sydd mewn sefyllfa lawn mor enbyd.

Yng Nghymru, ni chyhoeddir data ar nifer y plant sydd heb gronfa ymddiriedolaeth. Felly, sut gallwch fesur ei llwyddiant neu ei diffyg llwyddiant? Rhaid ei bod yn well buddsoddi mewn gwasanaethau plant yn gyffredinol na sefydlu'r gronfa ymddiriedolaeth plant. Pan ofynnwyd i'r comisiynydd plant dri mis yn ôl beth oedd ei flaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc am y dyfodol, enwodd dlodi plant o hyd. Dywedodd hefyd ei fod yn ceisio cefnogaeth y Llywodraeth ar gyfer mesurau ymarferol, ac y dylid rhoi'r gorau i adolygu polisïau a strategaethau, ac ailgynllunio neu adnewyddu. Dywedodd y dylem roi'r gorau i wneud hynny, a chanolbwyntio'n hytrach ar bethau ymarferol penodol a all wneud gwahaniaeth. Eto i gyd, mae'r Llywodraeth yn disgwyl inni groesawu ei chamau gweithredu ar dlodi plant. Mae am inni groesawu ei strategaethau er gwaetha'r ffaith fod yr holl dystiolaeth yn dangos nad ydynt yn gweithio er lles gwirioneddol llawer o blant yng Nghymru. Mae angen cymorth ymarferol ar y plant hyn heddiw, nid ar ôl ichi eistedd o gwmpas yn meddwl ychydig yn fwy am y mater. Felly, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1 gan y Llywodraeth. Mae'n ddigon hawdd gosod dyletswyddau statudol, ond rhaid cael polisïau cadarn a chyllid i sicrhau ein bod yn dileu tlodi plant.

Mae'r adroddiad wedi dod i law, ac meddai, 'Gallai wneud yn well. Rhaid gweithio'n galetach. Mae angen camau gweithredu go iawn'. Mae'r papur diweddaraf 'In Figures: Child Poverty' a gynhyrchwyd gan wasanaeth ymchwil yr Aelodau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn dangos bod cynnydd ar dlodi plant yn symud tuag yn ôl. Nid yw'r holl strategaethau a'r holl adroddiadau hyn yn gwneud dim gwahaniaeth. Gyda 96,000 o blant yng Nghymru yn byw erbyn hyn mewn tlodi difrifol, heb angenrheidiau sylfaenol o ddydd i ddydd, a 32 y cant yn byw mewn rhyw fath o dlodi, credaf fod y sefyllfa'n warthus. Ddirprwy Weinidog, credaf y dylech, er

The Government should be listening to the concerns of those who are trying to make their lives and futures better. After all, we are about to enter a very severe decline in funding; who knows how many billions we might lose from the Welsh coffers. Therefore, I believe that the responsibility to improve this dreadful situation lies firmly with the Government, and that we need to take some serious action and not keep talking about it. This is the challenge, Deputy Minister, and I am sure that you will rise to it.

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt. Delete all and replace with:

the National Assembly for Wales:

1. notes with concern that, according to figures produced by the Joseph Rowntree Foundation in 2009, there are an estimated 192,000 children living in poverty in Wales;

2. welcomes the action that is already being taken to reduce child poverty such as Flying Start, Genesis Cymru and child trust fund Cymru;

3. further welcomes the Welsh Assembly Government being the first to introduce new legislation, the Children and Families (Wales) Measure 2010, to provide a statutory basis for its new child poverty strategy, which will be published for consultation very shortly.

Mark Isherwood: I move amendment 2 in the name of Alun Cairns. Insert at the end of the motion:

and notes that 96,000 are living in severe poverty and that Wales has the highest level of child poverty among the UK nations.

The gap between rich and poor is now at its widest since world war two. Social mobility has stalled, and the percentage of children living in poverty or severe poverty is higher in Wales than in any other UK nation. As we have heard, one in three children in Wales, some 192,000, now lives in poverty, and

mwyn plant Cymru—oherwydd gwn eich bod yn ddidwyll ynghylch y materion hyn—o leiaf gydnabod y ffeithiau a'r anawsterau hyn. Dylai'r Llywodraeth fod yn gwrandao ar bryderon y sawl sy'n ceisio gwella'u bywydau a'u dyfodol. Wedi'r cyfan, yr ydym ar fin gweld lefelau cyllid yn gostwng yn ddifrifol iawn; pwy a wŷr sawl biliwn y gallem eu colli o goffrau Cymru. Felly, credaf mai'r Llywodraeth yn bendant sy'n gyfrifol am wella'r sefyllfa erchyll hon, ac mae angen inni weithredu o ddifrif a rhoi'r gorau i siarad amdani o hyd. Dyna'r her, Ddirprwy Weinidog, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymateb iddi.

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Cynigiad welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi â phryder bod rhyw 192,000 o blant, yn ôl y ffigurau a gynhyrchwyd gan y Joseph Rowntree Foundation yn 2009, yn byw mewn tlodi yng Nghymru;

2. yn croesawu'r camau sydd eisoes yn cael eu cymryd i leihau tlodi plant fel Dechrau'n Deg, Genesis Cymru a chronfa ymddiriedolaeth plant Cymru;

3. yn croesawu ymhellach y ffaith mai Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r cyntaf i gyflwyno deddfwriaeth newydd, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, i roi sail statudol ar gyfer ei strategaeth tlodi plant newydd, a gyhoeddir cyn hir at bwrpas ymgynghori.

Mark Isherwood: Cynigiad welliant 2 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu at ddiwedd y cynnig:

ac yn nodi bod 96,000 yn byw mewn tlodi difrifol a bod gan Gymru'r lefel uchaf o dlodi plant ymysg gwledydd y DU.

Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn fwy yn awr nag ers yr ail ryfel byd. Mae symudedd cymdeithasol wedi dod i ben, ac mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi neu dlodi difrifol yn uwch yng Nghymru nag yn yr un wlad arall yn y DU. Fel y clywsom, mae un plentyn o bob tri yng Nghymru, sef

96,000 live in severe poverty. So much for fairness; hence our amendment today.

Labour cannot simply blame the recession for this. Last June's Joseph Rowntree Foundation report, 'Monitoring poverty and social exclusion in Wales 2009', found that, even before the recession, half the previous improvement in child poverty had already been lost. An extra 260,000 children in the UK were pushed into severe poverty during the four years of economic boom before the recession hit in 2008, taking the total to 1.7 million. Child poverty in Wales fell to the UK average in 2004, but it has been rising annually since. Save the Children concluded that efforts to reduce child poverty had not only stalled, but had slid into reverse. Labour's pledge to halve child poverty in Wales by 2010 is now in tatters.

As we move from a decade of missed opportunity to a decade of austerity, we need action to tackle the underlying causes of child poverty. As the Joseph Rowntree Foundation found, around 60 percent of children in poverty live in a household where nobody works, adding that

'Despite the importance of employment to eradicating child poverty, welfare-to-work programmes have not been a prominent feature in the child poverty strategy in Wales'.

Also, as Donald Hirsch argues, improved routes into work is an area requiring a new drive if child poverty is to be eradicated by 2020. One in six children in the UK now lives in a workless household—the highest proportion in Europe. One in three working-age people in Wales is not in work. The tidal wave of worklessness is making it hard for many families to make ends meet. The Conservative's Get Britain Working programme offers a new integrated welfare-to-work initiative for all out-of-work benefit claimants, with support tailored to an individual's needs. Cymorth is the Welsh

tua 192,000, yn byw mewn tlodi erbyn hyn, a 96,000 yn byw mewn tlodi difrifol. Naw wfft i degwch; a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno ein gwelliant heddiw.

Ni all y Blaid Lafur feio'r dirwasgiad am hyn. Darganfu adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree, ym mis Mehefin y llynedd, ar fonitro tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru yn 2009 fod hanner y gwelliannau blaenorol ym maes tlodi plant wedi eisoes wedi mynd ar goll, hyd yn oed cyn y dirwasgiad. Cafodd 260,000 yn ychwanegol o blant yn y DU eu gwthio i dlodi difrifol yn ystod y pedair blynedd o ffyniant economaidd cyn i'r dirwasgiad daro yn 2008, gan godi'r cyfanswm i 1.7 miliwn. Gostyngodd tlodi plant yng Nghymru i gyfartaledd y DU yn 2004, ond mae wedi cynyddu bob blwyddyn ers hynny. Daeth Achub y Plant i'r casgliad fod ymdrechion i leihau tlodi plant nid yn unig wedi dod i ben, ond eu bod wedi dechrau mynd tuag yn ôl hefyd. Mae addewid y Blaid Lafur i haneru tlodi plant yng Nghymru erbyn 2010 yn deilchion bellach.

Wrth inni symud o ddegawd o golli cyfle i ddegawd o hirlwm, mae angen inni weithredu i fynd i'r afael ag achosion gwaelodol tlodi plant. Fel y darganfu Sefydliad Joseph Rowntree, mae oddeutu 60 y cant o blant sydd mewn tlodi yn byw mewn cartref lle nad oes neb yn gweithio, gan ychwanegu

Er mor bwysig yw cyflogaeth i ddileu tlodi plant, nid yw rhaglenni 'o fudd-dal i waith' wedi bod yn nodwedd amlwg yn y strategaeth tlodi plant yng Nghymru.

Yn ogystal, fel y dadleua Donald Hirsch, mae gwell llwybrau i waith yn faes lle mae angen ymgyrch newydd, os ydym am ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae un plentyn o bob chwech yn y DU bellach yn byw mewn cartref lle nad oes neb yn gweithio—y gyfran fwyaf yn Ewrop. Mae un person oed gweithio o bob tri yng Nghymru heb waith. Mae'r don anferthol o bobl heb waith yn ei gwneud yn anodd i nifer o deuluoedd gael dau benllinyng ynghyd. Mae'r rhaglen 'Get Britain Working' gan y Ceidwadwyr yn cynnig menter 'o fudd-dal i waith' integredig newydd i bawb sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra, gyda

Government's fund, targeting support for children and young people in disadvantaged families. The Joseph Rowntree Foundation identified real concerns about our ability to address child poverty if we rely on Cymorth and the Flying Start programme. It said that research suggested that there are more children in poverty living outside the areas designated as disadvantaged than inside them. In its evidence during the passage of the Children and Families (Wales) Measure 2010, Children in Wales said,

'Flying Start and Communities First have been in place for some years. It is time to move on and to be a bit more flexible, so that we move away from the system in which one family on one side of the street can access services, support and free childcare, but a family across the street that is in a worse financial situation cannot.'

The Children and Families (Wales) Measure makes statutory provision to take forward the Welsh Government's commitment in terms of child poverty. Regrettably, Labour and Plaid Cymru defeated our amendment to the proposed Measure to ensure that local government played an active role in tackling fuel poverty as part of its efforts to combat child poverty. They also defeated our amendment to secure the strategic input of the voluntary sector.

4.00 p.m.

Although the Barnardo's Flintshire Families Matter service was identified in the draft external evaluation report for the Welsh Government as the most effective pilot scheme for the integrated family support team model launched by the legislation, Barnardo's told me just three weeks ago, at a strengthening families programme event, that the local authorities pioneering this have still made no attempt to engage with Barnardo's.

In a written statement of 23 March, the

chymorth wedi'i deilwra i anghenion unigolyn. Cymorth yw cronfa Llywodraeth Cymru, sy'n targedu cymorth i blant a phobl ifanc mewn teuluoedd difreintiedig. Nododd Sefydliad Joseph Rowntree bryderon gwirioneddol am ein gallu i fynd i'r afael â thlodi plant, os dibynnwn ar gronfa Cymorth a'r rhaglen Dechrau'n Deg. Dywedodd fod ymchwil yn awgrymu bod mwy o blant sydd mewn tlodi yn byw y tu allan i'r ardaloedd a ddynodir yn rhai difreintiedig na'r tu mewn. Yn ei dystiolaeth yn ystod hynt Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, dywedodd Plant yng Nghymru,

Mae Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf wedi bod ar waith ers rhai blynyddoedd. Mae'n bryd symud ymlaen a bod ychydig yn fwy hyblyg, er mwyn inni symud oddi wrth y system lle mae teulu ar y naill ochr i'r stryd yn gallu cael gwasanaethau, cymorth a gofal plant am ddim, ond na all teulu yr ochr arall i'r stryd gael hynny, er ei fod mewn sefyllfa ariannol sy'n waeth.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn gwneud darpariaeth statudol i ddatblygu ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar dlodi plant. Yn anffodus, trechodd y Blaid Lafur a Phlaid Cymru ein gwelliant i'r Mesur arfaethedig i sicrhau bod gan lywodraeth leol rôl weithredol o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd, fel rhan o'i hymdrech i fynd i'r afael â thlodi plant. Yn ogystal, trechwyd ein gwelliant ganddynt i sicrhau mewnbyn strategol gan y sector gwirfoddol.

Er bod fersiwn ddrafft yr adroddiad gwerthuso allanol ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi nodi mai 'Mae Teuluoedd yn Bwysig', sef gwasanaeth Barnardo's yn Sir y Fflint, oedd y cynllun peilot mwyaf effeithiol ar gyfer model y tîm integredig cymorth i deuluoedd, a lanswyd gan y ddeddfwriaeth, dywedodd Barnardo's wrthyf prin dair wythnos yn ôl, mewn digwyddiad yn y rhaglen cryfhau teuluoedd, nad yw'r awdurdodau lleol sy'n ei dreialu wedi gwneud ymdrech o gwbl eto i ymgysylltu â Barnardo's.

Mewn datganiad ysgrifenedig ar 23 Mawrth,

Deputy Minister for Children said that he expects to,

‘consider a draft of a new child poverty strategy in the course of the next few weeks, which will be followed by a public consultation this spring’.

I therefore finish my contribution today by urging him to note recent concerns expressed to me by north Wales councils that they need the strategy and subsequent guidance as soon as possible, so that they can effectively plan and deliver. They say that the current period of uncertainty is putting a number of successful projects at risk.

Jenny Randerson: If you look at the statistics, they make worrying and salutary reading. We accept in Wales, and have for a long time, that child poverty levels are much too high. This issue has been at the forefront of our discussions in the Assembly over the years. If you look at the statistics, in 1997 a horrendous 37 per cent of children in Wales were living in poverty, which was 4 percentage points higher than the figure for the UK. From 1997 to 2005, some commendable progress was made in reducing that figure, and we even went below the average UK figure, briefly. However, from 2005, the Welsh figure started to rise again, and, by 2007, the Welsh figure had reached 32 per cent—2 percentage points higher than the UK average.

The Government has not ignored this: it has set milestones and targets. In 2005, the child poverty strategy set a milestone of 17 per cent by 2010. That would require a dramatic reduction of 15 percentage points for it to be achieved. In 2007, the Labour-Plaid Government set a milestone for 2010, by which time no more than 13.5 per cent of children should be living in workless households in poverty. If you look at the attention that has been paid to this issue, you will see that the strategies and milestones are all there. Indeed, we have even had a Measure devoted to eradicating child poverty, although ‘eradicate’ is not quite the right word as it was only intended to reduce it to a much lower level. Yet despite all that, it is estimated that, in the middle of last year, 19.8

dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Blant ei fod yn disgwyl,

‘ystyried drafft o strategaeth newydd ar dlodi plant yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, a dilynir honno gan ymgynghoriad cyhoeddus yn y gwanwyn’.

Felly, hoffwn orffen fy nghyfraniad heddiw drwy ei annog i nodi pryderon diweddar a fynegwyd wrthyf gan gynghorau'r gogledd, sef bod arnynt angen y strategaeth a'r canllawiau dilynol cyn gynted ag sy'n bosibl, fel y gallant gynllunio a gweithredu'n effeithiol. Dywedant fod y cyfnod presennol o ansicrwydd yn peryglu nifer o brosiectau llwyddiannus.

Jenny Randerson: Mae'r ystadegau, o edrych arnynt, yn peri pryder ac yn gwneud lles. Yr ydym yn derbyn yng Nghymru, a hynny ers tro byd, fod lefelau tlodi plant yn rhy uchel o lawer. Bu'r mater hwn ar flaen ein trafodaethau yn y Cynulliad dros y blynyddoedd. O edrych ar yr ystadegau, yr oedd 37 y cant o blant Cymru'n byw mewn tlodi yn 1997, a oedd 4 y cant yn uwch na'r ffigur ar gyfer y DU, sy'n arswydus. Rhwng 1997 a 2005 gwnaed rhywfaint o gynnydd canmoladwy i ostwng y ffigur hwnnw, ac aethom hyd yn oed islaw cyfartaledd y DU, am ychydig. Fodd bynnag, o 2005 ymlaen dechreuodd ffigur Cymru gynyddu eto, ac erbyn 2007 yr oedd wedi cyrraedd 32 y cant—2 y cant yn uwch na chyfartaledd y DU.

Nid yw'r Llywodraeth wedi anwybyddu hynny: mae wedi gosod cerrig milltir a thargedau. Yn 2005 gosododd y strategaeth ar dlodi plant garreg filltir o 17 y cant erbyn 2010. Er mwyn cyflawni hynny byddai angen sicrhau gostyngiad aruthrol o 15 y cant. Yn 2007 gosododd y Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru garreg filltir ar gyfer 2010, sef na ddylai dros 13.5 y cant o blant, erbyn hynny, fod yn byw mewn tlodi mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio. Os edrychwch ar y sylw a roddwyd i'r mater hwn, fe welwch fod yr holl strategaethau a'r holl gerrig milltir yno i gyd. Yn wir, yr ydym hyd yn oed wedi cael Mesur penodol ar gyfer dileu tlodi plant, er nad 'dileu' yw'r gair cywir mewn gwirionedd gan mai ei unig fwriad oedd gostwng tlodi plant i lefel is o lawer. Ond er gwaethaf

per cent of children in workless households were living in poverty. That is a rise of 2.3 per cent on the year before. I know that there was a recession, but it is an issue that we have to take seriously.

The problem comes from the way that this has been tackled. I do not for one minute take issue with the commitment of the Deputy Minister to deal with this issue. However, it seems to me that, over the years, we have been looking at the symptoms rather than the cause, and there are lots of things that you can do to alleviate the symptoms: you can have benefit take-up campaigns, but that begs the question of why people need benefits in the first place; you can offer support to carers, and we need to make that more generous and effective than it has been so far; and, you can have campaigns to help parents back to work and improve childcare provision, but you are not able to deal with the fundamental causes of poverty.

What Labour has missed in all of this is the way in which the help has been targeted, particularly at Communities First areas—Mark raised this point earlier. The Rowntree Foundation came to committee and said that the way in which the help is targeted at Communities First areas means that over half the children living in poverty are totally missed by the Government's measures. That is a great problem. Target if you want to, but you must ensure that there is something for the people who live outside those areas and you should not behave as if they do not exist.

I will finish by saying that the key problem—the cause rather than the symptom—is the fact that the Welsh economy is not competitive and we do not have a workforce that is as well educated and as highly skilled as the workforce in the rest of the UK. For that reason, it is difficult for us to attract new businesses and industries and to encourage people to set up new businesses. It means that the jobs people get are often badly paid. We are still a low-wage economy and no matter

hynny i gyd, amcangyfrifir bod 19.8 y cant o blant mewn cartrefi lle nad oedd neb yn gweithio, ganol y llynedd, yn byw mewn tlodi. Mae hynny'n gynnydd o 2.3 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Gwn inni gael dirwasgiad, ond mae'n fater y mae'n rhaid inni ei ystyried o ddifrif.

Daw'r broblem yn sgil y ffordd yr aethpwyd i'r afael â'r mater. Nid wyf yn amau am eiliad ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos dros y blynyddoedd inni edrych ar y symptomau yn hytrach nag ar achos y broblem. Mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud i liniaru'r symptomau: gallwch gael ymgyrchoedd ar hawlio budd-daliadau, ond rhaid gofyn wedyn pam mae ar bobl angen budd-daliadau yn y lle cyntaf; gallwch gynnig cymorth i ofalwyr, ac mae angen inni wneud hwnnw'n fwy hael ac yn fwy effeithiol nag a fu hyd yma; a gallwch gael ymgyrchoedd i helpu rhieni i ailddechrau gweithio, a gwella darpariaeth gofal plant. Ond ni allwch ymdrin ag achosion sylfaenol tlodi.

Yr hyn y mae'r Blaid Lafur wedi methu â'i ddeall ynghanol y cyfan i gyd yw'r modd y mae'r cymorth wedi'i dargedu, yn enwedig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf—cododd Mark y pwynt hwn yn gynharach. Daeth Sefydliad Rowntree i'r pwyllgor a dweud bod y modd y mae'r cymorth yn targedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn golygu bod dros hanner y plant sy'n byw mewn tlodi yn cael eu hanwybyddu'n llwyr gan fesurau'r Llywodraeth. Mae hynny'n broblem fawr. Gallwch dargedu os mynnwch, ond rhaid ichi sicrhau bod rhywbeth ar gael i'r bobl sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd hynny, ac ni ddylech ymddwyn fel pe na baent yn bodoli.

Hoffwn orffen drwy ddweud mai'r broblem allweddol—yr achos yn hytrach na'r symptom—yw'r ffaith nad yw economi Cymru'n gystadleuol ac nad oes gennym weithlu sydd mor hyddysg ac mor fedrus â'r gweithlu yng ngweddill y DU. Am y rheswm hwnnw mae'n anodd inni ddenu busnesau a diwydiannau newydd ac annog pobl i sefydlu busnesau newydd. Mae'n golygu bod y swyddi y bydd pobl yn eu cael yn aml yn talu cyflog isel. Yr ydym yn dal yn economi sydd

how many measures you put in place, you will not solve that problem until you solve the economic problems that we face in Wales of having a low-skilled, low-wage economy, with a level of unemployment that, I regret to say, has once again become very much worse than the UK average. Solve your economic problems and you will solve your poverty problems.

Brian Gibbons: When the Conservative Party came to power in 1979, the rate of child poverty that it inherited from the then Labour Government was 15 per cent. The rate of child poverty when the Conservatives left office in 1997 was 34 per cent—it had more than doubled. So much for the rhetoric that I heard last night on television, with David Cameron saying that the Conservatives will look after those who are poor and are suffering. The record shows something quite different and to the contrary.

Since 1997, the relentless increase in child poverty has stopped. However, as Jenny said, there has been a further stalling in the progress that has been made over the past few years. While that situation is something that I regret, it is equally not a return to that doubling of child poverty that took place under the Conservative Government. No matter who will be in charge over the next few years, I have no doubt that this will be a massive challenge.

The Assembly Government has responsibility for three strands that need to be addressed, and Jenny touched on some of them. As the Assembly Government, the areas where we have particular powers give us unique opportunities to improve the life chances of children: for example, investing in early years education, improving childcare provision, and tackling smoking and alcohol abuse in pregnancy and in early years are crucial. Jenny is right, that unless we improve the skills levels, we will be playing against the wind. Our commitment to the Welsh housing quality standard is also important, because we know that child poverty is concentrated in social and affordable housing. These are important things that we, as an Assembly Government, can do.

â chyflogau isel, ac ni waeth faint o fesurau a rowch ar waith, ni fydd modd ichi ddatrys y broblem honno nes ichi ddatrys y problemau economaidd sy'n ein hwynebu yng Nghymru, sef bod gennym economi â lefel isel o sgiliau, economi â chyflogau isel, a lefel diweithdra sydd, mae'n flin gennyf ddweud, wedi mynd yn waeth o lawer na chyfartaedd y DU unwaith eto. O ddatrys eich problemau economaidd bydd modd ichi ddatrys eich problemau tlodi.

Brian Gibbons: Pan ddaeth y Blaid Geidwadol i rym yn 1979, 15 y cant oedd cyfradd tlodi plant a etifeddodd gan y Llywodraeth Lafur ar y pryd. Yr oedd cyfradd tlodi plant pan adawodd y Ceidwadwyr y Llywodraeth yn 1997 yn 34 y cant—yr oedd wedi mwy na dyblu. Naw wfft i'r rhyngwlad a glywais ar y teledu neithiwr, a David Cameron yn dweud y bydd y Ceidwadwyr yn gofalu am bobl sy'n dlawd ac yn dioddef. Mae'r record yn dangos rhywbeth gwahanol iawn ac i'r gwrthwyneb.

Er 1997 mae'r cynnydd diddiwedd mewn tlodi plant wedi dod i ben. Fodd bynnag, fel y dywedodd Jenny, mae'r cynnydd a wnaed yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf hefyd wedi dod i ben. Er fy mod yn edifar am y sefyllfa honno, nid ydym wedi dychwelyd i'r sefyllfa lle gwelwyd tlodi plant yn dyblu dan y Llywodraeth Geidwadol. Ni waeth pwy fydd mewn grym yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, nid oes amheuaeth gennyf na fydd hon yn her enfawr.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb dros dri llinyn y mae angen mynd i'r afael â hwy, a soniodd Jenny am rai ohonynt. Fel Llywodraeth y Cynulliad, mae'r meysydd lle mae gennym bwerau penodol yn rhoi cyfleoedd unigryw inni wella cyfleoedd plant mewn bywyd: er enghraifft, mae buddsoddi mewn addysg blynyddoedd cynnar, gwella darpariaeth gofal plant a mynd i'r afael ag ysmegu a chamddefnyddio alcohol yn ystod beichiogrwydd ac yn ystod y blynyddoedd cynnar yn hanfodol. Mae Jenny yn gywir, oni fyddwn yn gwella lefelau sgiliau, byddwn yn hwylio yn erbyn y gwynt. Mae ein hymrwymiad i safon ansawdd tai Cymru hefyd yn bwysig, oherwydd gwyddom fod tlodi plant yn ddwysach mewn tai cymdeithasol a thai fforddiadwy. Mae'r rhain

However, we also need to realise that, as we move forward, we need to be doing more. I am sure that the Deputy Minister will outline what is planned as part of the statutory powers that we now have under the child poverty Measure.

There are two other substantial areas that are not devolved, but have a massive impact on child poverty, which are the wider macro-economic environment, which Jenny touched on, and the tax and benefit system. These are areas where we need a strong Government that is committed to being active to help people, rather than relying on a big society and a disempowered small Government. This is an area where we need strong Government action and clear vision, if we are going to tackle this unacceptable blight on our society.

4.10 p.m.

We have evidence that strong Government action does make a difference. We have seen the deepest recession in two generations—over two thirds of a century—in the last two years, and whereas unemployment was 11 and 12 per cent under the Government inaction of the 1980s and 1990s, here, despite the deepest recession, unemployment was 5.3 to 5.5 per cent. Active involvement, such as the ProAct scheme, has made a real difference. I know that, in previous debates, Jenny Randerson has said that ProAct is neither here nor there, but 9,000 people have benefited from ProAct. In my constituency and my local authority area, 1,300 people have benefited. ProAct has benefited more people than almost every other private sector employer in my constituency, other than Corus and Amazon. That makes a massive difference and if Jenny is to be consistent about the economy being the way out of poverty, surely she has to say that keeping these 9,000 people in work is a success story and a commitment to tackling child poverty.

yn bethau pwysig y gallwn ni, fel Llywodraeth y Cynulliad, eu gwneud. Fodd bynnag, mae angen hefyd inni sylweddoli, wrth inni symud ymlaen, fod angen inni wneud mwy. Yr wyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn amlinellu'r hyn sydd yn yr arfaeth, fel rhan o'r pwerau statudol sydd gennym erbyn hyn dan y Mesur tlodi plant.

Mae dau faes sylweddol arall nad ydynt wedi'u datganoli ond sy'n cael effaith enfawr ar dlodi plant, sef yr amgylchedd macro-economaidd ehangach y soniodd Jenny amdano, a'r system dreth a budd-daliadau. Mae'r rhain yn feysydd lle mae arnom angen Llywodraeth gref sydd wedi ymrwymo i fod yn weithgar i helpu pobl yn hytrach na dibynnu ar gymdeithas fawr a Llywodraeth fach sydd wedi'i dadrymuso. Mae hwn yn faes lle mae arnom angen gweledigaeth glir a champau gweithredu cadarn gan Lywodraeth, os ydym am fynd i'r afael â'r malltod annerbyniol hwn ar ein cymdeithas.

Mae gennym dystiolaeth fod camau gweithredu cadarn gan Lywodraeth yn gwneud gwahaniaeth. Yr ydym wedi gweld y dirwasgiad gwaethaf ers dwy genhedlaeth—dros ddwy ran o dair o ganrif—yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a thra oedd diweithdra yn 11 ac yn 12 y cant dan anweithgarwch y Llywodraeth yn yr 1980au a'r 1990au, yr oedd diweithdra yma yn 5.3 i 5.5 y cant, er gwaethaf y dirwasgiad gwaethaf. Mae cymryd camau gweithredol, megis cynllun ProAct, wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Gwn fod Jenny Randerson wedi dweud, mewn dadleuon blaenorol, nad yw ProAct nac yma nac acw. Ond mae 9,000 o bobl wedi elwa o ProAct. Yn fy etholaeth a'm hardal awdurdod lleol i, mae 1,300 o bobl wedi elwa. Mae ProAct wedi bod o fudd i fwy o bobl na'r un cyflogwr arall bron yn y sector preifat yn fy etholaeth, ar wahân i Corus ac Amazon. Mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr, ac os yw Jenny am fod yn gyson mai'r economi yw'r ffordd allan o dlodi, siawns nad oes yn rhaid iddi ddweud bod cadw'r 9,000 o bobl dan sylw mewn gwaith yn stori o lwyddiant ac yn ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant.

The other key areas are tax and benefits. Comments have been made that, over recent years, there has been a stalling in child poverty. The reason for that has been the stalling in the increasing level of payments under working tax credits. That has been one of the significant reasons why we have not made further progress. In this coming election, the Labour Party is the only party that is not only committed unconditionally to working tax credits, but is also committed to increasing tax credits, particularly for those with children who are one and two years of age. The other parties contesting this election have lined up tax credits for the bullet. The Institute for Fiscal Studies has said that the Liberal Democrats are trying to out-Tory the Tories in this particular regard.

Mohammad Asghar: We face a number of serious challenges in Wales, and one of the starkest challenges is the level of child poverty that currently besets us. In Wales, 192,000 children are currently living in poverty and some 96,000 children are struck by severe poverty, meaning that they live without basic necessities. This is a worrying state of affairs in this part of the world. I do not think that anyone in this Chamber would disagree that these figures are hugely troubling.

Earlier this year, Save the Children described the child poverty levels in Wales as staggering and has urged a radical rethink of the way in which we deal with child poverty. The Bevan Foundation has described the figures as a national disgrace. The problem that we face in Wales is particularly worrying when you look at the child poverty levels in the three other UK nations: there are fewer children living in severe poverty in Scotland, for example, despite the fact that its population is some 2 million higher than the population of Wales. We also have a higher percentage of children in severe poverty than both England and Northern Ireland, which means that Wales finds itself bottom of the league tables for the UK nations once again.

Lorraine Barrett: Thank you for taking an intervention. Do you agree with your party's commitment to start withdrawing the family

Y meysydd allweddol eraill yw trethu a budd-daliadau. Gwnaed sylwadau bod cynnydd mewn tlodi plant wedi dod i ben yn y blynyddoedd diwethaf. Digwyddodd hynny oherwydd bod y broses o gynyddu lefel taliadau dan greddyau treth gwaith wedi dod i ben. Dyna un o'r prif resymau pam nad ydym wedi gwneud cynnydd pellach. Yn yr etholiad sydd ar ddod, y Blaid Lafur yw'r unig blaid sydd nid yn unig wedi ymrwymo'n ddiamod i greddyau treth gwaith, ond sydd hefyd wedi ymrwymo i gynyddu credydu treth, yn enwedig i bobl sydd â phlant blwydd neu ddwyflwydd oed. Mae'r pleidiau eraill sy'n ymladd yr etholiad hwn am dorri credydu treth. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio rhagori ar y Toriaid yn hyn o beth.

Mohammad Asghar: Yr ydym llawer her ddifrifol yng Nghymru, ac un o'r rhai llymaf yw lefel y tlodi plant sy'n ein llethu ar hyn o bryd. Yng Nghymru mae 192,000 o blant yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd, ac mae oddeutu 96,000 o blant mewn tlodi difrifol, sy'n golygu eu bod yn byw heb angenrheidiau sylfaenol. Mae hon yn sefyllfa sy'n peri gofid yn y rhan hon o'r byd. Ni chredaf y byddai neb yn y Siambr yn anghytuno bod y ffigurau hyn yn peri gofid mawr.

Yn gynharach eleni dywedodd Achub y Plant fod lefelau tlodi plant yng Nghymru yn syfrdanol, ac mae wedi ein hannog i ailystyried yn sylfaenol y modd yr ydym yn mynd i'r afael â thlodi plant. Dywedodd Sefydliad Bevan fod y ffigurau'n warth cenedlaethol. Mae'r broblem a wynebwn yng Nghymru yn peri pryder neilltuol o edrych ar lefelau tlodi plant yn nhair gwlad arall y DU: mae llai o blant yn byw mewn tlodi difrifol yn yr Alban, er enghraifft, er bod ei phoblogaeth oddeutu 2 filiwn yn uwch na phoblogaeth Cymru. Yn ogystal, mae gennym ganran uwch o blant mewn tlodi difrifol na Lloegr a Gogledd Iwerddon, sy'n golygu bod Cymru ar waelod y tablau cynghrair ar gyfer gwledydd y DU unwaith eto.

Lorraine Barrett: Diolch am dderbyn ymyriad. A ydych yn cytuno ag ymrwymiad eich plaid i ddechrau tynnu'r elfen deuluol

element from the family tax credit?

Mohammad Asghar: Do not pre-empt things or presume things. We will look after families better than Labour and better than Labour ever did. I can assure you that David Cameron will bring prosperity to this nation, as he has already pledged, unlike your party. The debt that we are in is unprecedented in the history of this country: your party is the producer of poverty, not ours.

I do not think that anybody on the opposition benches—all of you—is claiming that—*[Interruption.]* Wait a minute. *[Interruption.]* We do not think that anybody on the opposition benches is claiming that the One Wales Government has not paid adequate attention to this issue. However, although the Government will often enthusiastically discuss the issue of child poverty in the Chamber, the grim figures speak for themselves. In 2005, the child strategy—

Mark Isherwood: Will you join me in welcoming the fact that our policy on child tax credits would mean that no family on an income of less than £50,000 would be affected in any way?

Mohammad Asghar: Yes, I agree with you 100 per cent. In 2005, the child strategy, ‘A Fair Future for Our Children’ was published. The next year, the child poverty policy implementation plan was launched, and two years later there was an inquiry into the plan’s effectiveness. Now, in 2010, we are awaiting the publication of a draft of a new strategy to deal with child poverty. Despite all these strategies and inquiries, Wales is suffering disproportionately from child poverty. Although I have welcomed the Government’s readiness to deal with the issue, it is clear that the strategies in place to deal with the problems are not doing enough. I am confident that the Conservatives’ work programme does just that, giving people the support and encouragement they need to find flexible working arrangements. It is crucial that we get the economy working to get people back to work, and I am confident that the Welsh Conservatives’ plan for business

allan o’r credyd treth teulu?

Mohammad Asghar: Peidiwch â rhagdybio pethau neu geisio achub y blaen ar bethau. Byddwn yn gofalu am deuluoedd yn well na’r Blaid Lafur, ac yn well nag a wnaeth y Blaid Lafur erioed. Gallaf eich sicrhau y bydd David Cameron yn dod â ffyniant i’r wlad hon, fel y mae wedi addo eisoes, yn wahanol i’ch plaid chi. Mae ein dyled yn ddyled na welwyd ei thebyg yn hanes y wlad hon: eich plaid chi sy’n creu tlodi, nid ein plaid ni.

Ni chredaf fod neb ar feinciau’r gwrthbleidiau—dim un ohonoch—yn honni—*[Torri ar draws.]* Arhoswch funud. *[Torri ar draws.]* Ni chredwn fod neb ar feinciau’r gwrthbleidiau’n honni nad yw Llywodraeth Cymru’n Un wedi rhoi sylw digonol i’r mater hwn. Fodd bynnag, er y bydd y Llywodraeth yn aml yn trafod tlodi plant yn frwdfrydig yn y Siambr, mae’r ffigurau arswydus yn siarad drostynt eu hunain. Yn 2005, cyhoeddwyd y strategaeth plant—

Mark Isherwood: A wnewch chi ymuno â mi i groesawu’r ffaith y byddai ein polisi ar gredydau treth plant yn golygu na fyddai’r newidiadau’n effeithio o gwbl ar deuluoedd ag incwm sy’n llai na £50,000?

Mohammad Asghar: Gwnaf, cytunaf yn llwyr â chi. Yn 2005, cyhoeddwyd y strategaeth plant ‘Dyfodol Teg i’n Plant’. Y flwyddyn ganlynol, lansiwyd cynllun gweithredu’r polisi ar dlodi plant, a ddwy flynedd yn ddiweddarach cynhaliwyd ymchwiliad i effeithiolrwydd y cynllun. Yn awr, yn 2010, yr ydym yn aros i strategaeth ddrafft newydd gael ei chyhoeddi i ymdrin â thlodi plant. Er gwaetha’r holl strategaethau a’r holl ymchwiliadau hyn, mae Cymru’n dioddef yn anghymesur oherwydd tlodi plant. Er imi groesawu parodrwydd y Llywodraeth i ymdrin â’r mater, mae’n amlwg nad yw’r strategaethau sydd ar waith i fynd i’r afael â’r problemau yn gwneud digon. Yr wyf yn hyderus fod rhaglen waith y Ceidwadwyr yn gwneud hynny, gan roi’r cymorth a’r anogaeth y mae ar bobl eu hangen i gael trefniadau gweithio hyblyg. Mae’n hollbwysig inni gael yr economi i weithio er mwyn cael pobl i aildechrau gweithio, ac yr

rate relief would reduce the burden on many small and medium-sized enterprises and help to slash unemployment in Wales. We need to do all we can to reduce the disengagement of teenagers from school and give them the best possible chance of realising their full potential in life. That is where the Labour Government has already failed.

I also hope that future strategies will give a strong focus to the role that the voluntary sector can play in helping to reduce child poverty. We must appreciate the role it could play in achieving that in Wales.

The Deputy Presiding Officer: Thank you.

Mohammad Asghar: I think—

The Deputy Presiding Officer: Order. I am sorry, but your time is up.

Christine Chapman: As a recent member of the Children and Young People Committee, I welcome the fact that the matter of child poverty is once more being debated in the Assembly. It is one of the biggest challenges and priorities in Wales. We know that, with 192,000 children affected, we certainly cannot rest on our laurels. In this respect, the recession has had a double impact. There is the loss of jobs, but it has also had an impact on child poverty statistics, which is regrettable. I agree with Jenny that it is about addressing the causes and not just the symptoms of child poverty. I agree with Dr Brian Gibbons that the policies that we have implemented in the Assembly are set in that context of tackling the causes. That said, a great deal of progress has been made by Labour here at the Assembly and at Westminster. My party is one that holds dear the principle that every child, whatever their background, deserves the best chances in life. That is why I applaud what Labour has done. To give a few examples, Labour has provided extra support for the poorest families in the form of benefits and tax credits and the national minimum wage, which was not supported by the Conservatives.

wyf yn hyderus y byddai cynllun Ceidwadwyr Cymru ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes yn lleihau'r baich ar nifer o fentrau bach a chanolig eu maint, ac yn helpu lleihau diweithdra'n sylweddol yng Nghymru. Mae angen inni wneud popeth posibl i leihau ymddieithrio ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau o'r ysgol, a rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt wireddu eu potensial llawn mewn bywyd. Dyna lle mae'r Llywodraeth Lafur eisoes wedi methu.

Gobeithio hefyd y bydd strategaethau yn y dyfodol yn rhoi ffocws cryf i'r rôl y gall y sector gwirfoddol ei chwarae wrth helpu lleihau tlodi plant. Rhaid inni werthfawrogi'r rôl y gallai ei chwarae wrth gyflawni hynny yng Nghymru.

Y Dirprwy Lywydd: Diolch.

Mohammad Asghar: Credaf—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'n flin gennyf, ond mae eich amser ar ben.

Christine Chapman: Fel aelod diweddar o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, croesawaf y ffaith fod tlodi plant yn destun dadl unwaith eto yn y Cynulliad. Mae'n un o'r heriau a'r blaenoriaethau mwyaf yng Nghymru. Gan fod tlodi plant yn effeithio ar 192,000 o blant, gwyddom yn bendant na allwn orffwys ar ein rhwyfau. Yn yr ystyr hwnnw mae'r dirwasgiad wedi cael effaith ddwbl. Collwyd swyddi, ond mae hefyd wedi cael effaith ar ystadegau ar dlodi plant, sy'n destun gofid. Cytunaf â Jenny, sef bod hyn yn golygu mynd i'r afael ag achosion tlodi plant, nid â'r symptomau'n unig. Cytunaf â Dr Brian Gibbons fod y polisiau yr ydym wedi'u gweithredu yn y Cynulliad wedi'u gosod yn y cyd-destun hwnnw o fynd i'r afael â'r achosion. Wedi dweud hynny, gwnaed llawer iawn o gynnydd gan y Blaid Lafur, yma yn y Cynulliad ac yn San Steffan. Mae'r egwyddor fod pob plentyn, waeth beth fo'i gefndir, yn haeddu'r cyfleoedd gorau mewn bywyd yn agos iawn at galon fy mhlaidd. Dyna pam yr wyf yn cymeradwyo'r hyn y mae'r Blaid Lafur wedi'i wneud. Er enghraifft, mae'r Blaid Lafur wedi rhoi cymorth ychwanegol i'r teuluoedd tlotaf, ar ffurf budd-daliadau a chredydau treth a'r isafswm cyflog cenedlaethol, na chawsant eu

cefnogi gan y Ceidwadwyr.

I agree with the children's commissioner, who said recently that we have some very good strategies here in the Assembly but that we must concentrate on delivery. However, things are happening now to address child poverty. There is a great deal more to be done, but things are happening now. Targeted and universal approaches have started to get to the heart of the problem. Flying Start, Cymorth and free school breakfasts are benefiting the most disadvantaged children in particular. Children who do not eat well and who live in cramped, damp and poorly heated homes are more likely to be unwell and to have fewer chances to thrive. So, these practical initiatives are starting to make a difference now.

Yr wyf yn cytuno â'r comisiynydd plant, a ddywedodd yn ddiweddar fod gennym rai strategaethau da iawn yma yn y Cynulliad, ond ei bod yn rhaid inni ganolbwyntio ar gyflawni. Fodd bynnag, mae pethau'n digwydd yn awr i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae llawer iawn i'w wneud o hyd, ond mae pethau'n digwydd yn awr. Mae dulliau gweithredu hollgynhwysol wedi eu targedu wedi dechrau mynd at wraidd y broblem. Mae Dechrau'n Deg, Cymorth a'r fenter brechwast am ddim mewn ysgolion o fudd i'r plant mwyaf difreintiedig yn benodol. Mae plant nad ydynt yn bwyta'n dda ac sy'n byw mewn cartrefi cyfyng, llaith sydd heb eu gwresogi'n dda yn fwy tebygol o fod yn sâl a chael llai o gyfleoedd i ffynnu. Felly, mae'r mentrau ymarferol hyn yn dechrau gwneud gwahaniaeth yn awr.

4.20 p.m.

Wales is the only country in the United Kingdom that has initiated work on children's budgeting, making decisions more visible and transparent. I am pleased that we now have the Children and Families (Wales) Measure 2010, which places a duty on specific public bodies, as well as the Welsh Assembly Government, to identify and take action to assist in the goal of eradicating child poverty by 2020. We also have the child trust funds with Child Trust Fund Cymru providing a top-up of £50 to all children, with a payment of £100 to those living in low-income households. In my consistency, that means that 4,270 vouchers have already been issued to families. These things are happening now. If we are to continue the fight against child poverty, we must sustain these things.

Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig sydd wedi dechrau gwaith ar gyllidebu ar gyfer plant, gan sicrhau bod penderfyniadau'n fwy amlwg a thryloyw. Yr wyf yn falch fod Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 gennym bellach, sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol, yn ogystal â Llywodraeth y Cynulliad, i nodi tlodi plant a gweithredu i helpu cyflawni'r nod o'i ddileu erbyn 2020. Mae gennym gronfeydd ymddiriedolaeth plant hefyd, gyda Chronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru yn rhoi swm atodol o £50 i bob plentyn, a thaliad o £100 i'r rheini sy'n byw mewn cartrefi ag incwm isel. Yn fy etholaeth i, golyga hynny fod 4,270 o dalebau eisoes wedi'u dosbarthu i deuluoedd. Mae'r pethau hyn yn digwydd yn awr. Os ydym am barhau'r frwydr yn erbyn tlodi plant, rhaid inni gynnal y pethau hyn.

I remember that one of the most corrosive legacies of the Conservatives in Wales was the high level of child poverty. As Dr Brian Gibbons mentioned, it doubled during their 18 years in office, and, by 1997, one in three children were living in poverty. Therefore, it is a case of looking back, and we have to be realistic about what happened. We know that the Conservatives would scrap the child tax credits and restrict child trust funds to

Cofiaf mai un o agweddau mwyaf niweidiol gwaddol y Ceidwadwyr yng Nghymru oedd y lefel uchel o dlodi plant. Fel y soniodd Dr Brian Gibbons, dyblodd tlodi plant yn ystod y 18 mlynedd pan oeddent mewn grym, ac erbyn 1997 yr oedd un plentyn o bob tri yn byw mewn tlodi. Mae'n fater o edrych yn ôl, felly, a rhaid inni fod yn realistig ynghylch yr hyn a ddigwyddodd. Gwyddom y byddai'r Ceidwadwyr yn dileu'r credydau treth plant

families earning just £16,000 a year, on the basis that they are already rich enough. As for the Liberal Democrats, we know that they would cut child tax credits and abolish the child trust funds altogether on the basis that it is not affordable. Therefore, this is a plea that the direction of travel must not change. The statistic of 192,000 children in poverty is far too high and we must not abandon them.

Jenny Randerson: You know very well—as I am sure that you took as much interest in the issue as I did—that the child tax credits would not be cut; they would be changed. The change is to ensure that the money does not go to very rich parents. Why should a parent earning as much as you and I do be receiving child tax credits when the money is desperately needed by those at the bottom of the income stream?

Christine Chapman: Obviously, that is one for your manifesto. At least my party is targeting the least well-off, but we also make sure that there is a universal approach. I think that our priorities are in the right place.

Angela Burns: I am delighted to speak in this debate, and I am grateful to the Liberal Democrats for raising the issue. The Welsh Conservatives raised the issue of child poverty in a debate in the Chamber three months ago, on 3 February, and I am disappointed that the Government has still failed to step up and bring forward a positive agenda of action to meet the Welsh and UK targets for eradicating child poverty once and for all. The Deputy Minister promised the Government's first statutory child poverty strategy this spring, but it has yet to materialise. I raise yet again the 96,000 children who are in severe poverty. For these children, every day is an uphill struggle. Many do not have a coat for the winter; many live in fuel poverty; most are unhappy with the situation that they are forced into; and all are being let down by politicians in the Government here in Wales and in London. They have been let down by us all.

ac yn cyfyngu cronfeydd ymddiriedolaeth plant i deuluoedd sy'n ennill dim ond £16,000 y flwyddyn, ar y sail eu bod eisoes yn ddigon cyfoethog. O ran y Democratiaid Rhyddfrydol, gwyddom y byddent yn torri credydau treth plant ac yn dileu'r cronfeydd ymddiriedolaeth plant yn gyfan gwbl ar y sail nad ydynt yn fforddiadwy. Felly, fy mhlei yw ei bod yn rhaid sicrhau na newidir y cyfeiriad yr eir iddo. Mae'r ystadegyn sy'n dweud bod 192,000 o blant mewn tlodi yn rhy uchel o lawer, ac ni ddylem droi ein cefn arnynt.

Jenny Randerson: Gwyddoch yn iawn—oherwydd yr wyf yn siŵr ichi gymryd cymaint o ddiddordeb yn y mater ag a wneuthum innau—na fyddai'r credydau treth plant yn cael eu torri; byddent yn cael eu newid. Diben y newid fyddai sicrhau nad yw'r arian yn mynd i rieni cyfoethog iawn. Pam y dylai rhiant sy'n ennill yr un faint â chi a mi gael credydau treth plant pan fo angen yr arian hwnnw'n daer ar y rheini sydd ar waelod y ffrwd incwm?

Christine Chapman: Yn amlwg, mae hwnnw'n gwestiwn i'ch manifesto. O leiaf mae fy mhleid i'n targedu'r bobl sydd fwyaf anghenus, ond yr ydym hefyd yn sicrhau bod dull gweithredu hollgynhwysol ar waith. Credaf fod ein blaenoriaethau ni yn gywir.

Angela Burns: Yr wyf yn falch iawn cael siarad yn y ddadl hon, ac yr wyf yn ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am godi'r mater. Cododd Ceidwadwyr Cymru y mater ynghylch tlodi plant mewn dadl yn y Siambr dri mis yn ôl, ar 3 Chwefror, ac yr wyf yn siomedig nad yw'r Llywodraeth wedi llwyddo o hyd i ymateb ac i gyflwyno agenda gadarnhaol o gamau gweithredu i gyrraedd targedau Cymru a'r DU ar gyfer dileu tlodi plant unwaith ac am byth. Addawodd y Dirprwy Weinidog strategaeth statudol gyntaf y Llywodraeth ar dlodi plant yn y gwanwyn eleni, ond nid yw wedi ymddangos eto. Nodaf unwaith eto fod 96,000 o blant mewn tlodi difrifol. I'r plant hyn mae pob diwrnod yn frwydr anodd. Nid oes gan lawer ohonynt got ar gyfer y gaeaf; mae llawer yn byw mewn tlodi tanwydd; mae'r rhan fwyaf yn anfodlon â'r sefyllfa y cânt eu gwthio iddi; a cânt i gyd eu siomi gan wleidyddion yn y Llywodraeth, yma yng Nghymru ac yn Llundain. Maent wedi eu siomi gan bob un

ohonom.

This week, we saw a 14-year-old girl break down in tears, speaking in front of Gordon Brown at a Citizens UK event about the daily struggle that her parent faces to put food on the table, to get her transport, and to be able to provide opportunities for her future.

This is not a Government that is looking after those in need. The current Labour Westminster Government and the Labour-Plaid coalition Government in Wales have both failed to meet the targets that they set themselves. They were both failing to do so even before the recession hit. Brian Gibbons stood up and gave an impassioned speech, talking about rhetoric, but the rhetoric comes from the Government that was meant to be abolishing boom and bust over the past 10 years, when it had all that money swilling around, and from the Government in Wales, which said that it would halve child poverty by 2010 and then eradicate it by 2020—key deadlines—but has not gone anywhere near it. In fact, child poverty has got worse. That was when we had all that money swilling around, so heaven only knows what will happen now that we do not have that kind of money.

Brian Gibbons: You will be aware that approximately £1 billion comes to Wales for 300,000 families through the working tax credit. When it comes to public money swilling around, will you be able to assure families in Wales that your Government, if it ever comes to power, will protect that money for them?

Angela Burns: Brian, I cannot assure you that that money will be there, but I can assure you that David Cameron is a very fair person, and he has said that he will look after the poorest in our society.

I want to refer briefly to Jenny's point. We all earn in the region of £50,000 a year; in fact, I am the Chair of a committee, so I get a bit more money. I do not need the £136 that comes trickling into my bank account for my two children. It is nonsense, and I would

Yr wythnos hon gwelsom ferch 14 oed yn wylo wrth siarad o flaen Gordon Brown, mewn digwyddiad gan Citizens UK, am y frwydr sy'n wynebu ei rhiant bob dydd i roi bwyd ar y bwrdd, talu am gludiant iddi, a darparu cyfleoedd ar gyfer ei dyfodol.

Nid yw hon yn Llywodraeth sy'n gofalu am y rhai sydd mewn angen. Mae'r Llywodraeth Lafur bresennol yn San Steffan, a Llywodraeth glymblaid y Blaid Lafur-Plaid Cymru yng Nghymru, ill dwy wedi methu â chyrraedd y targedau a bennwyd ganddynt iddynt eu hunain. Yr oeddent ill dwy'n methu â gwneud hynny hyd yn oed cyn i'r dirwasgiad daro. Safodd Brian Gibbons a thraddodi araith angerddol, gan siarad am rethreg, ond daw'r rethreg o enau'r Llywodraeth a oedd i fod i ddileu'r patrwm o ffynnu a methu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, pan oedd ganddi ddigon o arian, ac o enau'r Llywodraeth yng Nghymru, a ddywedodd y byddai'n haneru tlodi plant erbyn 2010 ac yna'n ei ddileu erbyn 2020—terfynau amser allweddol. Ond nid yw wedi dod yn agos at wneud hynny. Mewn gwirionedd, mae tlodi plant wedi gwaethygu. Yr oedd hynny pan oedd gennym ddigon o arian, felly Duw a wŷyr beth fydd yn digwydd yn awr pan nad oes gennym arian o'r fath.

Brian Gibbons: Byddwch yn ymwybodol fod tuag £1 biliwn yn dod i Gymru ar gyfer 300,000 o deuluoedd trwy'r credyd treth gwaith. Pan ddaw'n fater o fod â digon o arian cyhoeddus, a fyddwch yn gallu rhoi sicrwydd i deuluoedd yng Nghymru y bydd eich Llywodraeth chi, os daw i rym o gwbl, yn diogelu'r arian hwnnw ar eu cyfer?

Angela Burns: Brian, ni allaf roi sicrwydd ichi y bydd yr arian hwnnw yno, ond gallaf roi sicrwydd ichi fod David Cameron yn unigolyn teg iawn, ac mae wedi dweud y bydd yn gofalu am y bobl dlotaf yn ein cymdeithas.

Yr wyf am gyfeirio'n gyflym at bwynt Jenny. Yr ydym i gyd yn ennill oddeutu £50,000 y flwyddyn; mewn gwirionedd, gan fy mod yn gadeirydd pwyllgor, caf ychydig yn fwy o arian. Nid oes arnaf angen y £136 sy'n cyrraedd fy nghyfrif banc bob yn dipyn ar

much rather that went to some of the families in Monkton who really are poor. That is what we need to do: make it go to the right people, not just give a universal benefit, to which Christine referred. I will not rubbish all the work that has been done, and I know that this Deputy Minister is committed to this issue, but I am worried that he will be stagnating in a Government that is not moving forward on this issue. Child poverty figures are not being reduced, with more than one child in three living in poverty in Wales.

In July 2009, the auditor general stated that Communities First was unlikely to deliver its broader objectives without a more robust approach to programme bending. That was backed up by the Public Accounts Committee, which stated that:

‘Our conclusions are that, overall, the Communities First programme has not delivered good value for the significant amount of public money spent on it, and that this is largely because of weaknesses in the Welsh Government’s construction and management of the programme.’

Research conducted by Children in Wales has found that, outside targeted areas, such as Communities First areas, there are more children living in poverty than within their boundaries.

Joyce Watson: I am sure that you on that side of the Chamber recognise, as do we on this side, that one way of lifting children out of poverty is to give them a good education. What are your comments on the Kings International College, the result of a nice partnership between private and public money, and located in the constituency of your shadow education Minister, Michael Gove, which failed its Ofsted report, resulting in the public sector having to manage the school? Could you comment on that, given that you seem to think that private intervention automatically means better service delivery?

Angela Burns: I cannot comment on that,

gyfer fy nau blentyn. Nonsens yw hynny, a byddai well o lawer gennyf pe bai'n mynd i rai o'r teuluoedd yng Nghil-maen sy'n wirioneddol dlawd. Dyna y mae angen inni ei wneud: sicrhau bod yr arian yn mynd i'r bobl iawn, ac nid sicrhau mantais hollgynhwysol yn unig y cyfeiriodd Christine ati. Nid wyf am ladd ar yr holl waith sydd wedi'i wneud, a gwn fod y Dirprwy Weinidog hwn wedi ymrwymo i'r mater dan sylw, ond yr wyf yn pryderu y bydd yn aros yn ei unfan mewn Llywodraeth nad yw'n symud ymlaen ar y mater. Nid yw'r ffigurau ar dlodi plant yn cael eu gostwng, ac mae mwy nag un plentyn o bob tri yn byw mewn tlodi yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 2009 dywedodd yr archwilydd cyffredinol ei bod yn annhebygol y byddai'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cyflawni ei hamcanion ehangach heb gael dull cadarnach o blygu rhaglenni. Cafodd hynny ei ategu gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac meddai:

‘Daethom i'r casgliad nad yw'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn gyffredinol, wedi rhoi gwerth da am y swm sylweddol o arian cyhoeddus a wariwyd arni, a bod hyn i'w briodoli'n bennaf i wendidau yn y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio a rheoli'r rhaglen.’

Mae ymchwil a wnaed gan Plant yng Nghymru wedi darganfod bod mwy o blant yn byw mewn tlodi y tu allan nag y tu mewn i ffiniau'r ardaloedd a dargedir, megis ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Joyce Watson: Yr wyf yn siŵr eich bod chi, yr ochr honno i'r Siambr, yn sylweddoli, fel yr ydym ni yr ochr hon, mai un ffordd i godi plant allan o dlodi yw rhoi addysg dda iddynt. Beth yw eich sylwadau am Kings International College, canlyniad partneriaeth braf rhwng arian preifat ac arian cyhoeddus, yn etholaeth eich Gweinidog addysg yn yr wrthblaid, Michael Gove? Methodd hwnnw yn ei adroddiad Ofsted, gan olygu ei bod yn rhaid i'r sector cyhoeddus reoli'r ysgol? A allech wneud sylw ar hynny, o gofio eich bod, yn ôl pob golwg, yn meddwl bod ymyriad preifat yn awtomatig yn golygu gwell darpariaeth gwasanaethau?

Angela Burns: Ni allaf wneud sylw ar

and I will tell you why. I must be in completely the wrong place, because I always thought that education had been devolved to Wales. I am not interested, and I do not pay enough attention to what is happening in England. I am talking about the 96,000 children living in severe poverty in Wales. That is the issue here.

Sorry, Deputy Presiding Officer. I have taken too many interventions and I am now running out of time.

The Deputy Presiding Officer: Order. You are almost out of time, but carry on. You have another 15 seconds.

Angela Burns: Thank you. I will repeat the statistic one more time: there are 192,000 children living in poverty in Wales. They do not care about the fact that we are standing up in the Chamber arguing about petty party politics; all they care about is that they are in trouble. They need our help, the Welsh Assembly Government's help and that of every Assembly Member. We will do whatever we can to support the Deputy Minister for Children in lifting children out of poverty in Wales, but we need action and we have not seen action in the 10 years for which we had all that money swilling around.

Bethan Jenkins: It seems that we are experiencing a little *déjà vu* in these debates, with opposition parties tabling motions for debate in areas in which they know the Assembly has certain, if limited, competence. On the attempts to eradicate child poverty, we have already heard Eleanor Burnham say that WAG is not working for the true benefit of the people of Wales. If the Lib Dems are following the Tory rule book on these debates, no doubt I will be accused of getting political, and you will all claim that all you are doing is expressing concern. Let us instead take a look at what might happen if the Lib Dems find themselves in a position to influence, or even to make, Government policy by the end of the week. Let us argue this on policy and not politics. I have looked through the Lib Dems' manifesto in search of their renewed focus on this area, and I found

hynny, a dywedaf wrthyhych pam. Rhaid fy mod yn y lle anghywir yn llwyr, oherwydd yr oeddwn bob amser yn meddwl bod addysg wedi'i datganoli i Gymru. Nid oes gennyf ddi-ddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, ac nid wyf yn rhoi digon o sylw i'r hyn sy'n digwydd yno. Yr wyf yn sôn am y 96,000 o blant sy'n byw mewn tlodi difrifol yng Nghymru. Dyna yw'r broblem yma.

Mae'n flin gennyf, Ddirprwy Lywydd. Yr wyf wedi cymryd gormod o ymyriadau, ac mae fy amser yn dod i ben erbyn hyn.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae eich amser bron ar ben, ond gallwch barhau. Mae gennych 15 eiliad arall.

Angela Burns: Diolch. Yr wyf am ailadrodd yr ystadegyn unwaith yn rhagor: mae 192,000 o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Nid ydynt yn poeni ein bod ni'n sefyll yn y Siambr yn dadlau am wleidyddiaeth bleidiol ddibwys; yr unig beth y maent yn poeni amdano yw eu bod mewn trafferthion. Mae arnynt angen ein help, help Llywodraeth y Cynulliad a help pob Aelod o'r Cynulliad. Byddwn yn gwneud popeth posibl i gefnogi'r Dirprwy Weinidog dros Blant i godi plant allan o dlodi yng Nghymru, ond mae arnom angen camau gweithredu, ac nid ydym wedi gweld camau gweithredu yn ystod y 10 mlynedd pan oedd gennym ddigon o arian.

Bethan Jenkins: Ymddengys fod rhywfaint o *déjà vu* yn y dadleuon hyn, a'r gwrthbleidiau'n cyflwyno cynigion i ddadlau yn eu cylch mewn meysydd lle gwyddant fod gan y Cynulliad rywfaint o gymhwysedd, hyd yn oed os yw'n gyfyngedig. O ran yr ymdrechion i ddileu tlodi plant, yr ydym eisoes wedi clywed Eleanor Burnham yn dweud nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio er lles gwirioneddol pobl Cymru. Os yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dilyn llyfr rheolau'r Torïaid ar y dadleuon hyn, yr wyf yn sicr o gael fy nghyhuddo o fod yn wleidyddol, a bydd pob un ohonoch yn mynnu mai'r cyfan a wnewch yw mynegi pryder. Yn lle hynny, gadewch inni edrych ar yr hyn a allai ddigwydd pe bai'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn sefyllfa lle gallent ddylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth, neu hyd yn oed lunio polisi'r Llywodraeth,

one reference, which, while noble, was only on page 50. It says:

‘Liberal Democrats will:

Maintain the commitment to end child poverty in the UK by 2020.’

Eleanor Burnham: Do you not believe that raising the tax threshold would result in a far simpler and fairer solution? Perhaps that would eradicate some of the fog that besets the taxation system. Hardly anyone understands what is what. A very poor person may have to pay money back when they have been given the child tax credit or other type of tax credit, which makes a nonsense of the stupid taxation system generally.

4.30 p.m.

Bethan Jenkins: I am sure that I will come to that later, Eleanor. It appears that others did not have much luck in finding Lib Dem policy on this area either, as journalists and charities found themselves referring back to previous Lib Dem research. Even there, they did not find much. Lisa Harker, writing on the Child Poverty Action Group website concluded that,

‘despite the Liberal Democrats’ determination to present a distinctive strategy, their plans for tackling child poverty look overall remarkably similar to Labour’s’.

For the same charity, Tim Nicholas commented on Lib Dem plans to cut the £250 payment to start a child trust fund and use the money as part of the pupil premium paid to schools that teach the poorest children. He states that,

‘the urgent situation is around family

erbyn diwedd yr wythnos. Gadewch inni ddadlau ynghylch hyn ar sail polisi, nid gwleidyddiaeth. Yr wyf wedi edrych trwy fanifesto'r Democratiaid Rhyddfrydol i chwilio am eu ffocws newydd ar y maes hwn, a deuthum o hyd i un cyfeiriad ato, a oedd, er mor wych, ar dudalen 50. Mae'n dweud:

Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn:

Cynnal yr ymrwymiad i roi terfyn ar dlodi plant yn y DU erbyn 2020.

Eleanor Burnham: Oni chredwch y byddai codi trothwy'r dreth yn ateb llawer symlach a thecach? Efallai y byddai hynny'n dileu ychydig o'r niwl sy'n amgylchynu'r system drethi. Nid oes bron neb yn deall beth yw beth. Gallai unigolyn tlawd iawn fod yn gorfod ad-dalu arian, ar ôl cael y credyd treth plant neu gredyd treth o fath arall, sy'n gwneud i'r system drethi ymddangos yn hurt yn gyffredinol.

Bethan Jenkins: Yr wyf yn siŵr y dof at y pwynt hwnnw'n ddiweddarach, Eleanor. Ymddengys na chafodd pobl eraill ychwaith ryw lawer o lwc wrth geisio dod o hyd i bolisi'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y maes hwn, gan fod newyddiadurwyr ac elusennau wedi eu cael eu hunain yn cyfeirio'n ôl at ymchwil blaenorol y Democratiaid Rhyddfrydol. Hyd yn oed wrth edrych ar yr ymchwil hwnnw, ni ddaethant o hyd i lawer. Daeth Lisa Harker i'r casgliad canlynol wrth ysgrifennu ar wefan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant,

er gwaethaf penderfyniad y Democratiaid Rhyddfrydol i gyflwyno strategaeth neilltuol, mae eu cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yn ymddangos yn hynod o debyg yn gyffredinol i gynlluniau Llafur.

Ar gyfer yr un elusen, gwnaeth Tim Nicholas sylwadau ar gynlluniau'r Democratiaid Rhyddfrydol i dorri'r taliad o £250 i ddechrau cronfa ymddiriedolaeth plant ac i ddefnyddio'r arian fel rhan o'r premiwm disgyblion a delir i ysgolion sy'n addysgu'r plant tlotaf. Mae'n dweud,

mae'r sefyllfa argyfyngus yn ymwneud ag

incomes. Much more can be done to alleviate difficulties for the poorest children by increasing family incomes.'

That was reported in *The Guardian*. The newspaper's assessment of the party's anti-poverty measures concluded that,

'the big aim is to make work pay but this will miss the many children in workless families, 80% of whom are in poverty'.

Meanwhile, the Institute for Public Policy Research has urged the Welsh Government not to follow any moves to cut the child trust fund scheme that might be made in Westminster. It fears that the proposal to restrict it to the poorest one-third of families will threaten the Welsh Government's asset-backed approach to tackling child poverty. What we have left in the sector are people who are unconvinced by the Liberal Democrat policies in this area.

Among devolved issues, childcare is still a massive concern for the Welsh Government. I appreciate the development that Flying Start has made in many areas. When I was doing street surgeries in Cornelly this week, we found that many Action for Children childcare facilities have had to close. What would the Welsh Assembly Government do if there were a prospect of that happening on a wider scale across Wales, where charities would not be able to fill the gap and Flying Start would not be taking part in the future?

We are also hearing concerns about the duplication of schemes, as was mentioned earlier, with Communities First. Many Communities First organisations that the Public Accounts Committee met with, were taking the fact that Flying Start was in their area as one of their own child poverty targets and not appreciating that they should be doing something different to what was happening on a Government level.

incwm teuluoedd. Gellir gwneud llawer mwy i leddfu trafferthion y plant tlotaf trwy gynyddu incwm teuluoedd.

Cafwyd adroddiad ar hynny yn *The Guardian*. Daeth asesiad y papur newydd o fesurau'r blaid i atal tlodi i'r casgliad canlynol,

y prif nod yw sicrhau bod gweithio'n talu, ond bydd hynny'n anwybyddu'r plant niferus sydd mewn teuluoedd heb waith, 80% ohonynt mewn tlodi.

Yn y cyfamser, mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus wedi annog Llywodraeth Cymru i beidio â dilyn unrhyw ymgais a allai ddigwydd yn San Steffan i dorri'r cynllun cronfeydd ymddiriedolaeth plant. Mae'n ofni y bydd y cynnig i gyfyngu'r cynllun i'r traean tlotaf o deuluoedd yn bygwth dull Llywodraeth y Cynulliad o fynd i'r afael â thlodi plant yn seiliedig ar asedau. Yr hyn sydd gennym ar ôl yn y sector yw pobl nad ydynt wedi'u hargyhoeddi gan bolisiau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y maes hwn.

Ymhlith y materion sydd wedi'u datganoli, mae gofal plant yn dal i beri pryder mawr i Lywodraeth Cymru. Yr wyf yn cydnabod y datblygiad y mae Dechrau'n Deg wedi'i wneud mewn nifer o ardaloedd. Pan oeddwn yn cynnal cymorthfeydd ar y stryd yng Nghorneli yr wythnos hon, cawsom wybod bod nifer o gyfleusterau gofal Gweithredu dros Blant wedi gorfod cau. Beth fyddai Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud pe rhagwelid y gallai hynny ddigwydd ar raddfa ehangach ar draws Cymru, lle na fyddai elusennau'n gallu llenwi'r bwloch, a lle na fyddai Dechrau'n Deg yn cymryd rhan yn y dyfodol?

Yr ydym hefyd yn clywed pryderon am ddyblygu cynlluniau, fel y soniwyd yn gynharach, gyda Chymunedau yn Gyntaf. Yr oedd nifer o'r sefydliadau Cymunedau yn Gyntaf y cyfarfu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus â hwy yn ystyried y ffaith fod Dechrau'n Deg yn eu hardal yn un o'u targedau eu hunain o ran tlodi plant, heb sylweddoli y dylent fod yn gwneud rhywbeth gwahanol i'r hyn a oedd yn digwydd ar lefel Llywodraeth.

To return to my original point, I am sure that you know what I will say next: we cannot make decisions alone to make a real difference to child poverty in Wales. Issues on taxation and benefits are not devolved and if UK Government Ministers start to take the same stance as the Home Office, by refusing to communicate with AMs on non-devolved issues, our lobbying on behalf of constituents will again be stifled.

I know that the Deputy Minister does not take kindly to references to the UK Government's responsibilities, as I have read in previous speeches, but can he sincerely tell us whether we can reach those targets in Wales alone? If we can reach those targets alone in Wales, I would appreciate it if you could tell Plaid Cymru that we have no mandate whatsoever to be referring to UK Government legislation. However, until we know that the Welsh Assembly Government can reach those targets alone, I think that I have the right to mention the UK Government's responsibilities.

I would like to know from the Lib Dems the answer to the question that I recently asked the Tories: will you support some of what we support if we can support the new Government in Westminster, including up-rating the combined value of child tax credit and child benefit, increasing adult payments within income support in line with those for children and informing the administration of tax credits and benefits—

The Deputy Presiding Officer: Order. Could you wind up, please?

Bethan Jenkins: We need to ensure that it provides the right amount to the right people at the right time. These are the points that are widely held as the most urgent steps for the Westminster Government and we must take these actions to ensure that we can reach the child poverty targets.

Val Lloyd: I share the concerns raised by

I ddychwelyd at fy mhwynt gwreiddiol, yr wyf yn siŵr y gwyddoch beth yr wyf am ei ddweud nesaf: ni allwn wneud gwahaniaeth go iawn i dlodi plant yng Nghymru drwy wneud penderfyniadau ar ein pen ein hunain. Nid yw materion trethu a budd-daliadau wedi'u datganoli, ac os bydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn dechrau cymryd yr un safbwynt â'r Swyddfa Gartref, gan wrthod cyfathrebu ag Aelodau'r Cynulliad ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli, bydd ein gwaith llobio ar ran etholwyr yn cael ei fygu unwaith yn rhagor.

Gwn nad yw'r Dirprwy Weinidog yn hoff iawn o gyfeiriadau at gyfrifoldebau Llywodraeth y DU, fel yr wyf wedi darllen mewn areithiau blaenorol, ond a all ddweud wrthym yn ddiffuant a allwn gyrraedd y targedau hynny yng Nghymru ar ein pen ein hunain? Os gallwn gyrraedd y targedau hynny yng Nghymru ar ein pen ein hunain, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ddweud wrth Blaid Cymru nad oes gennym fandad o gwbl i gyfeirio at ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, nes gwyddom y gall Llywodraeth y Cynulliad gyrraedd y targedau hynny ar ei phen ei hun, credaf fod gennyf yr hawl i sôn am gyfrifoldebau Llywodraeth y DU.

Hoffwn wybod gan y Democratiaid Rhyddfrydol yr ateb i'r cwestiwn a ofynnais i'r Toriaid yn ddiweddar: a wnewch chi gefnogi ychydig o'r hyn yr ydym ni'n ei gefnogi, os gallwn ni gefnogi'r Llywodraeth newydd yn San Steffan, gan gynnwys codi gwerth cyfun credyd treth plant a budd-dal plant, cynyddu taliadau i oedolion mewn cymhorthdal incwm yn unol â'r taliadau i blant, a dweud wrth y sawl sy'n gweinyddu credydau treth a budd-daliadau—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi ddod i ben, os gwelwch yn dda?

Bethan Jenkins: Mae angen inni sicrhau bod y bobl gywir yn cael y swm cywir ar yr adeg gywir. Dyna'r camau mwyaf taer y mae angen i Lywodraeth San Steffan eu cymryd ym marn llawer, a rhaid inni gymryd y camau gweithredu hynny er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd y targedau ar gyfer tlodi plant.

Val Lloyd: Mae'r pryderon a godwyd gan

others in this debate about the number of children still living in poverty in Wales. Living in poverty undoubtedly has a serious impact on their education, health, future employment and general life chances. Of course, that is particularly acute in the context of a global recession.

There is no doubt about the Welsh Assembly Government's firm commitment to eradicate child poverty by 2020. It is unique in its approach to the issue in that its policies and programmes are based on the UN Convention on the Rights of the Child. I agree with previous speakers' comments that delivery is important. While the Welsh Assembly Government has limited powers to tackle income poverty, it has introduced a number of policies to deal with child poverty.

The Children and Families (Wales) Measure 2010 makes statutory provision to take forward the commitment to tackling child poverty and the Welsh Assembly Government's strategy for vulnerable children. The Measure establishes a coherent framework to deliver action on child poverty and also provides for regular monitoring of progress against set objectives for each public body concerned.

Integrated children's centres operate at the heart of the community to provide a multi-disciplinary, joined-up approach between education, care, family support and health services. From visiting the children's centre in my constituency, and associated centres, I have seen, at first hand, how the support goes a long way to providing the best start in life, attacking child poverty from the very beginning. However, I find it ironic that many of the policies that the Welsh Assembly Government and the UK Government have introduced to tackle child poverty and to deliver results for vulnerable children have been opposed by parties across the Chamber.

The Lib Dems have consistently argued that child trust funds should be scrapped as they are not effective in tackling child poverty.

eraill yn y ddadl hon am nifer y plant sy'n dal i fyw mewn tlodi yng Nghymru yn fy mhryderu innau. Heb os, mae byw mewn tlodi'n cael effaith ddifrifol ar eu haddysg, eu hiechyd, eu cyflogaeth yn y dyfodol, a'u cyfleoedd mewn bywyd yn gyffredinol. Wrth gwrs, mae hynny'n arbennig o ddifrifol yng nghyd-destun dirwasgiad byd-eang.

Nid oes amheuaeth nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n gadarn i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae ei dull o ymdrin â'r broblem hon yn unigryw, yn gymaint â bod ei pholisïau a'i rhaglenni'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cytunaf â sylwadau siaradwyr blaenorol fod cyflawni'n bwysig. Er mai pwerau cyfyngedig sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi incwm, mae wedi cyflwyno nifer o bolisïau i ymdrin â thlodi plant.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth statudol i ddatblygu'r ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant a strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant sy'n agored i niwed. Mae'r Mesur yn creu fframwaith cydlynol ar gyfer gweithredu ar dlodi plant, ac mae hefyd yn darparu ar gyfer monitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn amcanion wedi eu pennu ar gyfer pob corff cyhoeddus perthnasol.

Mae canolfannau plant integredig yn gweithredu yng nghalon y gymuned i ddarparu dull amlddisgyblaeth, cydgysylltiedig o weithredu rhwng gwasanaethau addysg, gofal, iechyd a chymorth i deuluoedd. O ymweld â'r ganolfan blant yn fy etholaeth, a chanolfannau cysylltiedig, yr wyf wedi gweld dros of fy hun sut mae'r cymorth yn gwneud llawer i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd, gan fynd i'r afael â thlodi plant o'r dechrau'n deg. Fodd bynnag, mae'n eironig i mi fod y pleidiau yr ochr arall i'r Siambr wedi gwrthwynebu nifer o'r polisïau y mae Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â thlodi plant ac i sicrhau canlyniadau i blant sy'n agored i niwed.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi dadlau'n gyson y dylid dileu cronfeydd ymddiriedolaeth plant gan nad ydynt yn

Figures show that some parents do not meet the deadline of investing the money before their child's first birthday. The aim of the scheme is to ensure that a child has some savings upon reaching their eighteenth birthday, and the question of who invests the money, whether it is parents or the Government, is not relevant. What is relevant is that the money is there for young people when they reach the age of 18. The child trust fund not only offers that money, but also offers young people the opportunity to improve their financial literacy, while holding an asset to which these skills can be applied. This is just one benefit of the child trust fund that should not be put at risk by abolishing the policy, as some opposition Members have advocated. Any restrictions or cuts made to the UK child trust fund scheme could put the Welsh top-up at risk. If the Tories, for example, restrict child trust funds to just the poorest third of families, as they propose, the Welsh Assembly Government could be under pressure to follow suit. This is because the Welsh top-up piggybacks on the UK scheme, relying on the UK Government to bear the administrative costs of setting up the trust fund accounts.

Ten thousand families and 16,000 individual children benefit from child trust funds in my constituency of Swansea East. Under Liberal Democrat and Tory proposals, many could lose out on that money. Both parties have Janus faces in calling for greater action to tackle child poverty in Wales, while at the same time advocating action that would put many children at risk of greater poverty. Eradicating child poverty will only happen through innovative policies, not by shouting from the sidelines while at the same time cutting much needed support for vulnerable families.

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): I congratulate the Welsh Lib Dems for raising the issue of child poverty in the Assembly at a pivotal moment in Welsh politics. The continued existence and

mynd i'r afael yn effeithiol â thlodi plant. Dengys y ffigurau nad yw rhai rhieni'n buddsoddi'r arian cyn pen-blwydd eu plentyn yn un oed, fel sy'n ofynnol. Nod y cynllun yw sicrhau bod gan blentyn rywfaint o gynilion erbyn cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed, ac nid yw pwy sy'n buddsoddi'r arian, boed y rhieni ynteu'r Llywodraeth, yn berthnasol. Yr hyn sy'n berthnasol yw bod yr arian yno i bobl ifanc pan fyddant yn 18 oed. Nid yr arian hwnnw yw'r unig beth y mae'r gronfa ymddiriedolaeth plant yn ei gynnig, oherwydd mae hefyd yn cynnig cyfle i bobl ifanc wella'u llythrennedd ariannol, gan ddal ased y gallant ddefnyddio'u sgiliau i ymdrin ag ef. Dim ond un o fanteision y gronfa ymddiriedolaeth plant yw hon, ac ni ddylid ei pheryglu trwy ddileu'r polisi, fel y mae rhai o Aelodau'r gwrthbleidiau wedi ei argymhell. Gallai unrhyw gyfyngiadau ar gynllun cronfeydd ymddiriedolaeth plant y DU, neu unrhyw doriadau yn y cynllun hwnnw, beryglu'r arian atodol i Gymru. Os bydd y Torïaid, er enghraifft, yn cyfyngu'r cronfeydd ymddiriedolaeth plant i'r traean sy'n cynnwys y teuluoedd tlotaf yn unig, yn unol â'u bwriad, gallai Llywodraeth y Cynulliad ddod dan bwysau i wneud yr un fath. Y rheswm am hynny yw bod yr arian atodol i Gymru yn dod yng nghysgod cynllun y DU, a'i fod yn dibynnu ar Lywodraeth y DU i dalu'r costau gweinyddol o sefydlu'r cyfrifon cronfeydd ymddiriedolaeth.

Mae 10,000 o deuluoedd ac 16,000 o blant unigol yn elwa o gronfeydd ymddiriedolaeth plant yn fy etholaeth i yn Nwyrain Abertawe. Dan gynigion y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid, gallai llawer golli'r cyfle i gael yr arian hwnnw. Mae'r ddwy blaid yn ddauwynebog wrth alw am fwy o weithredu i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru gan argymhell, ar yr un pryd, gamau gweithredu a fyddai'n golygu bod perygl i lawer o blant wynebu mwy o dlodi. Dim ond trwy bolisiau blaengar y bydd tlodi plant yn cael ei ddileu, nid trwy weiddi o'r cyrion gan fynd ati ar yr un pryd i dorri cymorth y mae ei angen yn fawr ar deuluoedd sy'n agored i niwed.

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Yr wyf yn llongyfarch Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar godi problem tlodi plant yn y Cynulliad ar adeg dyngedfennol yng ngwleidyddiaeth Cymru. Mae'r ffaith fod

inheritable nature of child poverty rots our society from within. I am sure that you will not want to be reminded of this, Eleanor, but it was not until a speech by your former leader, Menzies Campbell, in December 2006, that you committed yourselves as a party to Labour's child poverty targets. You were shamed into it by the End Child Poverty campaign. That was seven long years after Tony Blair committed Labour to the eradication of child poverty in Britain by 2020. It is seven long years during which you were not fully engaged as partners in this fight. For the party that gave us social reformers such as Lloyd George and Beveridge, it is a discreditable record. However, I suppose that 'better late than never' is the maxim that should apply in this instance.

After all, child poverty is an issue that demands the engagement of parties across the political spectrum. So, while I do not support the substance of your motion—it requires amendment as it is not based on official statistics—I certainly support the spirit of it. In the same spirit, I hope that you will recognise that, by the very creation of the portfolio that I occupy, the First Minister has demonstrated this Government's cast iron commitment to the child poverty agenda in Wales.

Eradicating child poverty is at the heart of this Government's vision for the next decade, and no matter what happens tomorrow, I give you my word that we will not duck from this responsibility in the years ahead.

4.40 p.m.

As Members will be aware, we are in the latter stages of developing our child poverty strategy, a document that will encompass this Government's vision and strategic direction, setting out a coherent and deliverable plan for reducing child poverty in Wales over the next decade. The First Minister and I will launch this strategy on 12 May; the wait is over, Mark. It will be a strategy that focuses more on delivery and less upon statements of intent; we are at a point now where all that matters is the delivery of change. To answer

tlodi plant yn parhau a'i fod yn cael ei drosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall yn pydru ein cymdeithas o'r tu mewn. Yr wyf yn siŵr na fyddwch am imi eich atgoffa o hyn, Eleanor, ond nid tan inni gael araith gan eich cyn-arweinydd, Menzies Campbell, ym mis Rhagfyr 2006 y bu ichi ymrwymo fel plaid i dargedau'r Baid Lafur ar dlodi plant. Gwnaethoch hynny ar ôl i'r ymgyrch Dileu Tlodi Plant godi cywilydd arnoch. Yr oedd hynny saith mlynedd gron ar ôl i Tony Blair rwymo'r Blaid Lafur i ddileu tlodi plant ym Mhrydain erbyn 2020. Cafwyd saith mlynedd gron pan nad oeddech wedi ymgysylltu'n llawn fel partneriaid yn y frwydr hon. Mae hynny'n gywilyddus i'r blaid a roddodd inni ddiwygwyr cymdeithasol megis Lloyd George a Beveridge. Fodd bynnag, mae'n debyg fod y ddihareb 'gwell hwyr na hwyrach' yn wir yn yr achos hwn.

Wedi'r cyfan, mae tlodi plant yn broblem sy'n mynnu ymgysylltiad pob plaid ar draws y sbectwm gwleidyddol. Felly, er nad wyf yn cefnogi sylwedd eich cynnig—mae angen ei ddiwygio gan nad yw wedi'i seilio ar ystadegau swyddogol—yr wyf yn sicr yn cefnogi ei ysbryd. Yn yr un ysbryd, gobeithio y byddwch chi'n cydnabod bod y Prif Weinidog, trwy greu'r portffolio yr wyf yn gyfrifol amdano, wedi dangos ymrwymiad cwbl gadarn y Llywodraeth hon i'r agenda tlodi plant yng Nghymru.

Mae dileu tlodi plant wrth wraidd gweledigaeth y Llywodraeth hon ar gyfer y degawd nesaf, ac ni waeth beth fydd yn digwydd yfory, rhof fy ngair ichi na fyddwn yn osgoi'r cyfrifoldeb hwnnw yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Fel y gwyr yr Aelodau, yr ydym yn nesáu at ddiwedd y gwaith o ddatblygu ein strategaeth ar dlodi plant. Mae'n ddogfen a fydd yn cwmpasu gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Llywodraeth hon, gan amlinellu cynllun cydlynol y gellir ei gyflawni er mwyn lleihau tlodi plant yng Nghymru dros y degawd nesaf. Bydd y Prif Weinidog a minnau'n lansio'r strategaeth hon ar 12 Mai; mae'r aros ar ben, Mark. Bydd yn strategaeth a fydd yn canolbwyntio mwy ar gyflawni a llai ar ddatganiadau o fwriad; sicrhau newid yw'r

Jenny's point, this will be an all-Wales strategy, including areas that are outside Communities First's reach.

The 2020 deadline is looming fast and it is action, not rhetoric, that is needed now. We must ensure that the allocation of finance, people and resources properly matches our ambition to eradicate child poverty by 2020. The historic children and families Measure, which recently received Royal Approval, is the other central plank of our new approach. If we get the implementation of this Measure right, we will essentially bring the bulk of the Welsh public sector into the fight against child poverty by placing a statutory duty on Assembly Government departments, local authorities, the NHS and other public bodies to set out what they are doing to tackle child poverty. It is a truly joined-up approach to which an array of Welsh public bodies and others have already subscribed, both within and outwith the reach of the legislation. From Oxfam Cymru to the Welsh Association of Chief Police Officers and the Sports Council for Wales, they have all recognised that they have a role to play in delivering on our child poverty targets, and I am grateful to them.

Building on the introduction of our Measure, the UK Child Poverty Act 2009 will provide a robust statutory framework and will act as a catalyst for action on child poverty across the United Kingdom. It is yet another example of the 'partnership in power' approach that has characterised the last 11 years of governance in Wales. That approach has allowed Labour-led administrations in the Assembly to develop Welsh solutions that complement the policies of the Labour Government in Westminster. It is an approach that has allowed Welsh Labour to lead where others have followed elsewhere in the UK. For example, take child trust funds, which I am very sorry to see that the Lib Dems are committed to abolishing under plans laid out by Nick Clegg. For a party that calls itself 'progressive', it is shameful that it is to the

unig beth sy'n bwysig erbyn hyn. I ymateb i bwynt Jenny, bydd hon yn strategaeth i Gymru gyfan, gan gynnwys ardaloedd nad yw Cymunedau yn Gyntaf yn eu cyrraedd.

Mae'r terfyn amser o 2020 yn dod ar ein gwarthaf yn gyflym, a gweithredu, nid rhethreg, sy'n angenrheidiol yn awr. Rhaid inni sicrhau bod cyllid, pobl ac adnoddau'n cael eu dyrannu mewn modd sy'n cyfateb yn briodol i'n huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Y Mesur plant a theuluoedd hanesyddol a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol yn ddiweddar yw'r elfen arall sy'n ganolog i'n dull gweithredu newydd. Os llwyddwn i weithredu'r Mesur hwn yn iawn, byddwn i bob pwrpas yn cynnwys y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn y frwydr yn erbyn tlodi plant, trwy osod dyletswydd statudol ar adrannau Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol, y GIG a chyrrff cyhoeddus eraill i egluro'r hyn y maent yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae'n ddull gweithredu gwirioneddol gydgyssylltiedig, ac mae amrywiaeth o gyrff cyhoeddus a chyrrff eraill yng Nghymru eisoes wedi ei gefnogi, gan gynnwys rhai y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt a rhai nad yw'n berthnasol iddynt. O Oxfam Cymru i Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru, mae pob un ohonynt wedi cydnabod bod ganddynt rôl wrth gyflawni ein targedau ar dlodi plant, ac yr wyf yn ddiolchgar iddynt.

Gan adeiladu ar y Mesur a gyflwynwyd gennym, bydd Deddf Tlodi Plant 2009 y DU yn cynnig fframwaith statudol cadarn, a bydd yn sbardun ar gyfer gweithredu ar dlodi plant ar draws y Deyrnas Unedig. Dyma enghraifft arall eto o'r dull gweithredu 'partneriaeth mewn grym' sydd wedi nodweddu'r 11 mlynedd diwethaf o lywodraethu yng Nghymru. Mae'r dull gweithredu hwnnw wedi caniatáu i weinyddiaethau dan arweiniad y Blaid Lafur yn y Cynulliad ddatblygu atebion Cymreig sy'n ategu polisiau'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan. Mae'n ddull gweithredu sydd wedi caniatáu i Lafur Cymru arwain, lle mae eraill wedi dilyn mewn rhannau eraill o'r DU. Cymerwch, er enghraifft, y cronfeydd ymddiriedolaeth plant. Mae'n flin iawn gennyf fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi

right of David Cameron's Tories on this. On the issue of child poverty, the Lib Dems have no ethical coherence as a political party.

We all recognise that we face tough times and that difficult choices will have to be made in the years ahead, but in addition to looking at what we must cut, we must be prepared to stand up for what is worth saving. Child trust funds represent a tiny fraction of UK Government expenditure, so why are kids, particularly the poorest kids, the first to get the order of the boot from the Lib Dems when the going gets tough?

Jenny Randerson: Given that the amount of money is relatively modest and that children do not benefit from these funds until they are adults, do you not think that they would do better if that money was spent on their education and gave them not only a good start in life but a good future throughout their lives?

Huw Lewis: To the nebulous promise from the Lib Dems to plough the money into smaller class sizes, forgetting all about the existence of devolution along the way, I say that we cannot eradicate child poverty simply by ameliorating the effects of deprivation today. As has been said, it is essential that we also seek to prevent child poverty in the future, so that we can reduce the chances of poor children becoming poor adults in poor families. The child trust fund, supplemented in Wales by the Child Trust Fund Cymru, is a means of helping every 18-year-old to get a decent start in life. It is a springboard for opportunity that might provide a young person with a chance of getting a foot on the housing ladder, help to pay for a university education or perhaps something as simple as learning to drive. Given the financial turmoil that we have experienced over the last couple of years, surely something that promotes fiscal responsibility and a savings culture in our nation's young is worth protecting.

ymrwymo i'w dileu dan gynlluniau a gyflwynwyd gan Nick Clegg. I blaid sy'n ei galw ei hun yn blaid 'flaengar', mae'n gywilyddus ei bod ymhellach i'r dde na Thorïaid David Cameron ar y mater hwn. Nid oes cydlyniaeth foesol yn perthyn i'r Democratiaid Rhyddfrydol fel plaid wleidyddol o ran tlodi plant.

Mae pob un ohonom yn cydnabod bod adeg anodd o'n blaenau ac y bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd yn ystod y blynyddoedd i ddod. Ond yn ogystal ag edrych ar yr hyn y mae'n rhaid inni ei dorri, rhaid inni fod yn barod i frwydro dros yr hyn y mae'n werth ei gadw. Bach iawn o arian Llywodraeth y DU sy'n cael ei wario ar gronfeydd ymddiriedolaeth plant, felly, pam mai plant, a'r plant tlotaf yn benodol, yw'r cyntaf i deimlo blaen troed y Democratiaid Rhyddfrydol pan fydd pethau'n mynd yn anodd?

Jenny Randerson: O gofio bod swm yr arian yn gymharol fach ac na fydd plant yn elwa o'r cronfeydd hyn nes byddant yn oedolion, oni chredwch y byddai'n gwneud mwy o les iddynt pe bai'r arian hwnnw'n cael ei wario ar eu haddysg, gan roi cyfle iddynt nid yn unig gael dechrau da mewn bywyd, ond cael dyfodol da drwy gydol eu bywyd?

Huw Lewis: I ymateb i'r addewid niwlog gan y Democratiaid Rhyddfrydol i wario'r arian ar leihau maint dosbarthiadau, gan anghofio popeth am ddatganoli ar hyd y ffordd, dywedaf nad trwy leddfu effeithiau amddifadedd heddiw yn unig y mae dileu tlodi plant. Fel y dywedwyd, mae'n hanfodol inni hefyd geisio atal tlodi plant yn y dyfodol, fel y gallwn leihau'r tebygolrwydd y bydd plant tlawd yn tyfu'n oedolion tlawd mewn teuluoedd tlawd. Mae'r gronfa ymddiriedolaeth plant, a ategir yng Nghymru gan Gronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru, yn fodd i helpu pob plentyn 18 oed i gael dechrau gweddol mewn bywyd. Mae'n hybu cyfle a allai fod yn fodd i unigolyn ifanc brynu cartref, ei helpu i dalu am addysg prifysgol, neu ei helpu i wneud rhywbeth mor syml â dysgu gyrru, efallai. O gofio'r helbul ariannol a fu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rhaid bod rhywbeth sy'n hybu cyfrifoldeb ariannol a diwylliant o gynilo ymhlith pobl ifanc ein gwlad yn werth ei

Apparently not, according to the Lib Dems.

I also point out that it is Liberal Democrat policy to abolish tax credits for some 2.3 million hard-working families in the UK—a move that would put even more families and children at risk of sliding into poverty.

Eleanor Burnham *rose*—

Huw Lewis: You will have your opportunity to respond in a second. To turn to the Conservative amendment, amendment 2, I welcome the attention to this agenda that you have demonstrated in recent weeks, at least. However, I cannot help but wonder whether we might not be where we are now if Tory politicians had given issues like severe child poverty even a passing thought in the 1980s, when we saw child poverty treble in Wales. I would as soon as hand over the fortunes of our poorest kids to a pack of wolves as hand them over to the Tory Party.

Your amendment refers to an important issue. However, the figure that it cites is an unofficial figure from Save the Children, which it itself has admitted is based on a very small sample. We have to remember that there is no single agreed definition of severe child poverty, and that, strange as it may seem, the lowest recorded incomes do not always correlate to the lowest living standards. That is probably because of the difficulty that we have in getting to the bottom of what the income is of many self-employed heads of families. Like the Liberal Democrats, you were more than a little late to the table on this one. Like the Liberal Democrats, you are on the wrong side of the argument when it comes to child trust funds, which you would abolish for all but the very poorest families, and to child tax credits, which you would abolish for families in which both parents earn as little as £16,000 a year.

Mark Isherwood: Will you give way?

Huw Lewis: No, Mark. I do not have time to

amddiffyn. Ymddengys nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol o'r un farn.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at y ffaith mai polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol yw dileu credydau treth ar gyfer rhyw 2.3 miliwn o deuluoedd yn y DU sy'n gweithio'n galed—cam a fyddai'n golygu bod mwy fyth o deuluoedd a phlant mewn perygl o ddisgyn i dlodi.

Eleanor Burnham *a gododd*—

Huw Lewis: Fe gewch eich cyfle i ymateb mewn eiliad. I droi at welliant y Ceidwadwyr, gwelliant 2, croesawaf y sylw yr ydych wedi'i roi i'r agenda hon yn ystod yr wythnosau diwethaf o leiaf. Fodd bynnag, ni allaf ond dyfalu a fyddem yn y sefyllfa hon yn awr pe bai gwleidyddion Toriaidd wedi rhoi'r sylw lleiaf i faterion megis tlodi plant difrifol yn yr 1980au, pan welsom dlodi plant yn treblu yng Nghymru. Byddai'n well gennyf roi tynged ein plant tlotaf i haid o fleiddiaid nag yn nwylo'r Blaid Doriaidd.

Mae eich gwelliant yn cyfeirio at fater pwysig. Fodd bynnag, ffigur answyddogol gan Achub y Plant yw'r un a ddyfynnir ynddo, ac mae'r sefydliad hwnnw ei hun wedi cyfaddef bod y ffigur wedi'i seilio ar sampl fach iawn. Rhaid inni gofio nad oes yr un diffiniad y cytunwyd arno ar gyfer tlodi plant difrifol, ac nad oes cydberthynas bob amser rhwng y lefelau incwm isaf a gofnodir a'r safonau byw isaf, er bod hynny'n ymddangos yn rhyfedd, efallai. Y rheswm am hynny, mae'n debyg, yw'r anhawster a gawn i geisio cadarnhau beth yw incwm nifer o benteuluoedd hunan-gyflogedig. Fel y Democratiaid Rhyddfrydol, yr oeddech yn hwyr iawn yn rhoi sylw i hyn. Fel y Democratiaid Rhyddfrydol, yr ydych ar yr ochr anghywir i'r ddadl ar gronfeydd ymddiriedolaeth plant y byddech chi'n eu dileu i bawb ond y teuluoedd tlotaf oll. Ac yr ydych yn anghywir ynghylch credydau treth plant, y byddech yn eu dileu i deuluoedd lle mae'r ddau riant yn ennill cyn lleied ag £16,000 y flwyddyn.

Mark Isherwood: A wnewch chi ildio?

Huw Lewis: Na wnaf, Mark. Nid oes gennyf

take an intervention at the moment. It seems that only Labour, working in partnership in Wales and Westminster, would safeguard support for hardworking families. The coalition of cuts that we see from the opposition is an indictment of where they stand on issues such as this. You may see support for hardworking families as a luxury that we cannot afford, but we do not. You have heard a lot about dividing lines over the last few weeks, so I will end by giving you a few. Rational, decent social policies such as the child trust fund have to be fought for and defended. We will all face tough choices, but it is not tough to inflict financial pain on someone else's kids. It is simply wicked.

The Deputy Presiding Officer: Could you wind up, please?

Huw Lewis: We will soon have the tools that we need to tackle child poverty in the long term. We will have a strategy unsurpassed in its coherent nature anywhere else in the UK. We will have our Welsh legislation, tying public bodies into our national commitment, and while Welsh Labour draws breath, we will have the political will to see this through.

The Deputy Presiding Officer: You really must wind up, Deputy Minister.

Huw Lewis: We will defend child tax credits, child trust funds, Flying Start, integrated children's centres, free breakfasts, the minimum wage and investment in our schools and our children's health. All these things are with us today and they are all at risk tomorrow.

Peter Black: I congratulate Huw on his ethical coherence. There is no doubt about the passion that Huw feels for this subject, and there is no doubt that, of those available on the Labour and Plaid Cymru benches, he is the best choice for the post of Deputy Minister for Children in terms of taking this agenda forward.

amser i dderbyn ymyriad ar hyn o bryd. Ymddengys mai dim ond y Blaid Lafur, drwy weithio mewn partneriaeth yng Nghymru a San Steffan, a fyddai'n diogelu cymorth i deuluoedd sy'n gweithio'n galed. Mae'r gynghrair o doriadau a welwn gan y gwrthbleidiau'n arwydd pendant o'u safbwynt ar faterion tebyg i hwn. Hwyrach eich bod chi'n ystyried mai moethusrwydd na allwn ei fforddio yw cymorth i deuluoedd sy'n gweithio'n galed, ond nid dyna yw ein barn ni. Clywsoch lawer am linellau terfyn yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, felly, yr wyf am orffen trwy grybwyll un neu ddwy ohonynt. Rhaid brwydro dros bolisiau cymdeithasol rhesymegol a theg, fel y gronfa ymddiriedolaethau plant, a'u hamddiffyn. Byddwn i gyd yn wynebu dewisiadau anodd, ond nid peth anodd yw gwneud i blant rhywun arall ddiodeff yn ariannol. Mae'n anfaddeuol.

Y Dirprwy Lywydd: A wnewch chi dynnu at y terfyn, os gwelwch yn dda?

Huw Lewis: Cyn hir bydd gennym yr arfau y mae arnom eu hangen i fynd i'r afael â thlodi plant yn y tymor hir. Bydd gennym y strategaeth fwyaf cydlynol sydd i'w chael yn y DU. Bydd gennym ein deddfwriaeth Gymreig, a fydd yn clymu cyrff cyhoeddus wrth ein hymrwymiad cenedlaethol, a bydd gennym yr ewyllys gwleidyddol, wrth i Lafur Cymru dynnu anadl, i gael y maen i'r wal.

Y Dirprwy Lywydd: Rhaid ichi dynnu at y terfyn yn awr, Ddirprwy Weinidog.

Huw Lewis: Byddwn yn amddiffyn credydau treth plant, cronfeydd ymddiriedolaethau plant, Dechrau'n Deg, canolfannau plant integredig, y fenter brechwast am ddim, yr isafswm cyflog, a gwaith buddsoddi yn ein hysgolion ac iechyd ein plant. Mae'r holl bethau hyn gennym heddiw, a bydd y cyfan yn y fantol yfory.

Peter Black: Yr wyf yn llongyfarch Huw ar ei gydlyniaeth foesol. Nid oes amheuaeth nad yw Huw yn teimlo'n angerddol am y pwnc hwn, ac nid oes amheuaeth nad ef, o blith y rheini sydd ar gael ar feinciau'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru, yw'r dewis gorau ar gyfer swydd y Dirprwy Weinidog dros Blant o ran symud yr agenda hon yn ei blaen.

However, ethical coherence is one thing, but practical action and results are completely different things. You can have as much ethical coherence and passion as you like, but, at the end of the day, you have to deliver results. The evidence that we have in front of us in terms of statistics is that in the seven years or so that we have had a Welsh Assembly Government commitment to reduce child poverty and to take people out of poverty, we have gone backwards and we are not achieving the targets at all. Mark Isherwood and a number of other Members referred to the Children and Families (Wales) Measure 2010. The fact is that having targets and legislation does not make this a reality. If you want to deliver this, you have to work with other bodies and deliver on your promises. That has not happened so far as a result of the agendas of either the Welsh Assembly Government or the UK Government.

You are also wrong on another point, Huw. While you were speaking, I had the 1997 Liberal Democrat manifesto in front of me. There are a whole range of measures in that manifesto to deal with child poverty and taking people out of poverty. That commitment has been central to my party since before 1997 in relation to what needs to be done. Much of what is in that manifesto is repeated in our 2010 manifesto: for example, simplifying the benefits system—and, of course, new benefits, such as the tax credits system, have been introduced since 1997—to ensure that benefits are properly targeted at those who need them the most, are easily accessible and provide people with an incentive to work rather than with an excuse not to do so. Those are very important commitments, and tackling poverty has been a commitment of my party for as long as I have been a member of it. With regard to your reference to Ming Campbell, while he may well have made the first public speech on this that you recall, the commitment goes back to well before that.

4.50 p.m.

Mark Isherwood referred to the amendments that were tabled to the Children and Families

Fodd bynnag, un peth yw cydlyniaeth foesol, ond peth cwbl wahanol yw camau gweithredu ymarferol a chanlyniadau. Gallwch gael faint a fynnwch o gydlyniaeth foesol ac angerdd, ond yn y pen draw rhaid ichi sicrhau canlyniadau. Dengys y dystiolaeth sydd ger ein bron o ran ystadegau nad ydym yn cyrraedd y targedau o gwbl, a'n bod wedi colli tir yn ystod y saith mlynedd, fwy neu lai, ers inni gael ymrwymiad gan Lywodraeth y Cynulliad i leihau tlodi plant ac i godi pobl allan o dlodi. Cyfeiriodd Mark Isherwood, a nifer o Aelodau eraill, at Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Y gwir yw nad yw cael targedau a deddfwriaeth yn troi hyn yn realiti. Os ydych am sicrhau hyn, rhaid ichi weithio gyda chyrff eraill a gwireddu'ch addewidion. Nid yw hynny wedi digwydd hyd yma o ganlyniad i agenda Llywodraeth y Cynulliad nac agenda Llywodraeth y DU.

Yr ydych hefyd yn anghywir ar bwynt arall, Huw. Tra oeddech yn siarad yr oedd maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer 1997 gennyf o'm blaen. Ceir ynddo ystod eang o fesurau ar gyfer ymdrin â thlodi plant a chodi pobl allan o dlodi. Bu'r ymrwymiad hwnnw'n ganolog i'm plaid ers cyn 1997 o ran yr hyn y mae angen ei wneud. Caiff llawer o gynnwys y maniffesto hwnnw ei ailadrodd yn ein maniffesto ar gyfer 2010: er enghraifft, symleiddio'r system budd-daliadau—ac, wrth gwrs, mae budd-daliadau newydd, megis y system credydau treth, wedi'u cyflwyno er 1997—er mwyn sicrhau bod budd-daliadau'n cael eu targedu'n briodol at y rheini y mae arnynt eu hangen fwyaf, eu bod yn hawdd eu cael, a'u bod yn gymhelliant i bobl weithio yn hytrach nag yn esgus iddynt beidio. Mae'r rheini'n ymrwymadau pwysig iawn, ac mae mynd i'r afael â thlodi wedi bod yn ymrwymiad gan fy mhlaid ers imi fod yn aelod ohoni. O ran eich cyfeiriad at Ming Campbell, hwyrach iddo roi'r araith gyhoeddus gyntaf a gofiwch ar hyn, ond yr oedd yr ymrwymiad yn bodoli ymhell cyn hynny.

Cyfeiriodd Mark Isherwood at y gwelliannau a gyflwynwyd i Fesur Plant a Theuluoedd

(Wales) Measure 2010 on including local government and the voluntary sector. He was absolutely right, because this is about partnership, and involving not just the UK Government, as Bethan Jenkins said—it has many of the levers at its disposal—but the Welsh Assembly Government, local government and the voluntary sector. All those bodies have to work together to deliver on this agenda.

As you know, I am a member of the City and County of Swansea Council, and over six to eight months we carried out scrutiny on how we dealt with child poverty; one of our conclusions, as well as those on a whole range of schemes that are being put in place by the council, was that there is no information available at a council level on how to measure child poverty in a local authority area, or how to measure the effect of council actions on it. If you do not have the information to measure what you are doing, you do not know how effective your actions are. That is an important issue that needs to be tackled, and no doubt Huw will be working on that with the Office for National Statistics to ensure that all bodies at all levels will be able to deal with it.

How is the Government engaging with other bodies on this? Brian Gibbons talked about the tax and benefits system, and he is absolutely right that it is crucial to this. That is one reason why the Liberal Democrat manifesto talks about simplifying the tax credit system and introducing six-month tranches of payments rather than having monthly adjustments that cause so many people to have to pay back thousands of pounds. I am sure that every Assembly Member has had people come to their surgeries with bills for £6,000, £8,000, £10,000 or £12,000—there was one case in my constituency of a bill for £18,000—that have to be paid back because information had not been forthcoming, or because there were problems with the system. The system needs to be simplified, and we are committed to doing that as part of our agenda to deal with child poverty.

Our proposal to raise the income tax

(Cymru) 2010 ar gynnwys llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Yr oedd yn llygad ei le, oherwydd mae a wnelo hyn â phartneriaeth, a chynnwys nid yn unig Llywodraeth y DU, fel y dywedodd Bethan Jenkins—mae llawer o'r grymoedd ganddi eisoes—ond Llywodraeth y Cynulliad, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol hefyd. Rhaid i'r holl gyrff hyn gydweithio i gyflawni ar yr agenda hon.

Fel y gwyddoch, yr wyf yn aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe, a thros gyfnod o chwech i wyth mis buom yn craffu ar y modd yr oeddem yn ymdrin â thlodi plant. Un o'n casgliadau, yn ogystal â'r rheini ar ystod eang o gynlluniau y mae'r cyngor yn eu rhoi ar waith, oedd nad oes gwybodaeth ar gael ar lefel cyngor ynghylch sut i fesur tlodi plant mewn ardal awdurdod lleol, neu sut i fesur effaith camau gweithredu cyngor i fynd i'r afael ag ef. Os nad yw'r wybodaeth gennych i fesur yr hyn yr ydych yn ei wneud, ni fyddwch yn gwybod pa mor effeithiol yw eich camau gweithredu. Mae hynny'n broblem bwysig y mae angen mynd i'r afael â hi, ac mae'n siŵr y bydd Huw yn gweithio ar hynny gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn sicrhau bod pob corff ar bob lefel yn gallu ymdrin â hi.

Sut mae'r Llywodraeth yn ymgysylltu â chyrrff eraill ar y mater hwn? Soniodd Brian Gibbons am y system dreth a budd-daliadau, ac mae'n hollol iawn fod y system yn hollbwysig i'r mater. Dyna un rheswm pam mae maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol yn sôn am symleiddio'r system credydau treth a chyflwyno taliadau bob chwe mis, yn hytrach na chael addasiadau bob mis sy'n golygu ei bod yn rhaid i gynifer o bobl ad-dalu miloedd o bunnoedd. Yr wyf yn siŵr fod pob Aelod o'r Cynulliad wedi cael pobl yn dod i'w cymorthfeydd gyda biliau o £6,000, £8,000, £10,000 neu £12,000—yr oedd un achos yn fy etholaeth i'n ymwneud â bil o £18,000—symiau y mae'n rhaid eu had-dalu oherwydd nad oedd gwybodaeth ar gael yn hawdd, neu oherwydd bod problemau gyda'r system. Mae angen symleiddio'r system, ac yr ydym wedi ymrwymo i wneud hynny'n rhan o'n hagenda ar gyfer ymdrin â thlodi plant.

Mae ein cynnig i godi'r trothwy treth incwm i

threshold to £10,000 is also crucial, and will take many people on low pay out of the tax system altogether. It will lift people out of poverty and give them an incentive to go back to work. It will mean that those on benefits will not lose so much, or lose anything at all, if they take a job. That is crucial to our proposals, as is our policy on job creation and a guarantee of training, all of which is funded and costed in our manifesto—something that is unique to the Liberal Democrats. The failure of the child poverty agenda is a failure of partnership in which both Governments—at Westminster and here—are led by Labour. Despite all your passion and ethical coherence, you have failed to ensure that the targets are met.

We have had a lot of talk about tax credits and there is a general consensus—even in the Labour Party, I suspect—that they are overly bureaucratic and unfocused and can cause huge problems. I have talked about our proposals to move to six-monthly tranches to tackle some of those problems. We also propose better targeting of tax credits at the worst-off families. Although that will mean that some families will no longer be eligible for tax credits—such as the families of those earning the same as I and other Members do—in combination with our income tax proposals, it means that the vast majority of families will be better off, as they will either have the tax credits and benefit from the higher income tax threshold, or they will benefit from the change in the threshold. The Institute for Fiscal Studies has confirmed that that is the case. This is not about cutting money to poorer families; it is about ensuring that benefits such as tax credits are targeted properly and that we use the tax system to provide an incentive to work and to ensure that people do not lose out. For all the commitment of the Labour Party on tax credits, it is worth bearing in mind that the Institute for Fiscal Studies has concluded that the family element of the child tax credit has been cut by 19 per cent in real terms by the current Labour Government at Westminster over the last seven years. It is fascinating, considering all the passionate words from Labour about us wanting to cut tax credits,

£10,000 hefyd yn hollbwysig, a bydd yn tynnu llawer o bobl sydd ar gyflogau isel allan o'r system dreth yn gyfan gwbl. Bydd yn codi pobl allan o dlodi ac yn rhoi cymhelliant iddynt aildechrau gweithio. Bydd yn golygu nad yw'r rheini sy'n cael budd-daliadau yn colli cymaint, neu'n colli dim byd o gwbl, os byddant yn dechrau gweithio. Mae hynny'n hollbwysig i'n cynigion, fel y mae ein polisi ar greu swyddi a gwarantu hyfforddiant, ac mae'r cyfan wedi'i gyllido a'i gostio yn ein maniffesto—sy'n rhywbeth unigryw i'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae methiant yr agenda tlodi plant yn fethiant partneriaeth lle caiff y ddwy Lywodraeth—yn San Steffan ac yma—eu harwain gan y Blaid Lafur. Er gwaetha'ch holl angerdd a'ch holl gydlyniaeth foesol, yr ydych wedi methu â sicrhau cyrraedd y targedau.

Clywsom lawer o sôn am greydau treth, ac mae yna gonsensws cyffredinol—hyd yn oed yn y Blaid Lafur, mi dybiaf—eu bod yn orfiwrocataidd, nad yw eu ffocws yn ddigon clir, ac y gallant achosi problemau enfawr. Yr wyf wedi sôn am ein cynigion i fynd i'r afael â rhai o'r problemau hynny trwy gyflwyno taliadau bob chwe mis. Yr ydym hefyd yn cynnig targedu credydau treth yn well at y teuluoedd mwyaf anghenus. Er y bydd hynny'n golygu y bydd rhai teuluoedd yn colli eu hawl i gael credydau treth—megis teuluoedd pobl sy'n ennill yr un faint â mi ac Aelodau eraill—o'i gyfuno â'n cynigion ar gyfer treth incwm, bydd yn golygu bod y mwyafrif helaeth o deuluoedd ar eu hennill, gan y byddant naill ai'n cael y credydau treth ac yn elwa o'r trothwy uwch ar gyfer treth incwm, ynteu'n elwa o'r newid yn y trothwy. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi cadarnhau bod hynny'n wir. Nid oes a wnelo hyn â chwtoegi arian i deuluoedd tlodach; mae'n golygu sicrhau bod budd-daliadau megis credydau treth yn cael eu targedu'n briodol, a'n bod yn defnyddio'r system dreth i roi cymhelliant i bobl weithio a sicrhau nad yw pobl ar eu colled. Er holl ymrwymiad y Blaid Lafur i greydau treth, mae'n werth cofio bod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dod i'r casgliad fod elfen deuluol y credyd treth plant wedi'i thorri 19 y cant mewn termau real gan y Llywodraeth Lafur bresennol yn San Steffan dros y saith mlynedd diwethaf. Mae'n ddiddorol iawn, o

that Labour has already done so in real terms.

Brian Gibbons: I think that the Institute for Fiscal Studies said that it had not increased; I do not think that it said that there had been a cut, as you suggested.

Peter Black: I have it on the computer in front of me; it refers to a cut in real terms of 19 per cent. [*Interruption.*] In real terms, yes, but it is still a cut; a cut is a cut, Brian. We have such things as inflation in this country.

Bethan Jenkins referred to the Assembly's limited competence in this regard. She is right that our competence is limited, but the Welsh Government has targets and legislation on this, and it must be held to account on those, which is what this debate is about today. Our manifesto maintains the commitment to tackle child poverty and introduces measures such as investing in education through the pupil premium and taking low earners out of income tax. A number of Members here have referred to investment in education as important in tackling poverty, which is why we believe that the money going into child trust funds, along with other savings that we have identified, would be best used to invest in education in that way. We believe that the pupil premium will help to tackle child poverty by investing in education.

Andrew Davies: Will you give way?

Peter Black: Yes, Andrew, I will let you talk about Swansea. [*Laughter.*]

Andrew Davies: You talk so passionately about the role of education, so why is the Liberal Democrat administration in Swansea the only local authority administration in Wales that is cutting education spending? It is cutting it by 0.9 per cent.

Peter Black: That is not true, Andrew. A

gofio'r holl eiriau angerddol gan y Blaid Lafur ein bod ni am dorri credydau treth, fod y Blaid Lafur eisoes wedi gwneud hynny mewn termau real.

Brian Gibbons: Credaf i'r Sefydliad Astudiaethau Ariannol ddweud nad oeddent wedi cynyddu; ni chredaf iddo ddweud eu bod wedi'u torri, fel yr oeddech yn ei awgrymu.

Peter Black: Mae'r wybodaeth gennyf ar y cyfrifiadur o'm blaen; mae'n cyfeirio at doriad o 19 y cant mewn termau real. [*Torri ar draws.*] Mewn termau real, ie, ond mae'n doriad o hyd; toriad yw toriad, Brian. Mae gennym bethau megis chwyddiant yn y wlad hon.

Cyfeiriodd Bethan Jenkins at gymhwysedd cyfyngedig y Cynulliad yn y cyswllt hwn. Mae'n iawn wrth ddweud bod ein cymhwysedd yn gyfyngedig, ond mae gan Lywodraeth Cymru dargedau a deddfwriaeth ar hyn, a rhaid ei dwyn i gyfrif am y rheini, a dyna yw diben y ddadl hon heddiw. Mae ein maniffesto'n cynnal yr ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant, ac mae'n cyflwyno mesurau megis buddsoddi mewn addysg trwy'r premiwm disgyblion a thryw dynnu pobl ar gyflogau isel allan o'r system treth incwm. Mae nifer o Aelodau yma wedi cyfeirio at y ffaith fod buddsoddi mewn addysg yn bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi, a dyna pam y credwn y byddai'n well defnyddio'r arian sy'n mynd i'r cronfeydd ymddiriedolaethau plant, ynghyd ag arbedion eraill yr ydym wedi'u nodi, i fuddsoddi mewn addysg fel hynny. Credwn y bydd y premiwm disgyblion yn helpu mynd i'r afael â thlodi plant trwy fuddsoddi mewn addysg.

Andrew Davies: A wnewch chi ildio?

Peter Black: Gwnaf, Andrew, cewch sôn am Abertawe. [*Chwerthin.*]

Andrew Davies: Yr ydych yn sôn am rôl addysg gyda'r fath angerdd. Felly, pam mai Abertawe, dan weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sy'n torri gwariant ar addysg? Mae'n ei dorri 0.9 y cant.

Peter Black: Nid yw hynny'n wir, Andrew.

number of other local authorities in Wales are cutting education spending; they are just doing it in a different way. For example, although Neath Port Talbot County Borough Council has put money for the teachers' pay rise into the budget, it has held back on special educational needs. The net effect is the same: there is less money going to schools. The reason for that is because less money is coming to local councils. Schools in Wales are worse off than schools in England by £527 per pupil, because this Assembly Government is not investing in education. Under the costed proposals that the Welsh Liberal Democrats have put forward in their manifesto, £80 million would come to Wales to invest in education. That is the Barnett consequential of our proposals on the pupil premium. Therefore, the extra money that we would give would enable councils such as Swansea, Neath Port Talbot and Carmarthenshire to invest in education and to help schools. Those councils have had to trim their education budgets in some form, meaning less money for schools. That is the reality that we face today.

In conclusion, the Welsh Liberal Democrats are committed to the child poverty agenda. We support the targets that are in front of us. However, we very much regret that those targets are not being met and that we are falling back with regard to those commitments. We believe that the proposals that we have put forward in our manifesto, which we will continue to promote long after the general election is over, would have an important impact in helping to take people out of poverty and to deal with the child poverty agenda. Until we have a joined-up approach, with the UK Government working with the Welsh Assembly Government and with local councils, we will not be in a position to deliver on the targets, no matter how much ethical coherence there is on this subject.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed without amendment. Is there any objection? I see that there is. Therefore, the votes will be deferred until voting time.

Mae nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn torri gwariant ar addysg; ond maent yn ei wneud mewn ffordd wahanol. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi rhoi arian ar gyfer y codiad cyflog i athrawon yn y gyllideb, ond mae wedi dal yn ôl ar anghenion addysgol arbennig. Yr un yw'r effaith net: mae llai o arian yn cyrraedd ysgolion. Y rheswm am hynny yw bod llai o arian yn dod i gynghorau lleol. Mae ysgolion yng Nghymru yn cael £527 y pen yn llai nag ysgolion yn Lloegr am nad yw'r Llywodraeth hon yn y Cynulliad yn buddsoddi mewn addysg. Dan y cynigion sydd wedi'u costio a'u cyflwyno ym maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, byddai £80 miliwn yn dod i Gymru i'w fuddsoddi mewn addysg. Dyna swm canlyniadol Barnett ein cynigion ynghylch y premiwm disgyblion. Felly, byddai'r arian ychwanegol y byddem yn ei ddarparu yn galluogi cynghorau megis Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin i fuddsoddi mewn addysg a helpu ysgolion. Bu'n rhaid i'r cynghorau hynny gwtogi eu cyllidebau addysg mewn rhyw fodd, sy'n golygu llai o arian i ysgolion. Dyna yw realiti'r sefyllfa sy'n ein hwynebu heddiw.

I gloi, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ymrwymo i'r agenda tlodi plant. Yr ydym yn cefnogi'r targedau sydd o'n blaen. Fodd bynnag, yr ydym yn gresynu'n fawr iawn nad yw'r targedau hynny'n cael eu cyrraedd a'n bod yn colli tir o safbwynt yr ymrwymadau dan sylw. Credwn y byddai'r cynigion yr ydym wedi'u cyflwyno yn ein maniffesto, y byddwn yn parhau i'w hybu ymhell ar ôl yr etholiad cyffredinol, yn cael effaith bwysig o ran helpu codi pobl allan o dlodi ac ymdrin â'r agenda tlodi plant. Nes bydd gennym ddull gweithredu cydgysylltiedig, a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a chynghorau lleol, ni fyddwn mewn sefyllfa i gyrraedd y targedau, ni waeth faint o gydlyniaeth foesol a fydd ar y mater hwn.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

The Business Committee agreed that voting would take place no earlier than 4.30 p.m. We have gone past 4.30 p.m., therefore I propose to move straight to the votes. Does any Member wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

Yr oedd y Pwyllgor Busnes wedi cytuno na fyddai'r pleidleisio'n digwydd cyn 4.30 p.m. Mae wedi troi 4.30 p.m., felly cynigiau ein bod yn symud yn syth i'r cyfnod pleidleisio. A oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4465: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 22.
Motion NDM4465: For 13, Abstain 0, Against 22.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4465: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 22.
Amendment 1 to NDM4465: For 13, Abstain 0, Against 22.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice

Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4467: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 22.
Motion NDM4467: For 13, Abstain 0, Against 22.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4467: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 13.
Amendment 1 to NDM4467: For 22, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David

Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.
Amendment 2 deselected.*

Cynnig NDM4467 fel y'i diwygiwyd: bod

Motion NDM4467 as amended: that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

1. yn nodi â phryder bod rhyw 192,000 o blant, yn ôl y ffigurau a gynhyrchwyd gan y Joseph Rowntree Foundation yn 2009, yn byw mewn tlodi yng Nghymru;

1. notes with concern that, according to figures produced by the Joseph Rowntree Foundation in 2009, there are an estimated 192,000 children living in poverty in Wales;

2. yn croesawu'r camau sydd eisoes yn cael eu cymryd i leihau tlodi plant fel Dechrau'n Deg, Genesis Cymru a chronfa ymddiriedolaeth plant Cymru;

2. welcomes the action that is already being taken to reduce child poverty such as Flying Start, Genesis Cymru and child trust fund Cymru;

3. yn croesawu ymhellach y ffaith mai Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r cyntaf i gyflwyno deddfwriaeth newydd, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, i roi sail statudol ar gyfer ei strategaeth tlodi plant newydd, a gyhoeddir cyn hir at bwrpas ymgynghori.

3. further welcomes the Welsh Assembly Government being the first to introduce new legislation, the Children and Families (Wales) Measure 2010, to provide a statutory basis for its new child poverty strategy, which will be published for consultation very shortly.

*Cynnig NDM4467 fel y'i diwygiwyd: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 13.
Motion NDM4467 as amended: For 22, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

Jenkins, Bethan
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

*Derbyniwyd y cynnig NDM4467 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4467 as amended agreed.*

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

The Deputy Presiding Officer: I have been notified by Nick Ramsay that he wishes to move a procedural motion in accordance with Standing Order No. 7.26 to postpone the short debate tabled in his name.

Y Dirprwy Lywydd: Cefais wybod gan Nick Ramsay ei fod yn dymuno cyflwyno cynnig trefniadol gerbron, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.26, i ohirio'r ddadl fer a gyflwynwyd yn ei enw.

Nick Ramsay: I move that

Nick Ramsay: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales, under Standing Order No. 7.26, postpones the short debate tabled in my name.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Reol Sefydlog Rhif 7.26, yn gohirio'r ddadl fer a osodwyd yn fy enw i.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the procedural motion to postpone the short debate. Does any Member object? I see that there is no objection. This item is therefore postponed. That brings today's proceedings to a close.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn cytuno'r cynnig trefniadol i ohirio'r ddadl fer. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Mae'r eitem hon wedi'i gohirio, felly. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion agreed.*

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.01 p.m.
 The meeting ended at 5.01 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)